Tribiwnlys Addysg Cymru | Education Tribunal for Wales

# Adolygiad o'r Fframwaith Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru

Cyfraniad gan Dribiwnlys Addysg Cymru

Y Barnwr Jane McConnell

1 Medi 2025

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .... 4
2. Crynodeb .... 5
2.1 Mater Allweddol 1: Cymhwyso'r diffiniad o ADY .... 5
2.2 Mater Allweddol 2: Nodi beth yw DDdY .... 6
2.3 Mater Allweddol 3: Effaith Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Ddeddf ALNET .... 6
2.4 Mater Allweddol 4: Y gwasanaethau cyngor a gwybodaeth sydd ar gael .... 7
2.5 Mater Allweddol 5: Gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc .... 7
2.6 Mater Allweddol 6: Pryd mae gofyn i Awdurdod Lleol lunio a chynnal CDU .... 7
2.7 Mater Allweddol 7: DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG yn Adran 2C mewn CDU .... 9
2.8 Mater Allweddol 8: Enwi Lleoliad Addysgol yn Adran 2D mewn CDU .... 9
2.9 Mater Allweddol 9: Peidio â chynnal CDU – Addysg hyd at 25 oed .... 10
2.10 Mater Allweddol 10: Cyfleu penderfyniadau sy'n sbarduno hawl i apelio i'r Tribiwnlys .... 11
3. Rôl Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC) .... 12
4. Cwmpas tystiolaeth TAC .... 12
5. Ystadegau'r Tribiwnlys .... 13
6. Diffiniadau .... 14
7. Canfyddiadau .... 16
7.1 Diffinio a nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) .... 16
7.2 Diffinio a nodi Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) .... 23
7.3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn .... 27
7.4 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau .... 29
7.5 Cyngor a Gwybodaeth am ADY a'r System ADY .... 31
7.6 Dyletswydd i lunio a chynnal CDU – plant a phobl ifanc mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach .... 37
7.7 Cynnwys CDU – Adran 2A ADY .... 46
7.8 Cynnwys CDU – Adran 2B DDdY gan gynnwys deilliannau .... 49
7.9 Cynnwys CDU – Adran 2C DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG .... 55
7.10 Cynnwys CDU – Lleoliad addysgol Adran 2A .... 58
7.11 Cynnwys y CDU i'w ddarparu yn Gymraeg .... 74
7.12 Plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ond yn cael eu haddysgu yn Lloegr .... 76
7.13 Plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg o dan adran 53 o Ddeddf ALNET - ADY addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS) .... 78

7.14 **Peidio â chynnal CDU** ........ 82
7.15 **Plant a phobl ifanc heb alluedd meddyliol** ........ 86
7.16 **Trosglwyddo'r Ddarpariaeth AAA i Ddeddf ALNET – (o'r Datganiadau AAA a Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy i CDUau)** ........ 89
7.17 **Plant sy'n Derbyn Gofal** ........ 92
7.18 **Plant a Phobl Ifanc dan Gadwad** ........ 94
7.19 **Penderfyniadau'r awdurdod lleol** ........ 96
7.20 **Hawliau i apelio i'r Tribiwnlys a phwerau'r Tribiwnlys** ........ 100
**Atodiad 1 – Ystadegau'r Tribiwnlys** ........ 104

# 1. Cyflwyniad

Bydd cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn aml yn heriol yn ystod y cyfnod pontio. Lle mae agweddau ar y newidiadau a gyflwynir yn sylfaenol wahanol i'r hyn sydd wedi bod ar gael o'r blaen, mae'n cymryd amser i'r rhai sy'n gorfod gwneud penderfyniadau o dan y trefniadau newydd eu deall a'u rhoi ar waith bob dydd.

Sefydlodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (“Deddf ALNET”) fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) yng Nghymru. Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (“y Cod ADY”) yn cynnwys canllawiau statudol ar gyfer (ymhlith eraill) pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Dechreuwyd gweithredu’r fframwaith ym mis Medi 2021 ac mae pawb y mae'n effeithio arnynt, gan gynnwys Tribiwnlys Addysg Cymru (“TAC”), wedi bod yn gweithio gydag ef ers hynny. Daeth y cyfnod pontio o'r “hen” fframwaith statudol Anghenion Addysgol Arbennig (“AAA”) o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 i'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) “newydd” i ben ym mis Awst 2025. Erbyn hyn, dylai'r holl blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu a allai fod ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, fod wedi cael eu hystyried drwy brism y fframwaith newydd hwn gan yr awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau yn y sector addysg bellach ac eraill sydd â'r dasg o'u cefnogi.

Bwriad y dystiolaeth gan y Tribiwnlys yn yr adroddiad hwn yw llywio adolygiad Llywodraeth Cymru o'r fframwaith ADY. Ni ddylid ei ddarllen fel rhywbeth beirniadol. Nid yw'n nodi'r holl faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY newydd ond mae'n canolbwyntio ar y rhai y mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn dangos mai dyma'r materion allweddol y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno eu hystyried. Gan fod TAC yn gorff barnwrol, ni all, ac nid yw, yn darparu unrhyw sylwadau ar rinweddau cymharol y gyfraith newydd nac yn darparu unrhyw arweiniad ynghylch ei chymhwyso.

Rhaid cydnabod mai dim ond mewn achosion lle mae anghydfod rhwng rhiant/rhieni neu blant a phobl ifanc ac awdurdod lleol nad yw wedi cael ei ddatrys drwy ddulliau amgen fel trafodaeth, dull amgen o ddatrys anghydfod neu gyfryngu y bydd apeliadau'n cael eu dwyn i'r Tribiwnlys. Felly, ni fydd tystiolaeth o achosion Tribiwnlys yn tynnu sylw at unrhyw beth cadarnhaol i blant a phobl ifanc sydd wedi deillio o weithredu Deddf ALNET.

Hoffwn ddiolch i aelodau tîm gweithrediadau Tribiwnlys Addysg Cymru am eu cefnogaeth wrth gynhyrchu'r adolygiad hwn, gan gydnabod rôl ganolog y Barnwr Michele Michaelson wrth ddarparu cymorth cyfreithiol.



Y Barnwr Jane McConnell

Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru

1 Medi 2025

## 2. **Crynodeb**

Fel y nodwyd eisoes mewn tystiolaeth lafar i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru ar 20 Mawrth 2024, gellir disgrifio'r fframwaith statudol newydd a nodir o dan Ddeddf ALNET fel un sy'n *"heriol yn ddeallusol"*. Mae'r adolygiad manwl o achosion sy'n sail dystiolaethol i'r adroddiad hwn yn parhau i gefnogi'r farn hon. Dyma'r materion allweddol sy'n codi o'r adolygiad hwn efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ddymuno eu hystyried:

### 2.1 **Mater Allweddol 1: Cymhwyso'r diffiniad o ADY**

Mae'r diffiniad o ADY yn newid i'r derminoleg, nid i'r sylwedd. Mae geiriad y diffiniad yr un fath â'r diffiniad blaenorol o anghenion addysgol arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996.

Mae'r prawf cyfreithiol sydd i'w gymhwyso o dan adran 2 o Ddeddf ALNET yn nodi dau brawf cymhwyso posibl ar gyfer bod ag ADY. Rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc fod ag Anabledd neu Anhawster Dysgu. Mae'n ymddangos bod rhai awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn gweld y diffiniad o anhawster dysgu yn anodd, gyda'r ddau brawf yn cael eu cyfuno. Bydd gan blentyn neu berson ifanc anhawster dysgu: *"os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran"* hynny yw, ei gyfoedion sy'n datblygu fel arfer.

Mae adrannau 2.19 – 2.24 y Cod yn datgan y gellir nodi a yw plant a phobl ifanc yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu drwy edrych ar y ddarpariaeth addysg neu hyfforddiant sydd ei hangen arnynt (neu a allai fod ei hangen arnynt). Os yw'r ddarpariaeth honno o fath sydd ar gael yn gyffredinol mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir neu sefydliad addysg bellach - gan gynnwys darpariaeth dal i fyny neu strategaethau addysgu gwahaniaethol - yna ni fydd hyn yn DDdY (darpariaeth ddysgu ychwanegol), a chanfyddir nad oes gan y plentyn neu berson ifanc ADY gan nad yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu. Os yw'r ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt yn fwy na'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol, yna DDdY fydd hyn, a bydd gan y plentyn neu'r person ifanc ADY gan y bydd yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu.

Nid yw'r esboniad hwn yn y Cod - cysylltu'r prawf â darpariaeth - yn adlewyrchu'r prawf cyfreithiol yn Neddf ALNET. Efallai bod hyn yn cyfrannu at y problemau o ran deall y prawf cyfreithiol a welir yn y dystiolaeth. Y prawf cyfreithiol yw cymharu'r hyn y mae plant a phobl ifanc wedi'i ddysgu â'r hyn y mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc eraill o'r un oedran wedi'i ddysgu, nid y ddarpariaeth sydd ar gael mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach.

Mae problemau go iawn hefyd wedi codi o ddatblygu'r term polisi *"Darpariaeth Gyffredinol"* yn ogystal â disgrifio darpariaeth/cymorth fel *"wedi'i dargedu"*, *"wedi'i fonitro"* ac *"arbenigol"*, sef terminoleg sydd wedi ymddangos yn gyffredin gan awdurdodau lleol ac ysgolion. Ni chyfeirir at y cysyniadau hyn yn Neddf ALNET nac yn y Rheoliadau ategol. Nid oes diffiniad cyfreithiol ar gyfer yr un ohonynt. Maent yn cael eu dehongli'n wahanol mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol. Mewn un awdurdod lleol, roedd darpariaeth gyffredinol yn cyfeirio at yr holl ddarpariaeth y disgwylir iddi fod ar gael mewn ysgol brif ffrwd,

gan gynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol nad yw fel arfer yn cael ei gwneud ar gyfer disgyblion sy'n datblygu fel arfer. Mewn awdurdodau lleol eraill, mae'r term yn cyfeirio at y ddarpariaeth y disgwylir iddi gael ei rhoi ar waith ar gyfer disgyblion sy'n datblygu fel arfer yn unig.

## 2.2 Mater Allweddol 2: Nodi beth yw DDdY

Yn ei hanfod, nid yw'r diffiniad cyfreithiol o DDdY o dan adran 3 o Ddeddf ALNET yn wahanol i'r diffiniad o ddarpariaeth addysgol arbennig (DAA) o dan adran 312(4) o Ddeddf Addysg 1996 sy'n ymwneud â darpariaeth addysgol. Fodd bynnag, mae wedi ehangu i gynnwys *"darpariaeth hyfforddiant"* hefyd.

Mae'n dilyn felly y bydd plentyn a gafodd ddarpariaeth a wnaed fel DAA o dan drefniadau Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu drwy Ddatganiad AAA yn cael DDdY o dan Ddeddf ALNET. Yr unig eithriad yw pan fydd tystiolaeth bod eu hanghenion unigol wedi newid i'r graddau nad yw'r diffiniad yn berthnasol mwyach.

Mae'r diffiniad o DDdY o dan Ddeddf ALNET yn adlewyrchu diffiniad o DAA o dan ddeddfwriaeth bresennol Lloegr o dan adran 21(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Felly, rhaid ystyried effaith cyfraith achosion berthnasol o dan Ddeddf Addysg 1996 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014.

Pan fydd achosion yn cael eu cofrestru gyda'r Tribiwnlys, mae anghydfodau sylfaenol yn aml rhwng y partïon ynghylch a yw'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc yn DDdY. Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn gweithredu polisi, os gellir disgwyl i'r ddarpariaeth gael ei gwneud gan yr ysgol a gynhelir – prif ffrwd neu arbennig – y mae plant a phobl ifanc yn ei mynychu, yna nid yw'n DDdY. Pan fydd y Tribiwnlys yn egluro'r prawf cyfreithiol fel rhan o'r broses rheoli achos, bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu fel arfer.

Pan fydd darpariaeth therapi fel therapi galwedigaethol, ffisiotherapi neu therapi lleferydd ac iaith yn cael ei darparu gan un o gyrff y GIG, bydd hefyd fel arfer yn parhau i fod yn DDdY. Y dystiolaeth i'r Tribiwnlys yw bod rhai awdurdodau lleol yn datgan nad yw darpariaeth o'r fath yn DDdY.

Mewn apêl, bydd y Tribiwnlys yn defnyddio ei arbenigedd arbenigol i benderfynu a yw'r cymorth y mae plant a phobl ifanc yn ei gael, neu sydd ei angen arnynt, yn DDdY. Y prawf i'w gymhwyso yw a yw'r ddarpariaeth honno'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n datblygu fel arfer ledled Cymru. Nid DDdY fydd cymorth sy'n gwahaniaethu'r cwricwlwm.

Nid yw'r cymharydd yn y prawf hwn yn un sy'n ystyried yr adnoddau a'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach penodol ond yr hyn sydd ar gael yn gyffredinol mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

## 2.3 Mater Allweddol 3: Effaith Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Ddeddf ALNET

Mae Deddf ALNET yn cynnwys dyletswydd i roi sylw i ***Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*** a ***Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau***, sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chyrff y GIG roi sylw dyledus i'r Confensiynau wrth arfer swyddogaeth o dan Ddeddf ALNET. Nid yw hon yr un ddyletswydd â phan fabwysiedir confensiwn drwy benderfyniad, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban, ond gallai eglurhad am hyn fod yn ddefnyddiol.

Mewn apêl, mae TAC yn rhoi ei hun yn sefyllfa awdurdod lleol.

Mae cynnwys hawliau plentyn neu berson ifanc yn y confensiwn fel rhan o'r ddadl mewn apêl eisoes wedi digwydd mewn dau achos. Felly, mae'n bosibl y bydd hyn yn digwydd eto.

Er bod y ddyletswydd yn ddyletswydd i "roi sylw", pan fydd awdurdodau lleol yn mabwysiadu polisïau a allai dorri'r Confensiwn (fel mabwysiadu polisi sy'n cyfyngu ar faint o DDdY sydd i'w darparu i blant a phobl ifanc), efallai y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fod yn barod i egluro pam eu bod wedi gwneud hynny.

2.4 **<u>Mater Allweddol 4: Y gwasanaethau cyngor a gwybodaeth sydd ar gael</u>**

Mae'r dystiolaeth gan TAC yn dangos bod capasiti'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a roddir ar waith gan awdurdodau lleol yn gwbl annigonol i ddiwallu anghenion rhiant/rhieni a phlant a phobl ifanc, awdurdodau lleol neu ysgolion/colegau. Lle darparwyd cyngor a gwybodaeth, y ffordd orau o ddisgrifio'r ansawdd yw ei fod yn dameidiog. Yn aml, mae'n gwbl anghywir. Weithiau mae'n gamarweiniol a/neu'n seiliedig ar bolisi'r awdurdod lleol, ac nid y gyfraith.

Nid yw'r mwyafrif llethol o apelyddion yn cael eu cefnogi na'u cynrychioli i ddwyn eu hapêl er eu bod yn gofyn am help gan ffynonellau y mae eu hawdurdod lleol wedi cyfeirio atynt. O ganlyniad, nid yw achosion yn cael eu cyflwyno'n dda pan wneir y cais i gofrestru apêl. Mae'n rhaid i'r Tribiwnlys egluro cwmpas y gyfraith sydd i'w chymhwyso ond heb "gamu i'r maes" a rhoi cyngor, yn benodol i riant/rhieni a phlant a phobl ifanc. Mae'r Tribiwnlys yn gweld cynnydd mewn materion y tu allan i'w awdurdodaeth yn cael eu codi y gellid bod wedi'u datrys rhwng apelydd ac awdurdod lleol drwy gael trafodaeth ar sail gwybodaeth.

2.5 **<u>Mater Allweddol 5: Gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc</u>**

Mae diffyg eiriolwyr annibynnol gyda'r lefel ofynnol o arbenigedd i ddarparu cyngor a chymorth neu gynrychioli plant a phobl ifanc mewn apêl. Rhaid i arbenigwyr o'r fath feddu ar y sgiliau i allu cyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc sydd ag ADY, a allai fod ag amhariad gwybyddol, anawsterau lleferydd ac iaith neu orbryder. Efallai na fydd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i awdurdod lleol, a allai fod ag arbenigedd o'r fath, yn cael eu hystyried fel rhai sydd â'r lefel ofynnol o annibyniaeth ar eu cyflogwr.

2.6 **<u>Mater Allweddol 6: Pryd mae gofyn i Awdurdod Lleol lunio a chynnal CDU</u>**

Rhaid i unrhyw blant a phobl ifanc ag ADY gael CDU sy'n cael ei gynnal naill ai gan ysgol, sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol cyfrifol.

Mae'r ddyletswydd ar awdurdod lleol i lunio a chynnal CDU wedi'i chynnwys yn adran 14(2)(a). Mae'r amgylchiadau sy'n sbarduno dyletswydd yr awdurdod lleol yn achos plentyn sydd mewn ysgol a gynhelir wedi'u nodi yn adran 12(2). Mae hyn yn golygu pan fydd y corff llywodraethu yn ystyried bod gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol:

i. a all alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau,
ii. na all y corff llywodraethu bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol, neu
iii. na all y corff llywodraethu bennu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer yn ddigonol.

Mae opsiwn hefyd yn adran 14(2)(b) y gall awdurdod lleol gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnal y cynllun, os yw'r awdurdod o'r farn ei fod yn "briodol". Mae hyn yn golygu bod gwahaniaeth rhwng amodau adran 12(2) (sy'n cyflwyno'r ddyletswydd o dan adran 14(2)(a)) ac adran 14(2)(b). Nid yw'r Cod ADY yn datrys hyn; mae'n nodi ym mharagraff 15.91 sefyllfaoedd lle na ddylai awdurdod lleol ddefnyddio ei bwerau i gyfarwyddo ysgol i lunio CDU ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Dibynnir ar y pŵer cyfarwyddo hwn mewn rhai awdurdodau lleol i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros gynnal CDU i'w holl ysgolion a gynhelir, gan gynnwys ysgolion arbennig a gynhelir, ac eithrio yn yr amgylchiadau mwyaf cyfyngedig. Yn aml, mae p'un a all ac a fydd ysgol yn gallu gwneud y DDdY yn destun anghydfod ganddynt mewn apeliadau. Rhaid cofio mai rôl y Tribiwnlys yw ystyried anghydfodau rhwng rhiant/rhieni, plant a phobl ifanc ac awdurdod lleol cyfrifol. Nid penderfynu ar anghydfodau rhwng awdurdod lleol ac ysgol.

Mae'r prawf cyfreithiol pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad o'r fath ynghylch person ifanc a fydd yn mynychu ysgol neu sefydliad addysg bellach wedi'i nodi yn Rheoliad 8. Mae angen i awdurdod lleol lunio a chynnal CDU pan fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu ei bod yn "rhesymol" enwi lleoliad yn y CDU o dan adran 14(6) o Ddeddf ALNET neu pan "nad yw'n rhesymol" i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arnynt. Mae hyn yn ei wneud yn wahanol i'r prawf "priodol" y gellir ei ddefnyddio mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc mewn ysgol.

Mae'r ffaith nad yw bellach yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol o anghenion plant a phobl ifanc i nodi'r ddarpariaeth yn golygu bod rhai penderfyniadau ynghylch pwy ddylai gynnal CDU yn cael eu gwneud heb fod tystiolaeth glir ar gael ynghylch ADY y plant a'r bobl ifanc na'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny.

Y dystiolaeth o achosion apêl yw bod y profion newydd yn creu gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae Deddf ALNET yn cael ei chymhwyso ledled Cymru gydag anghysondebau clir mewn penderfyniadau ynghylch a yw CDU plant a

phobl ifanc yn cael ei gynnal gan ysgol, sefydliad addysg bellach neu eu hawdurdod lleol.

2.7 **<u>Mater Allweddol 7: DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG yn Adran 2C mewn CDU</u>**

Os nodir bod y ddarpariaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc yn DDdY, rhaid ei disgrifio yn Adran 2B mewn CDU. Os yw DDdY i gael ei darparu gan un o gyrff y GIG, gellir ei nodi yn Adran 2C CDU, ond dim ond gyda chytundeb y corff GIG cyfrifol.

Nid rôl y Tribiwnlys yw ystyried a phenderfynu ar anghydfodau rhwng awdurdod lleol a chorff GIG.

Nid oes unrhyw beth yn y broses o ddrafftio Deddf ALNET i awgrymu bod un o gyrff y GIG yn cyflwyno DDdY, fel y'i cofnodir yn adran 2C mewn CDU, yn golygu y dylid tynnu DDdY o Adran 2B o ganlyniad i hynny. Gallai eglurhad pellach ar hyn fod yn ddefnyddiol gan fod y dull polisi a fabwysiadwyd gan rai awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn awgrymu y gall awdurdod lleol ddirprwyo'r cyfrifoldeb i gyflwyno darpariaeth i gorff y GIG, ac nad oes dyletswydd sylfaenol sy'n aros gyda'r awdurdod lleol.

2.8 **<u>Mater Allweddol 8: Enwi Lleoliad Addysgol yn Adran 2D mewn CDU</u>**

Mae enwi lleoliad addysgol penodol yn Adran 2D mewn CDU bellach yn eithriad yn hytrach na'r rheol.

Mae'n rhaid i blant a phobl ifanc ag ADY, hyd yn oed os yw eu CDU yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol, wneud cais am le mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach drwy'r broses derbyniadau cyffredinol a ddilynir gan bawb.

O dan y trefniadau derbyn cyffredinol a nodir o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio ag unrhyw ddewis ysgol a fynegir gan riant oni bai bod eithriad o dan adran 86(3) o'r Ddeddf hon yn berthnasol. Y rhain yw y byddai'r dewis yn niweidio'r ddarpariaeth addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon neu os yw'r trefniadau ar gyfer derbyn i'r ysgol a ffefrir: (i) yn seiliedig yn llwyr ar ddewis drwy gyfeirio at allu neu ddawn, a (ii) yn seiliedig felly gyda'r nod o dderbyn disgyblion galluog neu sydd â dawn yn unig, ac y byddai cydymffurfio â'r dewis yn anghydnaws â dewis o dan y trefniadau hynny.

Yr unig eithriad yn y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion i fynd drwy'r broses dderbyniadau cyffredinol yw pan fydd ysgol a gynhelir yn cael ei henwi o dan adran 48 o Ddeddf ALNET.

Mae cyfraith achosion ddiweddar wedi sefydlu bod adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 yn dal yn berthnasol yng Nghymru. Dyma'r ddyletswydd i roi sylw i'r egwyddor bod disgyblion i gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau rhieni. Rhaid i awdurdod lleol ystyried hyn hefyd wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu lleoedd mewn ysgolion.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd (amodol) o dan adran 14 (6) o Ddeddf ALNET a phŵer o dan adran 48 o Ddeddf ALNET, y ddau ohonynt yn ymwneud â phenderfyniadau derbyn a wneir gan awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol; mae i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn ystyried hyn ac ar ba bwynt yn y broses y maent yn gwneud hynny yn amrywio.

Mae tystiolaeth o apeliadau a wneir i'r Tribiwnlys yn dangos nad yw awdurdodau lleol yn ystyried ADY plant a phobl ifanc yn rhy aml wrth wneud penderfyniadau derbyn. Nid yw'r prawf o dan adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 yn cael ei ystyried yn benodol chwaith. Fel mater o drefn, nid yw awdurdodau lleol yn darparu llythyrau penderfyniad i riant/rhieni neu blant a phobl ifanc yn egluro eu penderfyniad derbyn nac yn rhoi gwybod iddynt am eu hawl i apelio i TAC ynghylch lleoliad.

Nid yw'n glir chwaith sut y mae awdurdodau lleol yn ystyried penderfyniadau a wneir ynghylch pobl ifanc y gwrthodwyd eu derbyn i'r sefydliad addysg bellach neu sefydliad arall o'u dewis o dan adran 14(6) o Ddeddf ALNET, neu sut y maent yn cael gwybod am eu hawl i apelio i TAC. Bydd y ffaith na all awdurdod lleol, na'r Tribiwnlys ar apêl, enwi sefydliad addysg bellach a ariennir gan y llywodraeth mewn CDU a gynhelir gan awdurdod lleol heb eu cytundeb, hefyd o bosibl yn achosi problemau lle na chynigir lleoliad. Gallai'r unig leoliad addysgol arall fod mewn Coleg Arbenigol Annibynnol.

Byddai eglurhad yn ddefnyddiol gan ganolbwyntio ar y gydberthynas rhwng rhannau perthnasol o Ddeddf ALNET (adran 14(6), adran 48 ac adran 51) a phroses derbyniadau'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion ac yn benodol sut y byddant yn cael eu cymhwyso gan awdurdod lleol, neu'r Tribiwnlys, wrth benderfynu pa leoliad addysgol y bydd plant a phobl ifanc yn ei fynychu.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol diffinio'r termau canlynol a ddefnyddir yn Neddf ALNET:

| | |
|---|---|
| a.14(6) | *"anghenion rhesymol"* |
| a.14(7) | *"sefydliad arall"* |
| a.48(4)(a) | *"lles y plentyn"* |
| a.48(4)(b) | *"[p]riodol"* |
| a.51(2)(b) | *"lles pennaf y plentyn"* |

Bydd egluro'r diffiniadau yn helpu i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso'n gyson gan bawb sydd angen gweithio gyda hi, yn enwedig awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

2.9 **<u>Mater Allweddol 9: Peidio â chynnal CDU – Addysg hyd at 25 oed</u>**

Bellach, gall CDU gael ei gynnal gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach nes bydd person ifanc yn 25 oed ac o bosibl tan ddiwedd y flwyddyn academaidd honno gyda chytundeb awdurdod lleol. Mae iaith yn y Cod ADY (gweler er enghraifft paragraff 17.65) yn dangos bod gan berson ifanc hawl i hyd at ddwy flynedd o addysg bellach neu hyfforddiant. Nid yw'n ymddangos

bod hyn yn ystyried dyletswyddau o dan adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (mae’r olaf yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant i ddisgyblion dros 19 oed). Er bod y geiriad yn y Cod ADY yn adlewyrchu'r Rheoliadau ADY, (gweler Rheoliad 9 yn benodol ynghylch rhaglenni astudio addas), byddai’n ddefnyddiol cael eglurhad pellach ar sut y bwriedir i'r ddau gysyniad hyn, a allai wrthdaro, ryngweithio.

2.10 **<u>Mater Allweddol 10: Cyfleu penderfyniadau sy'n sbarduno hawl i apelio i'r Tribiwnlys</u>**

Oni bai, pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad am ADY plant a phobl ifanc, ei fod yn cyfleu'n glir beth yw'r penderfyniad hwnnw, y rhesymau dros y casgliadau y mae wedi dod iddynt ac a oes hawl i apelio wedi'i sbarduno i TAC, yna bydd problem sylfaenol o ran cael mynediad at gyfiawnder. Mae tystiolaeth gan rieni a phlant a phobl ifanc sy'n gwneud ceisiadau i'r Tribiwnlys yn dangos yn aml iawn nad yw'r awdurdod lleol wedi cyfleu'r darnau hanfodol hyn o wybodaeth (neu o leiaf, nid pob un ohonynt). Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd penderfyniadau wedi cael eu gwneud am y lleoliad addysgol y bydd plant a phobl ifanc yn ei fynychu drwy'r broses derbyniadau cyffredinol. Nid yw awdurdodau lleol yn gallu ystyried y plant a'r bobl ifanc o dan y Ddeddf ALNET os oes ganddynt CDU, p'un a yw'n cael ei gynnal gan ysgol neu'r awdurdod lleol. Mae'r ffaith bod y penderfyniadau ynghylch symud o un cyfnod i'r llall bellach yn cael eu cyhoeddi ar y Diwrnod Cynnig Cenedlaethol (03/03/2025 eleni ar gyfer trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd ac 16/04/2025 i'r Ysgol Gynradd) yn golygu bod yr amserlen ar gyfer apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad o'r fath bellach wedi'i lleihau'n sylweddol. Oni bai bod penderfyniad awdurdod lleol yn glir bod hawl i apelio i'r Tribiwnlys, mae'r siawns y bydd apêl yn cael ei chwblhau cyn diwedd tymor yr haf yn gyfyngedig iawn.

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd gan TAC yn codi nifer o faterion ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno eu hystyried. Mae'r gyfraith, y dystiolaeth a'r materion hynny'n cael eu trafod yn fanylach ym mhrif gorff yr adroddiad adolygu hwn.

## 3. **Rôl Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC)**

Mae TAC yn gorff barnwrol annibynnol sydd â'r pŵer i ystyried apeliadau a wneir gan riant/rhieni, plant a phobl ifanc yn erbyn penderfyniadau a wneir gan eu hawdurdod lleol cyfrifol ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gelwir y sawl sy'n dwyn apêl yn "apelydd". Yr awdurdod lleol sy'n amddiffyn apêl yw'r "atebydd". Gyda'i gilydd, cyfeirir atynt fel "partïon" yr apêl.

Mae hefyd hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol gan gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach, ond nid oes unrhyw apeliadau o'r math hwn wedi'u cofrestru hyd yma.

Mae'r hawliau penodol i apelio i'r Tribiwnlys wedi'u nodi yn adran 70 o Ddeddf ALNET. Mae'r rhain yn darparu terfyn ar awdurdodaeth a phwerau'r Tribiwnlys. Nid yw'r Tribiwnlys yn ymdrin â gorfodi ei benderfyniadau.

## 4. **<u>Cwmpas tystiolaeth TAC</u>**

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i TAC ystyried cwestiynau penodol wrth adolygu'r dystiolaeth o achosion ADY (gweler Atodiad 1).

Adolygwyd y mathau canlynol o apeliadau ADY:

- ✓ **Achosion lle cyhoeddwyd penderfyniad terfynol gan TAC yn dilyn gwrandawiad.** Achosion yw'r rhain a benderfynir gan banel barnwrol sy'n cynnwys Barnwr a dau aelod arbenigol ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a dadleuon a gyflwynwyd gan y partïon. Fel arfer, bydd hyn yn golygu gwrandawiad llafar.

- ✓ **Achosion lle daeth partïon i gytundeb cyn gwrandawiad terfynol a lle cyhoeddwyd gorchymyn cydsynio.** Mae partïon mewn apêl yn cydweithio fwyfwy ac yn dod i gytundeb cyn cynnal gwrandawiad terfynol. Mae hyn yn digwydd yn aml ar ôl i wrandawiad rheoli achos gael ei gynnal gan Farnwr lle mae'r materion sy'n destun anghydfod yn cael eu nodi a'r gyfraith berthnasol yn cael ei thrafod. Yna bydd Barnwr yn ystyried y cytundeb arfaethedig. Os byddant yn cymeradwyo, cyhoeddir gorchymyn cydsynio yn cadarnhau'r cytundeb. Mae hwn yn benderfyniad terfynol sy'n rhwymo'r awdurdod lleol.

- ✓ **Achosion a dynnwyd yn ôl gan riant/rhieni, plentyn neu berson ifanc cyn gwrandawiad terfynol.** Gall apelydd benderfynu tynnu apêl yn ôl ar unrhyw adeg cyn i TAC gyhoeddi penderfyniad terfynol. Gall hyn fod oherwydd bod y partïon wedi dod i gytundeb neu am resymau eraill.

- ✓ **Achosion lle cafodd cais i gofrestru apêl ei wneud ond cafodd ei wrthod.** Mae hyn yn berthnasol pan wneir cais i gofrestru apêl ond ei fod yn cael ei wrthod oherwydd ei fod y tu allan i awdurdodaeth TAC.

Derbyniwyd tystiolaeth arall gan y canlynol:

- ✓ **Deiliaid Swyddi Barnwrol.** Mae 14 Barnwr a 15 Aelod Arbenigol wedi'u penodi'n Ddeiliaid Swyddi Barnwrol i TAC.

- ✓ **Staff Gweinyddol y Tribiwnlys.** Mae pedwar aelod o staff yn cefnogi TAC ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phartïon dros y ffôn neu drwy e-bost gan ateb cwestiynau sy'n ymwneud â gwaith y Tribiwnlys a chynnydd achosion.

## 5. Ystadegau'r Tribiwnlys

Cofrestrwyd yr achos cyntaf gyda TAC o dan Ddeddf ALNET ym mis Mai 2022.

Ers hynny, mae 194 o achosion eraill wedi cael eu cofrestru. Mae TAC wedi cyhoeddi 65 o benderfyniadau terfynol mewn apeliadau ADY. Mae 51 o orchmynion cydsynio wedi cael eu cyhoeddi (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025).

Cynhelir pob gwrandawiad TAC yn breifat ond cyhoeddir copïau dienw o'r rhan fwyaf o benderfyniadau terfynol a gyhoeddir ar Wefan TAC. Ni chyhoeddir gorchmynion cydsynio. Mae rhagor o ystadegau manylach TAC yn Adroddiadau Blynyddol y Tribiwnlys sydd ar gael yn https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn TAC gymryd rhan yn ein Grwpiau Defnyddwyr sy'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn wyneb yn wyneb ac ar-lein. I gofrestru i gael hysbysiad am gyfarfodydd, anfonwch e-bost at:

Tribunal.Enquiries@gov.wales

**Sylwch:**

Mae unrhyw eiriau sydd wedi'u tanlinellu yn yr adroddiad hwn er mwyn pwyslais, ac nid ydynt yn adlewyrchu'r drafft deddfwriaethol.

Nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi sylwadau penodol ar yr amrywiadau i'r ffordd y cymhwysir y gyfraith mewn apeliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu cadw'n gaeth.

Mae crynodeb o ystadegau'r Tribiwnlys ar gael yn atodiad 1.

## 6. **Diffiniadau**

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf ALNET") yw'r statud sy'n cynnwys "esgyrn" y system ADY newydd. Mae Rheoliadau sy'n cynnwys manylion pwysig sy'n cefnogi'r statud sydd hefyd yn rhan o gyfraith ADY, sef Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 ("Rheoliadau ADY") a Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 ("Rheoliadau'r Tribiwnlys"). Mae'r Cod ADY yn ganllawiau statudol y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol a'r Tribiwnlys (ymysg eraill) roi sylw iddynt. Os bydd unrhyw anghysondebau rhwng y Cod ADY a Deddf ALNET, y Ddeddf sy'n gymwys. Mae rhai termau sy'n dal i gael eu diffinio gan Ddeddf Addysg 1996.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn, mae'n ddefnyddiol nodi'r diffiniadau canlynol;

O dan **adran 99 o Ddeddf ALNET:**

- ystyr **plentyn** yw person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, hynny yw, o'r amser y caiff ei eni hyd at ddiwedd oedran ysgol gorfodol. [1]

- ystyr **person ifanc** yw person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond sy'n iau na 25 oed.

- ystyr **ysgol a gynhelir** yw–
  (a) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol,
  (b) ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty,
  (c) ysgol feithrin a gynhelir, neu

[1] **Oedran Ysgol Gorfodol.** Mae person yn dechrau bod o oedran ysgol gorfodol—
(a) pan fydd yn bump oed, os yw'n troi'n bump oed ar ddiwrnod rhagnodedig, a
(b) fel arall ar ddechrau'r diwrnod dynodedig ar ôl iddo droi'r oedran hwnnw (adran 8(1) Deddf Addysg 1996). Yn unol â Pharagraff 2 Gorchymyn Addysg (Dechrau Oedran Ysgol Gorfodol) 1998/1607) y diwrnodau rhagnodedig yw 31 Mawrth/Awst/Rhagfyr.
Mae person yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd y mae person yn troi'n 16 oed (adran 8(3) o Ddeddf Addysg 996 a Gorchymyn Addysg (Dyddiad Gadael Ysgol) 1997/1970).

(d) uned cyfeirio disgyblion.

- ystyr **ysgol brif ffrwd a gynhelir** yw ysgol a gynhelir -
  (a) nad yw'n ysgol arbennig, a
  (b) nad yw'n uned cyfeirio disgyblion.

- ystyr **sefydliad yn y sector addysg bellach** yw sefydliad sy'n dod o fewn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. [2]

O dan **adran 2 o Ddeddf Addysg 1996:**

- mae **addysg bellach** yn golygu –

  (a) addysg lawnamser a rhan-amser sy'n addas i ofynion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol, a

  (b) gweithgareddau amser hamdden wedi'u trefnu sy'n cael eu darparu mewn cysylltiad â darparu addysg o'r fath

  ond nad yw'n cynnwys addysg uwchradd neu (yn unol ag is-adran (7)) addysg uwch.

  (hynny yw, nid yw'n cynnwys Prifysgol).

Defnyddir y term "**lleoliad addysgol"** fel term generig sy'n cwmpasu pob math o feithrinfeydd, ysgolion neu sefydliadau addysg bellach posibl.

[2] O dan Adran 91 (3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae cyfeiriadau at sefydliadau o fewn y sector addysg bellach yn cynnwys sefydliadau a gynhelir gan gorfforaethau addysg bellach, a cholegau chweched dosbarth.

# 7. Canfyddiadau

## 7.1 Diffinio a nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 2 o Ddeddf ALNET - Anghenion dysgu ychwanegol***

*(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.*

*(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—*

*(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu*

*(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.*

*(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.*

*(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.*

**Y Cod ADY**

**Canllawiau ar y diffiniad o ADY, pennod 2**

Paragraffau 2.16 – 2.24 (canllawiau ar faterion yn ymwneud â'r diffiniad o ADY a'i gymhwysiad, gan gynnwys ystyr "anhawster sylweddol fwy i ddysgu") a pharagraffau 2.34 i 2.38 (meysydd angen)

***Adran 13 o Ddeddf ALNET - Dyletswydd i benderfynu: awdurdodau lleol***

*(1) Pan fo'n cael ei dwyn i sylw awdurdod lleol neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano anghenion dysgu ychwanegol, rhaid i'r awdurdod benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn is-adran (2) yn gymwys.*

*(2) Yr amgylchiadau yw -*

*(a) bod cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan y Rhan hon;*

*(b) bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol a'i fod wedi ei fodloni -*

*(i) nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, a*

*(ii) nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;*

*(c) bod adran 11(1) yn gymwys a bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod penderfyniad ynghylch pa un a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol ai peidio yn cael ei wneud o dan yr adran honno;*

*(d) bod y penderfyniad yn ymwneud â pherson ifanc ac nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud;*

*(e) bod y penderfyniad yn ymwneud â pherson ifanc -*

*(i) sy'n fyfyriwr ymrestredig mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, a*

*(ii) nad yw hefyd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad arall yn y sector addysg bellach neu'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol, ac na wnaed cais mewn cysylltiad â'r person ifanc i'r awdurdod lleol o dan adran 12(2)(a).*

*(3) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol rhaid iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, am -*

*(a) y penderfyniad, a*

*(b) y rhesymau dros y penderfyniad.*

**Y Cod ADY:**

**Canllawiau ar ddyletswyddau awdurdodau lleol i wneud y penderfyniad, penodau 13, 14 a 15**

Paragraffau 13.3 i 13.17 (plant), paragraffau 14.9 – 14.25 (plant sy'n derbyn gofal) a Phennod 15 paragraffau 15.48 – 15.70 (pobl ifanc) (yn cynnwys canllawiau ar ddyletswyddau awdurdodau lleol ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, gan gynnwys penderfyniadau nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY)

Tystiolaeth

Mae'r Tribiwnlys wedi cofrestru 25 apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed gan awdurdod lleol nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY. Ni chofrestrwyd unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniad cyfatebol a wnaed gan sefydliad addysg bellach.

Mae llythyrau penderfyniad a anfonir at rieni yn dangos bod rhai awdurdodau lleol yn cymhwyso'r prawf cyfreithiol anghywir yn gyson wrth benderfynu a oes gan blant a phobl ifanc ADY:

> *Nid oes gan X ADY oherwydd y gellid cyflwyno'r ddarpariaeth yr oedd ei hangen arno drwy Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol*

> *... gellir diwallu'r anghenion a nodwyd drwy'r ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael mewn ysgol*

Yn gyson, nid yw penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol yn cyfeirio at y gyfraith nac yn rhoi rhesymau. Yn rhy aml, mae rhiant/rhieni yn cysylltu â'r Tribiwnlys i gofrestru apêl lle nad yw awdurdodau lleol wedi gwneud penderfyniad ffurfiol er bod ysgol wedi gofyn iddynt wneud hynny.

Mewn rhai awdurdodau lleol, rhoddir lefel o gymorth ar waith, sydd weithiau'n cael ei alw'n *“gymorth wedi'i dargedu”* neu'n *“gymorth wedi'i fonitro”*, ar gyfer plant y nodwyd bod ganddynt AAA ac a oedd yn cael eu cefnogi drwy weithredu gan yr ysgol a/neu weithredu gan yr ysgol a mwy o dan y system flaenorol. Mewn llawer o achosion, nid yw ysgolion bellach yn nodi bod gan y plant hyn ADY. Mae rhai awdurdodau lleol yn ceisio dibynnu ar hyn fel sail i'w penderfyniad.

Mae ysgolion a cholegau yn eu tro yn camddehongli'r prawf cyfreithiol ADY ar sail cyngor gan awdurdodau lleol.

Mae Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ysgolion mewn gwrandawiadau tribiwnlys wedi cyfeirio at awdurdodau lleol yn dweud wrthynt y bydd plant a oedd yn arfer cael cymorth gan weithredu gan yr ysgol/gweithredu gan yr ysgol a mwy yn cael eu nodi fel rhai nad oes ganddynt ADY oherwydd y dylid gallu defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol i ddiwallu eu hanghenion. Nid yw eu tystiolaeth i'r Tribiwnlys bob amser yn cefnogi'r achos sy'n cael ei gyflwyno gan yr awdurdod lleol.

Ar ôl cofrestru apêl, mae awdurdodau lleol yn aml yn adolygu eu penderfyniad gwreiddiol ac yn ildio'r mater hwn. Mae rhai yn dal i wrthwynebu'r achos tan y gwrandawiad terfynol ac yna'n cytuno.

<u>Materion i'w hystyried</u>

**Mater i'w ystyried: Cymhwyso'r prawf cyfreithiol yn anghywir ac yn anghyson**

Mae'r diffiniad o ADY yn newid i'r derminoleg, nid i'r sylwedd. Mae geiriad y diffiniad yr un fath â'r diffiniad blaenorol o anghenion addysgol arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996. Rhoddir mwy o sylw i hyn isod.

Mae'r prawf cyfreithiol sydd i'w gymhwyso o dan adran 2 yn nodi dau brawf cymhwyso posibl ar gyfer bod ag ADY. Rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc fod ag <u>Anhawster Dysgu</u> neu <u>Anabledd</u>.

1. <u>Anhawster Dysgu</u>

Y cymharydd i'w ddefnyddio yw *"os yw'n cael <u>anhawster sylweddol fwy i ddysgu</u> na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran"* hynny yw, ei gyfoedion sy'n datblygu fel arfer.

Nid yw'r gair *"sylweddol"* wedi'i ddiffinio yn Neddf ALNET.

Mae adrannau 2.19 – 2.24 y Cod yn datgan y gellir nodi a yw plant a phobl ifanc yn cael <u>anhawster sylweddol fwy i ddysgu</u> drwy edrych ar y ddarpariaeth addysg neu hyfforddiant sydd ei hangen arnynt (neu a allai fod ei hangen arnynt). Os yw'r

ddarpariaeth honno o fath sydd ar gael yn gyffredinol mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir neu sefydliad addysg bellach - gan gynnwys darpariaeth dal i fyny neu strategaethau addysgu gwahaniaethol - yna ni fydd hyn yn DDdY (darpariaeth ddysgu ychwanegol), a chanfyddir nad oes gan y plentyn neu berson ifanc ADY gan nad yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu. Os yw'r ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt yn fwy na'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol, yna DDdY fydd hyn, a bydd gan y plant a'r bobl ifanc ADY gan y byddant yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu.

Nid yw'r esboniad hwn yn y Cod - cysylltu'r prawf â darpariaeth - yn adlewyrchu'r prawf cyfreithiol yn Neddf ALNET. Efallai bod hyn yn cyfrannu at y problemau o ran deall y prawf cyfreithiol a welir yn y dystiolaeth. Y prawf cyfreithiol yw cymharu'r hyn y mae plant a phobl ifanc wedi'i ddysgu â'r hyn y mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc eraill o'r un oedran wedi'i ddysgu, nid y ddarpariaeth sydd ar gael mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach.

Mae problemau go iawn hefyd wedi codi o ddatblygu'r term polisi *"Darpariaeth Gyffredinol"* yn ogystal â disgrifio darpariaeth/cymorth fel *"wedi'i dargedu"*, *"wedi'i fonitro"* ac *"arbenigol"*, sef terminoleg y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn eu defnyddio'n gyffredin. Ni chyfeirir at y cysyniadau hyn yn Neddf ALNET nac yn y Rheoliadau ategol. Nid oes diffiniad cyfreithiol ar gyfer yr un ohonynt. Maent yn cael eu dehongli'n wahanol mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol. Mewn un awdurdod lleol, roedd darpariaeth gyffredinol yn cyfeirio at yr holl ddarpariaeth y disgwylir iddi fod ar gael mewn ysgol brif ffrwd, gan gynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol nad yw fel arfer yn cael ei gwneud ar gyfer disgyblion sy'n datblygu fel arfer. Mewn awdurdodau lleol eraill, mae'r term yn cyfeirio at y ddarpariaeth y disgwylir iddi gael ei rhoi ar waith ar gyfer disgyblion sy'n datblygu fel arfer yn unig.

Mae'r penderfyniad ynghylch a oes gan blant a phobl ifanc ADY yn un a wneir, fel arfer, gan ysgol neu sefydliad addysg bellach (os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu lleoliad o'r fath) neu gan awdurdod lleol pan gaiff ei ddwyn i'w sylw.

Nid yw'r prawf cyfreithiol o dan Ddeddf ALNET ar gyfer a oes gan blant a phobl ifanc ADY yn benderfyniad sy'n ymwneud â'r adnoddau sydd ar gael naill ai fel arfer neu'n *"gyffredinol"* mewn math o leoliad addysgol neu'r adnoddau neu'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn ysgol neu goleg penodol. Mae'n cymharu eu gallu i ddysgu â gallu'r rhan fwyaf o'u cyfoedion.

2. Anabledd

Bydd gan blant a phobl ifanc sy'n anabl o dan y diffiniad yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ADY os bydd eu hanabledd yn eu hatal neu'n eu rhwystro rhag

defnyddio'r cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir fel arfer i eraill o'r un oedran mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir neu sefydliad addysg bellach prif ffrwd.

Mae hwn yn gymharydd sy'n gofyn am nodi cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir fel arfer i eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach. Nid yw'r gair “cyfleusterau” yn cael ei ddiffinio'n gyfreithiol ac nid yw'r un fath â “darpariaeth”. Mae'r prawf hefyd yn cymharu ag ysgolion prif ffrwd neu sefydliadau addysg bellach ledled Cymru ac nid yw'n benodol i leoliad addysg unigol.

Cymhwyso’r Diffiniad

Wrth gymhwyso'r diffiniad o ADY, nid yw awdurdodau lleol yn ystyried y ddau brawf cymhwyso ar wahân. Maent yn cyfuno dau gymal y prawf ac yn dod i'r casgliad yn rhy aml nad oes gan blant a phobl ifanc ADY, naill ai oherwydd bod modd cyflwyno darpariaeth sydd ei hangen arnynt naill ai mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach penodol, neu oherwydd eu bod o'r farn y gellid ei chyflwyno mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru.

Fel y crybwyllwyd uchod, rhaid nodi hefyd nad yw'r diffiniad cyfreithiol o ADY yn wahanol i'r diffiniad o AAA (anghenion addysgol arbennig) o dan adran 312(1), (2) a (3) o Ddeddf Addysg 1996. Nid yw cadarnhad Llywodraeth Cymru y byddai gan y plant hynny a nodwyd bod ganddynt AAA yn flaenorol ADY o hyd – oni bai bod eu hanghenion penodol wedi newid – wedi cael ei dderbyn fel dehongliad o Ddeddf ALNET gan rai awdurdodau lleol neu'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio iddynt. Mae hon wedi bod yn ddadl gyffredin gan awdurdodau lleol ac yn un a adleisiwyd gan Seicolegwyr Addysg yn ystod y broses apelio.

Mae'r prawf sydd i'w gymhwyso ar gyfer asesu a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd yn drothwy is o dan adran 2(3) o Ddeddf ALNET. Mae'n caniatáu iddynt gael eu canfod ag anhawster dysgu neu'n anabl pe byddent yn *“debygol”* o gyflawni'r prawf o dan adran 2(2) o Ddeddf ALNET

**Mater i’w ystyried: Dyletswydd i benderfynu**

Rhaid i awdurdod lleol wneud penderfyniad ynghylch a oes gan blant a phobl ifanc ADY, oni bai eu bod yn gallu dibynnu ar eithriad a nodir o dan adran 13(2) o Ddeddf ALNET. Gall y ddyletswydd ar awdurdod lleol o dan adran 13 gael ei sbarduno ar unrhyw adeg a chan unrhyw un sy'n tynnu ei sylw at y ffaith y gallai fod gan blentyn a pherson ifanc ADY. Rhaid i awdurdod lleol wneud penderfyniad oni bai y gellir dibynnu ar un o'r eithriadau o dan adran 13(2).

O dan adran 11 o Ddeddf ALNET mae'n bosibl bod ysgol neu sefydliad addysg bellach eisoes wedi gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.

Os yw ysgol wedi penderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, yna o dan adran 26 o Ddeddf ALNET, gellir cyfeirio'r penderfyniad hwnnw at yr awdurdod lleol cyfrifol i'w ailystyried. Gellir herio unrhyw benderfyniad dilynol gan yr awdurdod lleol ar apêl i'r Tribiwnlys.

Yn achos person ifanc, os bydd y sefydliad addysg bellach yn penderfynu nad oes ganddo ADY, gellir dwyn apêl yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Nid oes angen i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y person ifanc ei adolygu yn gyntaf.

Nid yw rhai awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniad ffurfiol ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, er gwaethaf atgyfeiriadau clir gan ysgolion a dyletswydd statudol arnynt i wneud hynny. Yn aml, nid yw'r awdurdod lleol cyfrifol wedi gwneud penderfyniad ffurfiol a rhesymegol ynghylch rhiant/rhieni sy'n dod at y Tribiwnlys ac sy'n dymuno cofrestru apêl. Pan fydd y Tribiwnlys yn gorchymyn i gadarnhau a oes un wedi'i wneud, mae rhai awdurdodau lleol yn derbyn nad oes proses ffurfiol wedi'i dilyn ac felly nad oes penderfyniad wedi'i gyhoeddi.

Pan fydd ymchwiliad wedi cael ei wneud ynghylch person ifanc yn mynychu sefydliad addysg bellach, yn aml nid oes gan staff sy'n gyfrifol am ADY fawr ddim dealltwriaeth, os o gwbl, bod angen iddynt wneud penderfyniad ffurfiol neu fod hawl i apelio yn ei erbyn i'r Tribiwnlys.

7.2 **<u>Diffinio a nodi Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)</u>**

<u>Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol</u>

***Adran 3 o Ddeddf ALNET - Darpariaeth ddysgu ychwanegol***

*(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw <u>darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran</u> -*

*(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,*

*(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu*

*(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.*

*(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.*

*(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.*

*(4) Caiff rheoliadau ddiwygio'r adran hon i roi cyfeiriadau at oedran gwahanol yn lle'r cyfeiriadau at dair oed.*

*…*

Mae ***adran 99 o Ddeddf ALNET*** yn darparu'r diffiniadau canlynol;

*mae "**addysg**" ("education") yn cynnwys addysg lawnamser a rhan-amser, ond nid yw'n cynnwys addysg uwch; ac mae "addysgol" ("educational") ac "addysgu" ("educate") (a thermau cysylltiedig eraill) i gael eu dehongli yn unol â hynny;*

*mae "**hyfforddiant**" ("training") yn cynnwys -*

*(a) hyfforddiant llawnamser a rhan-amser;*

*(b) hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden;*

**Y Cod ADY 2.39 – 2.44**

2.40 *Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn rhoi hawl i ddarpariaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y mae ADY y plentyn neu'r person ifanc yn galw amdano. Gallai'r corff sy'n gyfrifol am lunio a chynnal y CDU ystyried y defnydd effeithiol o adnoddau wrth benderfynu rhwng gwahanol opsiynau'r DDdY neu wahanol ffyrdd o'i chyflawni, lle byddai pob un o'r opsiynau neu'r dulliau gweithredu hynny yn diwallu ADY y person*

*ac yn gydnaws ag unrhyw gyfyngiadau eraill o dan y Ddeddf sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau.*

Mae **paragraff 29.13** o'r Cod ADY (sy'n ymdrin â rhoi'r gorau i gynnal DDdY) yn gwahaniaethu rhwng DDdY a strategaethau addysgu gwahaniaethol; hynny yw, mae'n dangos, pan fydd gan blentyn neu berson ifanc CDU sydd wedi dod i ben, nad yw hynny'n atal cymorth parhaus gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach *"drwy ddefnyddio strategaethau addysgu gwahaniaethol neu debyg"*.

Tystiolaeth

Mae angen i'r Tribiwnlys nodi a yw'r cymorth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc (hynny yw, yr hyn y mae eu hanhawster dysgu neu anabledd yn galw amdano) yn DDdY wrth benderfynu a oes ganddynt ADY.

Yn eu hymateb i'r apeliadau hyn, mae rhai awdurdodau lleol yn dweud nad yw'r ddarpariaeth yn DDdY gan ei bod yn *"ddarpariaeth gyffredinol"*, yn *"ddarpariaeth sy'n cael ei monitro"*, yn *"ddarpariaeth wedi'i thargedu"* neu'n *"ddarpariaeth y gall yr ysgol ei gwneud o'i hadnoddau presennol*".

> *Mae X yn cael therapi iaith a lleferydd gan therapydd y GIG sy'n dod i weld plant yn yr ysgol yn rheolaidd. Felly nid yw hyn yn Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.*

> *Mae athro arbenigol wedi gweld X ac wedi darparu cymorth i'r ysgol bob mis dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu. Darpariaeth wedi'i thargedu yw hon o gyllideb yr ysgol ac felly nid yw'n cael ei hystyried yn Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.*

Mae hyn hyd yn oed wedi bod yn safbwynt a gyflwynwyd gan awdurdod lleol, lle cytunir y bydd neu fod y plentyn eisoes yn mynychu ysgol arbennig.

> *Gan fod X yn ddisgybl mewn ysgol arbennig, mae'r cymorth therapi galwedigaethol y mae'n ei gael ar gael i bob disgybl sydd ei angen ac nid yw'n Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.*

Mae tystiolaeth gan Seicolegwyr Addysg i'r Tribiwnlys yn dangos anghysondeb yn eu dealltwriaeth ynghylch a ddylid ystyried eu hargymhellion yn DDdY ai peidio.

Mewn adroddiadau ac mewn tystiolaeth lafar, cyfeirir at y ffaith nad yw'r ddarpariaeth yn DDdY gan y gellir disgwyl iddi gael ei chyflwyno gan ysgol er mai dim ond gyda mewnbwn gan weithwyr proffesiynol allanol y caiff ei chyflwyno.

Mae rhai o Weithwyr Proffesiynol y GIG wedi dweud wrth y Tribiwnlys eu bod yn deall mai dim ond y cymorth a fyddai'n cael ei ddarparu i'r plant a'r bobl ifanc gan eu corff GIG y byddai'n ofynnol iddynt ei nodi o dan system newydd Deddf ALNET. Mewn geiriau eraill, maent yn pennu'r ddarpariaeth drwy gyfeirio at yr adnoddau sydd ar gael ac nid drwy gyfeirio at y ddarpariaeth sy'n rhesymol ofynnol gan anghenion dysgu ychwanegol y plant a'r bobl ifanc.

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: cymhwyso'r diffiniad cyfreithiol yn anghywir ac yn anghyson**

Yn ei hanfod, nid yw'r diffiniad cyfreithiol o DDdY o dan adran 3 o Ddeddf ALNET yn wahanol i'r diffiniad o ddarpariaeth addysgol arbennig (DAA) o dan adran 312(4) o Ddeddf Addysg 1996 sy'n ymwneud â darpariaeth addysgol. Mae'n dilyn felly y bydd plentyn a gafodd ddarpariaeth a wnaed fel DAA o dan drefniadau Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu drwy Ddatganiad AAA yn cael DDdY o dan Ddeddf ALNET. Yr unig eithriad yw pan fydd tystiolaeth bod eu hanghenion unigol wedi newid i'r graddau nad yw'r diffiniad yn berthnasol mwyach.

Fodd bynnag, mae'r prawf cyfreithiol o dan adran 3 o Ddeddf ALNET bellach hefyd yn cynnwys *"darpariaeth addysg a hyfforddiant"*. Nid yw diffiniadau o dan adran 99 o Ddeddf ALNET yn ehangu nac yn egluro'r dehongliad o ba fathau o ddarpariaeth hyfforddiant sy'n DDdY.

Mae'r diffiniad o DDdY o dan Ddeddf ALNET hefyd yn adlewyrchu diffiniad o DAA o dan ddeddfwriaeth bresennol Lloegr o dan adran 21(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Felly, rhaid ystyried effaith cyfraith achosion berthnasol o dan Ddeddf Addysg 1996 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014.

Mae *A v Swydd Hertford CC [2006] EWHC 3428 (Gwein)* yn cadarnhau nad oes ffin galed rhwng darpariaeth addysgol ac anaddysgol. Gallai rhai pethau fod y ddau; gallai rhai darpariaethau fod â budd addysgol ond nid yn DDdY.

Mae *LB Bromley v SENT [1999] EWCA Civ 3038* yn cadarnhau nad yw p'un ai yw darpariaeth yn addysgol neu beidio yn bwynt cyfreithiol. ("*Mae p'un a yw math o gymorth sydd ei angen ar y plentyn yn dod o fewn y disgrifiad hwn yn gwestiwn i'r awdurdod addysg lleol yn bennaf, ac yn ail i farn arbenigol y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig"*).

Mae _DC & DC v Swydd Hertford CC [2016] UKUT 379 (AAC)_ yn cynnwys arweiniad ar ystyr y gair Addysg - “*er y gallai ei gysyniad fod yn eang, mae’n ymwneud â chyfarwyddyd, addysg neu hyfforddiant, felly mae un neu fwy o'r ffactorau hyn yn debygol o fod yn amlwg mewn darpariaeth yr honnir ei bod yn addysgol.”*

Mewn apêl, bydd y Tribiwnlys yn defnyddio ei arbenigedd arbenigol i benderfynu a yw'r cymorth y mae plant a phobl ifanc yn ei gael, neu sydd ei angen arnynt, yn DDdY. Y prawf i'w gymhwyso yw a yw'r ddarpariaeth honno'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n datblygu fel arfer ledled Cymru. Ni fydd cymorth sy'n gwahaniaethu'r cwricwlwm yn DDdY. Nid yw'r cymharydd yn y prawf hwn yn un sy'n ystyried yr adnoddau a'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach penodol ond yr hyn sydd ar gael yn gyffredinol mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

7.3 **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 7 o Ddeddf ALNET - Dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn***

*(1) Rhaid i gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i dderbyn gan benderfyniad 44/25 y Cynulliad Cyffredinol ar 20 Tachwedd 1989 ("y Confensiwn").*

*(3) Nid yw is-adran (1) yn gwneud ystyriaeth benodol o'r Confensiwn yn ofynnol ar bob achlysur y caiff swyddogaeth ei harfer.*

***Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011***

Mae'r Mesur hwn yn cynnwys dyletswyddau penodol i roi sylw i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ac mae ynghlwm fel Atodlen Rhan 1 y Confensiwn.

*Erthygl 23 (paragraff 3)*

*Gan gydnabod anghenion arbennig plentyn anabl, rhaid i gymorth a estynnir yn unol â pharagraff 2 o'r erthygl bresennol gael ei roi yn ddi-dâl, pryd bynnag y bo'n bosibl, gan ystyried adnoddau ariannol y rhieni neu'r personau eraill sy'n gofalu am y plentyn, a rhaid iddo fod wedi ei gynllunio i sicrhau bod y plentyn anabl yn cael mynediad effeithiol at addysg, hyfforddiant, gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau adsefydlu, cyfleoedd i baratoi ar gyfer cyflogaeth a chyfleoedd hamdden, a'i fod yn eu cael, a hynny mewn modd sy'n ei gwneud hi'n hwylus i'r plentyn integreiddio i'r graddau llawnaf posibl â'r gymdeithas ac i ddatblygu fel unigolyn, gan gynnwys datblygu yn ddiwylliannol ac yn ysbrydol.*

*Erthygl 29 (paragraff 1)*

*Mae Partïon Gwladwriaethau yn cytuno bod rhaid cyfeirio addysg y plentyn at y canlynol:*

*(a) datblygu personoliaeth, doniau a galluoedd meddyliol a chorfforol y plentyn hyd eithaf eu potensial ...*

**Y Cod ADY - Pennod 5**

Mae **paragraffau 5.10 – 5.14** yn gwneud sylwadau ar y Mesur ac yn cyfeirio at Ganllawiau'r Comisiynydd Plant ac yn egluro mai person o dan 18 oed yw plentyn yn y cyd-destun hwn. Gweler hefyd **baragraffau 5.19 a 5.20** ar gyflawni'r dyletswyddau yn ymarferol.

Tystiolaeth

Mae rhieni mewn dau achos wedi dadlau bod y ddyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn golygu bod y prawf ar gyfer yr hyn sy'n lefel ddigonol a phriodol o DDdY yn uwch na'r hyn a ddeellir o dan Ddeddf Addysg 1996 a nawr Deddf ALNET. Yn y ddau achos, nid oedd penderfyniad TAC wedi dibynnu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig.

Fodd bynnag, mae TAC wedi cyfeirio at y trothwy o dan Erthygl 23 mewn penderfyniad ynghylch manyleb Therapi Lleferydd ac Iaith yn Adran 2B mewn CDU. Mae wedi cael ei ystyried fel tystiolaeth i gefnogi eu penderfyniad i ddyfarnu lefel o therapi a oedd yn fwy na'r hyn a argymhellwyd gan weithwyr proffesiynol y GIG. Mae hwn yn bwynt cyfreithiol a fydd o bosibl yn cael ei godi gan yr awdurdod lleol yn yr Uwch Dribiwnlys ar apêl.

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: Hyd a lled y ddyletswydd "rhoi sylw"**

Mae Deddf ALNET yn cynnwys dyletswydd i roi sylw i'r Confensiwn hwn sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chorff y GIG roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer swyddogaeth o dan Ddeddf ALNET. Mewn apêl, mae TAC yn rhoi ei hun yn sefyllfa awdurdod lleol.

Mae cynnwys hawliau plentyn neu berson ifanc yn y confensiwn fel rhan o'r ddadl mewn apêl eisoes wedi digwydd mewn dau achos. Felly, mae'n bosibl y bydd hyn yn digwydd eto.

Er bod y ddyletswydd yn ddyletswydd i "roi sylw", pan fydd awdurdodau lleol yn mabwysiadu polisïau a allai dorri'r Confensiwn (fel mabwysiadu polisi sy'n cyfyngu ar faint o DDdY sydd i'w darparu i blant a phobl ifanc), efallai y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fod yn barod i egluro pam eu bod wedi gwneud hynny.

Mae'r Confensiwn yn cynnwys gofyniad i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu hyd eithaf eu potensial; mae hon yn iaith wahanol i'r hyn a ddefnyddir o dan Ddeddf ALNET. Amser a ddengys sut y bydd hyn yn effeithio ar apeliadau'r Tribiwnlys yn y dyfodol.

## 7.4 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 8 o Ddeddf ALNET - Dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau***

*(1) Rhaid i gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc anabl roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i brotocol dewisol a fabwysiadwyd ar 13 Rhagfyr 2006 gan benderfyniad A/RES/61/106 y Cynulliad Cyffredinol ac a agorwyd i'w lofnodi ar 30 Mawrth 2007 ("y Confensiwn").*

*(3) Nid yw is-adran (1) yn gwneud ystyriaeth benodol o'r Confensiwn yn ofynnol ar bob achlysur y caiff swyddogaeth ei harfer.*

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau – Erthygl 24 (Addysg):**

1. *Mae Partïon Gwladwriaethau'n cydnabod hawl pobl ag anableddau i addysg. Gyda golwg ar wireddu'r hawl hon heb wahaniaethu ac ar sail cyfle cyfartal, bydd Partïon Gwladwriaethau'n sicrhau system addysg gynhwysol ar bob lefel a dysgu gydol oes wedi'i gyfeirio at y canlynol:*

   *(a) Datblygu potensial dynol ac ymdeimlad o urddas a hunan-werth yn llawn, a chryfhau parch at hawliau dynol, rhyddid sylfaenol ac amrywiaeth ddynol;*

   *(b) Pobl ag anableddau yn datblygu eu personoliaeth, eu doniau a'u creadigrwydd, yn ogystal â'u galluoedd meddyliol a chorfforol, i'w llawn botensial;*

   *(c) Galluogi pobl ag anableddau i gymryd rhan yn effeithiol mewn cymdeithas rydd.*

**Y Cod ADY - Pennod 5**

Mae **paragraffau 5.15 – 5.18** yn cynnwys dolen i'r Confensiwn hwn a gweler hefyd **baragraffau 5.19 a 5.20** sy'n ymwneud â chyflawni'r dyletswyddau'n ymarferol

Tystiolaeth

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw riant/rieni, plant a phobl ifanc nac awdurdod lleol wedi dadlau y dylai'r Tribiwnlys gymhwyso safonau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig wrth wneud penderfyniadau. Mae'n parhau i fod yn rhan o Ddeddf ALNET nad yw wedi'i phrofi.

Materion i’w hystyried

**Mater i’w ystyried: Hyd a lled y ddyletswydd “rhoi sylw”**

Mae Deddf ALNET yn cynnwys dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chorff y GIG roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer swyddogaeth o dan Ddeddf ALNET. Nid oedd Llywodraeth y DU wedi derbyn Erthygl 24 yn llawn. Pan gadarnhaodd y Confensiwn, gwnaeth ddau ddatganiad sy'n cyfyngu ar effaith yr Erthygl hon, gan gynnwys yng Nghymru. ‘Mater a gedwir yn ôl’ oedd un datganiad. Roedd hyn yn dweud y gallai plant anabl barhau i gael eu haddysgu y tu allan i'w cymuned leol. Roedd y llall yn ‘ddatganiad deongliadol’ a oedd yn dweud bod y DU yn dehongli'r term ‘addysg gyffredinol’ fel un sy'n cynnwys ysgolion arbennig yn ogystal ag ysgolion prif ffrwd.

Mewn apêl, mae TAC yn rhoi ei hun yn sefyllfa awdurdod lleol.

Er bod y ddyletswydd yn ddyletswydd i “roi sylw”, pan fydd awdurdodau lleol yn mabwysiadu polisïau a allai dorri'r Confensiwn (fel mabwysiadu polisi sy'n cyfyngu ar faint o DDdY sydd i'w darparu i blant a phobl ifanc), efallai y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fod yn barod i egluro pam eu bod wedi gwneud hynny.

7.5 **Cyngor a Gwybodaeth am ADY a'r System ADY**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 6 o Ddeddf ALNET - Dyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc***

*Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc roi sylw -*

*(a) i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc,*

*(b) i bwysigrwydd bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth o dan sylw, ac*

*(c) i bwysigrwydd bod yr wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r plentyn ac i riant y plentyn neu i'r person ifanc er mwyn eu galluogi neu ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.*

***Adran 9 o Ddeddf ALNET - Cyngor a gwybodaeth***

*(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r system y gwneir darpariaeth ar ei chyfer gan y Rhan hon.*

*(2) Wrth wneud trefniadau o dan is-adran (1), rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r egwyddor bod rhaid i wybodaeth a chyngor a ddarperir o dan y trefniadau gael eu darparu mewn modd diduedd.*

*(3) Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau a wneir o dan yr adran hon, adrannau 68 (osgoi a datrys anghytundebau) a 69 (gwasanaethau eirioli annibynnol) yn hysbys i—*

*(a) plant a phobl ifanc yn ei ardal,*

*(b) rhieni plant yn ei ardal,*

*(c) plant y mae'n gofalu amdanynt sydd y tu allan i'w ardal,*

*(d) cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal,*

*(e) cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach yn ei ardal,*

*(f) cyfeillion achos plant yn ei ardal, ac*

*(g) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.*

*(4) Pan fo corff llywodraethu ysgol a gynhelir wedi ei hysbysu am drefniadau o dan is-adran (3), rhaid iddo gymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau yn hysbys i -*

*(a) disgyblion yr ysgol a'u rhieni, a*

*(b) cyfeillion achos y disgyblion.*

*(5) Pan fo corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach wedi ei hysbysu am drefniadau o dan is-adran (3), rhaid iddo gymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau yn hysbys i fyfyrwyr y sefydliad.*

**Y Cod ADY Pennod 6 – Cyngor a Gwybodaeth am ADY a'r System ADY**

6.5 *"… Sut bynnag [os] y bydd awdurdodau lleol yn penderfynu darparu'r wybodaeth a'r cyngor, wrth wneud eu trefniadau, **rhaid** iddynt roi sylw i'r egwyddor bod yn rhaid darparu'r wybodaeth a'r cyngor am ADY a'r system ADY mewn ffordd ddiduedd."*

*6.12 Dylai'r wybodaeth a'r cyngor a fydd ar gael o dan y trefniadau hyn ymwneud ag ADY a'r system ADY â'r nod o helpu plant, eu rhieni a phobl ifanc i ddeall y materion canlynol:*

*…*

*(k) sut i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach (gan gynnwys gwrthod penderfynu ar fater pan fo modd apelio yn erbyn y gwrthodiad hwnnw), ac yn achos penderfyniadau gan ysgol a gynhelir, neu CDUau a gynhelir gan ysgol a gynhelir, sut i wneud cais i awdurdod lleol ailystyried y mater.*

***Adran 69 o Ddeddf ALNET - Gwasanaethau Eirioli Annibynnol***

*(1) Rhaid i awdurdod lleol -*

*(a) gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt;*

*(b) atgyfeirio unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol;*

*(c) atgyfeirio unrhyw berson sy'n gyfaill achos i blentyn y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol.*

*(2) Yn yr adran hon ystyr "gwasanaethau eirioli annibynnol" yw cyngor a chymorth (drwy gynrychiolaeth neu fel arall) i blentyn, person ifanc neu gyfaill achos -*

*(a) sy'n gwneud, neu sy'n bwriadu gwneud, apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru o dan y Rhan hon,*

*(b) sy'n ystyried pa un ai i apelio i'r Tribiwnlys ai peidio...*

**Y Cod ADY Pennod 32: Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol**

**Gwasanaethau eirioli annibynnol**

**Para 32.53**

*Rhaid i awdurdodau lleol:*

*(a) gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt;*

*(b) atgyfeirio at ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol; ac*

*(c) atgyfeirio at ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol unrhyw berson sy'n gyfaill achos i blentyn y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol.*

***Para 32.55.***

*Mae gwasanaethau eirioli annibynnol yn darparu cyngor a chymorth arbenigol, trwy gynrychiolaeth neu fel arall, i blentyn neu berson ifanc, gan gynnwys cyfaill achos plentyn, pan fo'r plentyn neu'r person ifanc:*

- *yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, apêl i'r Tribiwnlys;*
- *yn ystyried a yw am apelio i'r Tribiwnlys ai peidio; neu*
- *yn cymryd rhan, neu'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer osgoi*
- *neu ddatrys anghytundeb.*

Sylwer: mae hyn yn tybio y gall neu na all Eiriolwr Annibynnol ddarparu cynrychiolaeth mewn gwrandawiad Tribiwnlys.

Mae **paragraff 30** yn rhoi arweiniad ar ddiben a swyddogaethau "cyfaill achos"

Tystiolaeth

Rhiant/rhieni sy'n gwneud y mwyafrif llethol o'r apeliadau (99%)[3] a ddwynir i'r Tribiwnlys. O'r apeliadau hynny, ychydig iawn (26%) a ddywedodd eu bod wedi cael gafael ar gyngor neu gymorth i gyflwyno eu cais i apelio neu yn ystod yr apêl.

Mewn apeliadau ADY lle cynhaliwyd gwrandawiad, roedd 22% o'r rhieni yn cael eu cynrychioli gan gyfreithiwr a 30% yn cael eu cefnogi gan eiriolwr. Mewn cymhariaeth, roedd 66% o awdurdodau lleol yn cael eu cynrychioli gan gyfreithwyr allanol a 5%[4] gan gyfreithwyr mewnol yr awdurdod lleol ei hun. Mae rhai awdurdodau lleol yn cyfarwyddo cyfreithwyr allanol i gynrychioli eu hachosion fel mater o drefn tra nad yw eraill byth yn gwneud hynny.

[3] Ffigurau yn seiliedig ar apeliadau ADY a gofrestrwyd gyda'r Tribiwnlys o fis Mai 2021 hyd at ddiwedd mis Ionawr 2025

[4] Ffigurau yn seiliedig ar apeliadau ADY a gofrestrwyd gyda'r Tribiwnlys, lle cynhaliwyd gwrandawiad terfynol, o fis Mai 2021 hyd at ddiwedd mis Ionawr 2025

Pan fydd cyfreithiwr neu gwnsler wedi cael ei benodi i gynrychioli'r awdurdod lleol mewn achos, mae'r ymateb i'r apêl yn seiliedig ar Ddeddf ALNET ond weithiau bydd wedi newid ac nid yw'n adlewyrchu'r penderfyniad gwreiddiol a wnaed gan yr awdurdod lleol.

> *Pan ddywedodd yr awdurdod lleol wrthym na fyddai xx yn cael CDU a gynhelir gan awdurdod lleol, dywedodd fod hyn oherwydd ei fod yn un o'r categorïau yr oedd yn ofynnol iddo ymgymryd â nhw – nid oedd yn blentyn sy'n derbyn gofal, ddim yn mynd i'r ysgol nac yn mynd i ddwy ysgol ar yr un pryd. Pan anfonodd yr awdurdod lleol ei waith papur yn ymateb i'n hachos, roedd hyn wedi newid. Roedd yn dweud mai'r rheswm am hyn oedd y dylai'r ysgol fod yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar xx ar waith. Rhaid i hyn gynnwys cymorth 1:1 llawnamser oherwydd fel arall bydd yn niweidio ei hun ac eraill.*

Ni all y Tribiwnlys roi cyngor cyfreithiol i neb.

Fodd bynnag, os nad yw parti'n cael ei gynrychioli, yna mae gan y Tribiwnlys ac unrhyw weithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n bresennol ddyletswydd broffesiynol i sicrhau mynediad at gyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw anabledd y gall rhiant, plentyn neu berson ifanc sy'n bresennol ei brofi neu wneud trefniadau arbennig i ddarparu ar gyfer amgylchiadau penodol. Mae canllawiau barnwrol ar dystiolaeth gan dystion agored i niwed a Llyfr y Fainc ar Driniaeth Gyfartal yn rhoi rhagor o wybodaeth i baneli Tribiwnlysoedd.

Nid yw penderfyniadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol fel mater o drefn yn darparu'r wybodaeth ofynnol na'r manylion cyswllt ar gyfer lle gellir cael gafael ar gyngor a chymorth (mae rhagor o dystiolaeth am hyn wedi'i nodi isod yn yr Adran sy'n ymdrin â phenderfyniadau awdurdodau lleol).

Mae'r rhiant/rhieni yn dweud wrthym ar bob cam o'r broses apelio eu bod yn cael trafferth cael gafael ar ffynonellau cyngor a chymorth ar y system ADY yn gyffredinol ac yn benodol ynghylch llywio drwy broses apelio'r Tribiwnlys. Pan fyddant wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau o'r fath, maent yn cael eu llethu gan ymholiadau ac nid oes gweithiwr achos ar gael i'w cefnogi.

> *Dywedodd [elusen yng Nghymru] wrthyf, gan fod gen i eiriolwr yn fy helpu oherwydd fy mhroblemau cyfathrebu fy hun, nad oedd gen i hawl i gael cymorth na chyngor. Mae hyn yn chwerthinllyd gan nad oes gan fy eiriolwr syniad am y system ADY.*
>
> *Rydym wedi bod yn ceisio cysylltu â [elusen yng Nghymru] dros y pythefnos diwethaf. Mae'r ffôn yn brysur drwy'r amser a phan lwyddais i gysylltu yn y pen draw, cefais wybod na fyddai neb ar gael i drafod fy mab am o leiaf 4 wythnos.*
>
> *Oni bai bod rhywun yn gallu egluro beth mae angen i mi ei wneud, yna waeth i mi roi'r ffidil yn y to. Mae'n ddigon anodd gofalu am fy mhlentyn – does gen i mo'r amser i gael gradd yn y gyfraith.*

Fel mater o drefn, nid yw rhiant/rhieni na phlant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli mewn gwrandawiadau. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd apelydd wedi cyfarwyddo cyfreithiwr neu gwnsler i'w gynrychioli. Mae cefnogaeth i rieni o ffynonellau pro-bono neu elusennol wedi'i chyfyngu i nifer fach iawn o achosion.

Mae plentyn wedi cofrestru un apêl i'r Tribiwnlys.

Mae plentyn neu berson ifanc wedi cofrestru tri o apeliadau i ni. O'r apeliadau hynny, penodwyd eiriolydd annibynnol mewn dau achos. Roeddent wedi helpu'r bobl ifanc i fynegi eu barn am y materion a godwyd ond nid oeddent yn gymwys, i roi cyngor a chymorth arbenigol nac i gynrychioli'r bobl ifanc yn yr apêl. Pan oedd cyfreithiwr neu gwnsler wedi cael ei benodi i gynrychioli person ifanc fel apelydd, nid oedd ei brofiad o weithio'n uniongyrchol gyda pherson ifanc ag anableddau dysgu yn amlwg. Mae rhieni, fel cynrychiolwyr ar ran person ifanc neu gyfrwng ar gyfer cyfathrebu effeithiol, wedi parhau i fod yn ganolog i'r apeliadau hyn.

Mae pum apelydd wedi cofrestru apêl ADY gyda chymorth Help Cyfreithiol neu wedi cael Help Cyfreithiol yn ystod yr apêl. Math o Gymorth Cyfreithiol yw Help Cyfreithiol, a ddylai fod ar gael i'r rheini sy'n gymwys i'w cefnogi i gyflwyno achos. Dylai roi cymorth a chyngor iddynt i baratoi dogfennau ar gyfer achos gan gynnwys cael gafael ar adroddiadau proffesiynol a gyfarwyddir yn breifat. Nid yw hyn yn cynnwys cynrychiolaeth mewn gwrandawiad Tribiwnlys.

Materion i'w hystyried

Mae'r ddyletswydd i "roi sylw" o dan adran 6 o Ddeddf ALNET yn ddyletswydd i "ystyried" y dymuniadau a'r teimladau a fynegir gan riant/rhieni a phlant a phobl ifanc; i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau; ac i ddarparu gwybodaeth neu gymorth wrth wneud y penderfyniadau hynny. Nid yw'n gwarantu nac yn gorfodi camau i gael eu cymryd. Fodd bynnag, mae'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a chyngor o dan adran 9 o Ddeddf ALNET yn rhwymedigaethau uniongyrchol.

**Mater i'w ystyried: Capasiti gwasanaethau**

Mae'r dystiolaeth gan y Tribiwnlys yn dangos bod capasiti'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a roddir ar waith gan awdurdodau lleol yn gwbl annigonol i ddiwallu anghenion rhiant/rhieni a phlant a phobl ifanc. Nid yw'r mwyafrif llethol o apelyddion yn cael eu cefnogi na'u cynrychioli i ddwyn eu hapêl er eu bod yn gofyn am help gan ffynonellau y mae eu hawdurdod lleol wedi cyfeirio atynt. O ganlyniad, nid yw achosion yn cael eu cyflwyno'n dda pan wneir y cais i gofrestru apêl. Mae'n rhaid i'r Tribiwnlys egluro cwmpas y gyfraith sydd i'w chymhwyso ond heb "gamu i'r maes" a rhoi cyngor i riant/rhieni a phlant a phobl ifanc.

Mae'r Tribiwnlys yn gweld cynnydd mewn materion y tu allan i'w awdurdodaeth yn cael eu codi y gellid bod wedi'u datrys rhwng apelydd ac awdurdod lleol drwy gael trafodaeth ar sail gwybodaeth.

**Mater i'w ystyried: Ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor**

Tystiolaeth TAC yw lle darparwyd cyngor a gwybodaeth, y ffordd orau o ddisgrifio'r ansawdd yw ei fod yn dameidiog. Yn aml, mae'n gwbl anghywir. Weithiau mae'n gamarweiniol a/neu'n seiliedig ar bolisi'r awdurdod lleol, ac nid y gyfraith. Mae nifer o bobl sy'n penodi eu hunain yn eiriolwyr ADY yn rhoi cyngor a chymorth i riant/rhieni neu blant a phobl ifanc am ffi. Yn rhy aml o lawer, mae ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor hwn yn wael ac yn anghywir.

**Mater i'w ystyried: Gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc**

Mae diffyg eiriolwyr annibynnol gyda'r lefel ofynnol o arbenigedd i ddarparu cyngor a chymorth neu gynrychioli plant a phobl ifanc mewn apêl. Rhaid i arbenigwyr o'r fath feddu ar y sgiliau i allu cyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc a allai fod ag amhariad gwybyddol, anawsterau lleferydd ac iaith neu orbryder. Efallai na fydd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i awdurdod lleol, a allai fod ag arbenigedd o'r fath, yn cael eu hystyried fel rhai sy'n darparu'r lefel ofynnol o annibyniaeth ar eu cyflogwr.

**Mater i'w ystyried: Cymorth Cyfreithiol**

Ychydig iawn o apeliadau ADY sydd wedi cael eu dwyn i'r Tribiwnlys gan riant/rhieni lle maent wedi gallu cael gafael ar Help Cyfreithiol. Dim mwy na phedwar. Nid oes unrhyw blant a phobl ifanc wedi dwyn apeliadau o dan gyfraith ADY gyda chymorth Help Cyfreithiol. Math o Gymorth Cyfreithiol yw Help Cyfreithiol, sydd ar gael i'r rheini sydd ar incwm isel ac sy'n bodloni'r meini prawf a bennwyd gan y Llywodraeth Ganolog ac a weinyddir drwy'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol https://www.gov.uk/gwirio-os-ydych-yn-gymwys-i-gael-cymorth-cyfreithiol. Os bydd rhiant neu blentyn neu berson ifanc yn llwyddo i gael gafael ar Help Cyfreithiol, mae'n rhoi'r hawl iddo gael cymorth i baratoi apêl a gall hefyd gynnwys comisiynu hyd at dri adroddiad dan gyfarwyddyd preifat gan weithwyr proffesiynol. Mewn apêl i TAC, byddai hyn fel arfer gan Seicolegwyr Addysg, Therapydd Lleferydd ac Iaith, Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd neu weithiwr proffesiynol CAMHS. Nid yw Help Cyfreithiol ar gyfer apeliadau ADY yn cynnwys cynrychiolaeth nac eiriolaeth mewn gwrandawiad rheoli achos na gwrandawiad terfynol. Ychydig iawn o gyfreithwyr sydd â chontractau Cymorth Cyfreithiol sy'n ymdrin ag achosion yng Nghymru.

7.6 **<u>Dyletswydd i lunio a chynnal CDU – plant a phobl ifanc mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach</u>**

<u>Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol</u>

***Adran 10 o Ddeddf ALNET - Cynlluniau Datblygu Unigol***

*At ddibenion y Ddeddf hon, dogfen sy'n cynnwys y canlynol yw cynllun datblygu unigol -*

*(a) disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person;*

*(b) disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anhawster dysgu neu anabledd y person yn galw amdani;*

*(c) unrhyw beth arall sy'n ofynnol neu sydd wedi ei awdurdodi gan neu o dan y Rhan hon.*

***Adran 12 o Ddeddf ALNET - Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach***

*(1) Os yw corff llywodraethu yn penderfynu o dan adran 11 fod gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol, rhaid iddo -*
- *(a) llunio cynllun datblygu unigol ar ei gyfer, oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn is-adran (2) yn gymwys, a*
- *(b) cynnal y cynllun, oni bai bod yr amgylchiadau ym mharagraff (b) neu (d) o is-adran (2) yn gymwys.*

*(2) Yr amgylchiadau yw -*
- *(a) bod y corff llywodraethu yn ystyried bod gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol -*
  - *i. <u>a all alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau,</u>*
  - *ii. <u>na all y corff llywodraethu bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol,</u> neu*
  - *iii. <u>na all y corff llywodraethu bennu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer yn ddigonol,</u>*

  *a bod y corff llywodraethu yn atgyfeirio achos y plentyn neu'r person ifanc i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc i'r awdurdod benderfynu yn ei gylch o dan adran 13(1);*

**Gweler uchod am ddyletswydd ganlyniadol yr awdurdod lleol o dan adran 13 i wneud penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn ADY. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu o dan adran 13 fod gan y plentyn ADY, mae adran 14 yn berthnasol:**

***Adran 14 o Ddeddf ALNET - Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau: Awdurdodau Lleol***

*(1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys os yw awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc ac -*

*(a) yn achos plentyn, os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu o dan adran 13 fod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol,*

*(b) yn achos person ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu o dan adran 13 fod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, neu*

*(c) yn achos unrhyw berson ifanc arall, os yw'r awdurdod lleol -*

*i. yn penderfynu o dan adran 13 fod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, a*

*ii. yn penderfynu yn unol â rheoliadau o dan adran 46 fod angen llunio a chynnal cynllun o dan yr adran hon ar gyfer y person ifanc i ddiwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.*

*(2) Rhaid i awdurdod lleol -*

*(a) llunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw, neu*

*(b) os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig, neu i fod yn ddisgybl cofrestredig, mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru a bod <u>yr awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol</u> -*

*i. llunio cynllun datblygu unigol a chyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i gynnal y cynllun, neu*

*ii. cyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i lunio a chynnal cynllun.*

*(3) Ond nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys os yw'r cynllun yn ymwneud â pherson ifanc ac nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r cynllun gael ei lunio neu ei gynnal.*

***Rheoliadau ADY (Cymru) 2021 Rheoliad 8***

**Yr angen am gynllun: rhaglenni astudio mewn ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a sefydliadau penodol yn Lloegr**

*(1) Mae'n <u>angenrheidiol</u> i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol, neu barhau i gynnal cynllun datblygu unigol, ar gyfer y <u>person ifanc</u> os byddai'r awdurdod lleol, neu os yw'r awdurdod lleol, wrth lunio neu gynnal y cynllun ar gyfer y person ifanc, o dan y ddyletswydd yn adran 14(6) o Ddeddf 2018 i ddisgrifio darpariaeth o fath a restrir yn adran 14(7) o'r Ddeddf honno.*

*(2) Mae hefyd yn <u>angenrheidiol</u> i awdurdod lleol barhau i gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person ifanc os yw'r person ifanc i gofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru i ddilyn rhaglen astudio.*

*(3) Ar gyfer achosion nad ydynt yn dod o fewn paragraff (1) neu (2), rhaid i'r awdurdod lleol ystyried -*

(b) *yn achos person ifanc sydd i gofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, a yw'n rhesymol i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol;*

(c) *yn achos person ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn ysgol a gynhelir yn Lloegr, Academi neu sefydliad yn y sector addysg bellach yn Lloegr, neu sydd i fod yn ddisgybl neu'n fyfyriwr o'r fath, a fyddai corff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad neu, yn achos Academi, y perchennog, yn sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.*

*(4) Wrth ystyried mater y cyfeirir ato ym mharagraff (3), rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r corff llywodraethu neu'r perchennog.*

*(5) Mae'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol, neu barhau i gynnal cynllun datblygu unigol, ar gyfer y person ifanc -*
*(a) os yw'r awdurdod lleol, yn yr achos y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(a), yn ystyried nad yw'n rhesymol i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol;*
*(b) os nad yw'r awdurdod lleol, yn yr achos y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(b), wedi ei fodloni y byddai'r corff llywodraethu neu'r perchennog yn sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.*

*(6) Fel arall nid yw'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol, neu barhau i gynnal cynllun datblygu unigol, ar gyfer y person ifanc.*

**Y Cod ADY - Atgyfeirio achosion o ysgol a gynhelir at awdurdod lleol - paragraff 12.43 ar y ffactorau i'w hystyried**

*12.43*

*Gallai amgylchiadau'r ysgol (hynny yw, ei lleoliad, ei maint, ei chyllideb, ei phrofiad ac ati) effeithio ar farn yr ysgol ynghylch a fyddai'n rhesymol iddi sicrhau'r DDdY. Er enghraifft, gallai unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol effeithio ar y farn honno:*

*(a) mae gan y plentyn gyflwr llai cyffredin neu gyflwr prin sy'n galw am arbenigedd na all yr ysgol ei ddarparu;*

*(b) er mwyn diwallu anghenion y plentyn, mae ar yr ysgol angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol sydd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei drefnu'n rhesymol gan yr ysgol;*

*(c) mae ar y plentyn angen cyfarpar y gellir ei ddefnyddio gan un disgybl yn unig neu na ellir ei ailddefnyddio neu sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol;*

*(d) mae ar y plentyn angen cymorth dyddiol dwys iawn na ellir yn rhesymol ei gyllido neu ei sicrhau o gyllideb yr ysgol.*

**Y Cod ADY – Cynnal CDU – dyletswyddau awdurdod lleol**

*11.26 – 11.33 Awdurdod lleol yn cynnal CDU - ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru*

*12.77 – 12.82 Awdurdod lleol yn cynnal CDU - ar gyfer plant mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru*

*13. 25 – 13.31 Awdurdod lleol yn cynnal CDU - ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir*

*15.81 – 15.86 Awdurdod lleol yn cynnal CDU - ar gyfer pobl ifanc mewn ysgol a gynhelir*

*16.74 – 16.79 Awdurdod lleol yn cynnal CDU - ar gyfer pobl ifanc mewn sefydliad addysg bellach*

**Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach – Pennod 17**

*17. 21 – 17.90 Awdurdod lleol yn penderfynu ar CDU ac yn ei gynnal ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir nac mewn sefydliad addysg bellach*

**Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin** (diweddarwyd y canllawiau ddiwethaf 11 Mai 2022)

*Caiff ADY ei adnabod, a CDU ei lunio a'i gynnal, naill ai gan ysgol, uned cyfeirio disgyblion, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol. Pennir y sawl sy'n adnabod ADY ac yn llunio a chynnal y CDU yn dibynnu ar sut y caiff addysg y plentyn neu'r person ifanc ei darparu, difrifoldeb neu gymhlethdod ei anghenion ac amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc...*

*Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal CDUau i blant a phobl ifanc ag ADY:*

- *nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir, uned cyfeirio disgyblion na sefydliad addysg bellach*
- *sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad*
- *sydd ag ADY sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ac na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau*

*Hefyd, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal CDUau i blant ag ADY sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.*

Tystiolaeth

Mae'r Tribiwnlys wedi cofrestru 41 apêl yn erbyn penderfyniadau gan awdurdod lleol yn dweud na fydd yn llunio a/neu'n cynnal CDU.

Ni chofrestrwyd unrhyw achosion yn erbyn penderfyniad sefydliad addysg bellach i beidio â chynnal CDU.

Mae tystiolaeth gan ysgolion yn dangos bod rhai awdurdodau lleol yn dweud mai dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn y gallant wneud ceisiadau i'r awdurdod lleol gynnal CDU:

> *Mae ein hawdurdod lleol yn glir mai dim ond mewn un o 5 o amgylchiadau y bydd CDU yn cael ei gynnal - os yw'r plentyn yn derbyn gofal, yn cael ei gadw'n gaeth, os oes ganddo leoliad a rennir, os yw mewn addysg ac eithrio mewn ysgol, neu os nad yw'n mynychu'r ysgol. Mae gennym lawer o blant yn ein hysgol a oedd â Datganiad ond sydd bellach â CDU a gynhelir gan yr ysgol. Mae gan rai o'r rhain anghenion eithaf dwys ac mae angen cymorth 1:1 llawnamser arnynt. Ni allwn ariannu'r ddarpariaeth honno mwyach ond mae'r awdurdod lleol yn dal i wrthod ein ceisiadau i gynnal y CDU. Fel CADY rwyf mewn sefyllfa anobeithiol.*

> *Dywedodd yr awdurdod lleol wrthyf, gan fod modd diwallu anghenion fy mhlentyn yn Ysgol XXX, ein hysgol arbennig leol, nad oes angen CDU a gynhelir gan awdurdod lleol arno. Mae'r CDU bellach yn amwys iawn ac mae'r CADY yn dweud mai felly y mae yn y system newydd. Bydd yn cael y ddarpariaeth y gall yr ysgol ei darparu.*

Pan fydd awdurdodau lleol yn rhoi rhesymau dros eu penderfyniadau cychwynnol, maent yn canolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael yn yr ysgol benodol y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei mynychu, neu'r cynnig yw ei fod yn ei mynychu.

Mewn un apêl, dywedodd yr awdurdod lleol mai'r rheswm dros wrthod cymryd drosodd CDU mewn ysgol oedd nad oedd ADY y plentyn "yn ddigon cymhleth".

Mae'r trothwy sy'n cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol wrth benderfynu pryd y bydd CDU yn cael ei gynnal ganddynt hwy, yn hytrach nag ysgol neu sefydliad addysg bellach, yn amrywio'n fawr. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae tystiolaeth gan ysgolion yn dangos eu bod wedi cael cyngor penodol mai dim ond plant sy'n derbyn gofal, nad ydynt yn mynd i'r ysgol, sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol neu mewn lleoliadau a rennir sydd â hawl i CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae tystiolaeth ysgrifenedig a ddarperir mewn apeliadau yn nodi'r dulliau polisi hyn yn glir.

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: Cymhwyso prawf cyfreithiol pan fydd yn rhaid i awdurdod lleol gynnal CDU**

O dan adran 324(1) o Ddeddf Addysg 1996, roedd awdurdod lleol yn cyhoeddi Datganiad AAA pan oedd yn ystyried bod hynny'n “angenrheidiol”. Roedd yn ddogfen gyfreithiol rwymol ar yr awdurdod lleol, a oedd wedyn â'r ddyletswydd i sicrhau'r ddarpariaeth addysgol arbennig a nodwyd. Sefydlwyd mai'r trothwy ar gyfer yr adeg yr oedd ei angen oedd pan oedd y ddarpariaeth addysgol arbennig sydd ei hangen ar blentyn i ddiwallu ei anghenion addysgol arbennig yn fwy nag y gellid disgwyl yn rhesymol iddi gael ei darparu gan ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru neu Loegr. Nid oedd yn ddyletswydd yn ymwneud â'r ddarpariaeth benodol oedd ar gael mewn ysgol unigol neu ardal awdurdod lleol. Nid oedd cynllun statudol wedi'i roi ar waith ar gyfer plant ag AAA y gallai'r adnoddau oedd ar gael mewn ysgol ddiwallu eu hanghenion, ond roeddent yn cael eu cefnogi yn lle hynny gan Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.

O dan Ddeddf ALNET, mae'n rhaid i bob plentyn a pherson ifanc y nodwyd bod ganddynt ADY gael CDU ar waith. Mae CDU yn ddogfen statudol a all gael ei chynnal gan yr ysgol a gynhelir neu'r sefydliad addysg bellach y mae'n ei mynychu neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt. Mae'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros sicrhau'r ddarpariaeth a ddisgrifir yn y CDU yn dibynnu ar bwy sy'n ei chynnal.

Ni all ysgol neu goleg annibynnol gynnal CDU. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r CDU gael ei gynnal gan yr awdurdod lleol, a fydd wedyn yn gyfrifol am sicrhau'r ddarpariaeth a nodir yn y CDU, o dan adran 14(10) o Ddeddf ALNET. Os enwir lleoliad addysgol yn Adran 2D y CDU o dan adran 14(6) o Ddeddf ALNET, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ariannu'r ddarpariaeth honno gan gynnwys bwyd a llety.

Gall y Tribiwnlys ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniad lle mae awdurdod lleol wedi gwrthod cais i gynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc. Gall hyn fod ar ôl i ysgol neu sefydliad addysg bellach wneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol i ailystyried ei benderfyniad ynghylch a oes angen CDU a gynhelir gan awdurdod lleol ar blentyn neu berson ifanc a bod y rhiant/rhieni neu'r plentyn neu'r person ifanc yn anghytuno â'r penderfyniad hwnnw. Mae'r math hwn o apêl yn cael ei gofrestru fwyfwy gan y Tribiwnlys. Fel arfer, cyfunir achosion o'r fath ag apêl yn erbyn cynnwys y CDU – yn benodol adran 2A – disgrifiad o ADY; adran 2B – disgrifiad o DDdY; adran 2D – lleoliad addysgol.

Mae'r materion a godwyd mewn apeliadau sy'n ymwneud â chymhwyso'r prawf cyfreithiol fel a ganlyn:

**Mater i'w ystyried: Gwahanol brofion cyfreithiol mewn gwahanol amgylchiadau yn arwain at ddiffyg eglurder**

**Pan fydd y ddyletswydd yn symud o gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach i awdurdod lleol**

Mae'r ddyletswydd ar awdurdod lleol i lunio a chynnal CDU wedi'i chynnwys yn adran 14(2)(a). Mae adran 14(1) yn nodi pryd y bydd y ddyletswydd yn berthnasol; yn achos plentyn bydd yn berthnasol pan fydd awdurdod lleol wedi penderfynu o

dan adran 13 bod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r amgylchiadau lle bydd angen i awdurdod lleol wneud penderfyniad o dan adran 13 i'w gweld yn adran 12(2). Mae hyn yn golygu pan fydd y corff llywodraethu yn ystyried bod gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol -

(i) a all alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau,
(ii) na all y corff llywodraethu bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol, neu
(iii) na all y corff llywodraethu bennu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer yn ddigonol.

**Opsiwn yr awdurdod lleol i gyfarwyddo bod cynllun yn cael ei gynnal gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir**

Mae opsiwn yn adran 14(2)(b) y gall awdurdod lleol gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnal y cynllun, os yw'r awdurdod o'r farn ei fod yn "briodol". Dibynnir ar hyn mewn rhai awdurdodau lleol i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros gynnal CDU i'w hysgolion arbennig a gynhelir. Mae hyn yn golygu bod gwahaniaeth rhwng yr amgylchiadau a nodir yn adran 12(2) (a nodir uchod) sy'n cyflwyno'r ddyletswydd o dan adran 14(2)(a) (sy'n dod yn weithredol pan na fyddai'n rhesymol i gorff llywodraethu sicrhau'r ddarpariaeth) ac adran 14(2)(b) sy'n cyflwyno prawf ehangach posibl o "briodoldeb" yn gyffredinol. Nid yw'r Cod ADY yn datrys hyn; mae'n nodi ym mharagraff 12.86 sefyllfaoedd lle na ddylai awdurdod lleol ddefnyddio ei bwerau i gyfarwyddo ysgol i lunio CDU ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Dibynnir ar y pŵer cyfarwyddo hwn mewn rhai awdurdodau lleol i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros gynnal CDU i'w holl ysgolion a gynhelir, gan gynnwys ysgolion arbennig a gynhelir, ac eithrio yn yr amgylchiadau mwyaf cyfyngedig. Yn aml, mae p'un a all ac a fydd ysgol yn gallu gwneud y DDdY yn destun anghydfod ganddynt mewn apeliadau. Rhaid cofio mai rôl y Tribiwnlys yw ystyried anghydfodau rhwng rhiant/rhieni, plant a phobl ifanc ac awdurdod lleol cyfrifol. Nid penderfynu ar anghydfodau rhwng awdurdod lleol ac ysgol.

Mae defnyddio'r gair "priodoldeb" a'i gymhwyso i unrhyw ysgol a gynhelir (nid dim ond ysgolion prif ffrwd a gynhelir) yn creu prawf gwahanol i'r prawf blaenorol. Nid yw'r trothwy hwn bellach yn brawf anghenraid fel o dan gyfraith AAA. Nid yw'r un fath â'r hyn sydd i'w gymhwyso yn achos person ifanc o dan Ddeddf ALNET. Y dystiolaeth o achosion apêl yw bod y profion newydd yn creu gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae Deddf ALNET yn cael ei chymhwyso ledled Cymru gydag anghysondebau clir mewn penderfyniadau ynghylch a yw CDU plentyn neu berson ifanc yn cael ei gynnal gan ysgol neu'r awdurdod lleol.

**Pobl ifanc mewn sefydliadau addysg bellach – Dyletswyddau sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol i gynnal CDU**

Mae'r prawf cyfreithiol yn wahanol pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad ynghylch person ifanc a fydd yn mynychu ysgol neu sefydliad addysg

bellach o dan adran 14(6). Mae rheoliad 8(1) yn pennu ei bod yn angenrheidiol i awdurdod lleol lunio a chynnal, neu barhau i gynnal, CDU pan fo dyletswydd ar yr awdurdod lleol o dan adran 14(6). Bydd hyn yn berthnasol pan fydd awdurdod lleol yn enwi lleoliad ar gyfer person ifanc yn y CDU o dan adran 14(6) o Ddeddf ALNET.

Bydd adran 14(6) ond yn gymwys os na ellir diwallu anghenion rhesymol (yn yr achos hwn) person ifanc am DDdY oni bai bod awdurdod lleol hefyd yn sicrhau darpariaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (7) (hynny yw, lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall; neu (b) bwyd a llety).

Mae hyn yn ei wneud yn wahanol i'r prawf "priodol" y cyfeirir ato uchod (mewn perthynas â chyfarwyddyd a wneir i ysgol a gynhelir yng Nghymru).

Yn ychwanegol at hynny, mae Rheoliad 8(2) yn cynnwys amgylchiad arall lle mae'n rhaid i awdurdod lleol gynnal CDU (sy'n berthnasol i bobl ifanc yn unig) os yw'r person ifanc am gofrestru'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru i ddilyn rhaglen astudio.

Mae rheoliad 8(5) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal CDU ar gyfer person ifanc os nad yw'n rhesymol i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad sicrhau'r DDdY a lle nad yw'r awdurdod lleol yn fodlon y byddai'r corff llywodraethu neu'r perchennog yn sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

**Plant a phobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach**

Os nad yw'r amgylchiadau uchod yn berthnasol, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd o hyd i gynnal CDU os yw'r ddyletswydd o dan adran 14(2)(a) o Ddeddf ALNET yn berthnasol. Mae'r Tribiwnlys wedi cofrestru nifer o achosion lle mae'r awdurdod lleol wedi dyrannu lle mewn ysgol a gynhelir i blentyn neu berson ifanc o dan y trefniadau derbyn gyda'r disgwyliad y bydd y Corff Llywodraethu wedyn yn cynnal y CDU. Fodd bynnag, nid yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi mynychu ac nid yw'n mynychu. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r awdurdod lleol yn dadlau, pe bai'n gwneud hynny, na fyddai angen iddo gynnal y CDU. Byddai'n werth cael eglurhad o'r trothwy lle mae'n ofynnol i awdurdod lleol ystyried cymhwyso adran 14(2)(a) o Ddeddf ALNET mewn achosion o'r fath. Mewn un achos roedd yr anghydfod rhwng yr awdurdod lleol a'r rhieni ynghylch derbyn y plentyn i'r ysgol wedi bod yn mynd rhagddo ers bron i 18 mis cyn nodi hawl i apelio i'r Tribiwnlys a chofrestru apêl. Nid oedd y plentyn yn derbyn addysg briodol yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Mater i'w ystyried: Tystiolaeth am ADY plant a phobl ifanc a'r DDdY sydd ei hangen arnynt**

O dan Ddeddf ALNET, nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol o anghenion y plentyn neu'r person ifanc na nodi'r DDdY y gallai fod ei hangen arno cyn penderfynu a yw CDU i gael ei gynnal ganddo.

Mae hyn yn newid mawr i'r broses a oedd yn cael ei dilyn o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 a’r Rheoliadau AAA a oedd yn gofyn am asesiad statudol o'r plentyn, lle’r oedd rhaid i'r awdurdod lleol gael gwybodaeth a chyngor ynghylch anghenion y plentyn a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny gan rai gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys Seicolegydd Addysg, o fewn amserlenni a ddiffiniwyd yn glir. Dim ond wedyn y byddai disgwyl i awdurdod lleol benderfynu a oedd angen Datganiad AAA.

Mewn apeliadau i TAC, nid yw'r dystiolaeth a ddarperir fwyfwy yn cynnwys adroddiad asesu Seicolegydd Addysg nac unrhyw adroddiadau asesu proffesiynol cyfredol. Felly, mae tystiolaeth gan ysgolion am alluoedd a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc wedi dod yn ganolog wrth benderfynu ar achosion. Mae gan y dystiolaeth hon bwysau, gan ei bod yn seiliedig ar berthynas barhaus, hirdymor fel arfer, rhwng staff yr ysgol a phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, gall ddangos diffyg profiad o anghenion ADY ehangach, yn enwedig os yw'n cael ei ddarparu gan ysgol brif ffrwd. Mae mewnbwn gan Athro Arbenigol, naill ai o dîm yr awdurdod lleol ei hun neu fel gwasanaeth allgymorth o Ysgol Arbennig, yn dod yn bwysig er mwyn nodi a phenderfynu pa ddarpariaeth sydd ei hangen i gefnogi plant a phobl ifanc yn briodol.

7.7 **Cynnwys CDU – Adran 2A ADY**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 70(2) o Ddeddf ALNET***

*Caiff plentyn neu berson ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y materion a ganlyn -*

…

*(c) y disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person mewn cynllun datblygu unigol;*

***Adran 10 o Ddeddf ALNET - Cynlluniau Datblygu Unigol***

*At ddibenion y Ddeddf hon, dogfen sy'n cynnwys y canlynol yw cynllun datblygu unigol*

*(a) disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person;*

**Y Cod ADY - Pennod 23 Llunio a chynnal CDU, a chynnwys y CDU**

**Paragraffau 23.27 – 23.28**

*23.27. Dylai'r disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc fod mor glir a chynhwysfawr â phosibl a chynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl am effaith yr angen ar ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc. Os oes diagnosis perthnasol wedi'i wneud, dylid ei gynnwys yn rhan o'r disgrifiad. Er mai'r diffiniad o ADY yw bod yr anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am DDdY, yr angen sydd wedi'i adnabod, hynny yw, yr anhawster dysgu neu'r anabledd, y dylid ei nodi yn yr adran hon, gan fod y DDdY yn cael ei disgrifio yn yr adran nesaf. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am ddrafftio'r CDU sicrhau nad ydynt yn camgymryd y disgrifiad o ADY am y DDdY sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'n bosibl y bydd y disgrifiad o ADY yn datblygu wrth wneud atgyfeiriadau a derbyn cyngor/asesiadau.*

*23.28. Gallai'r adran hon gynnwys y rhesymau dros benderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, a dylid cynnwys y rhain os oes rhesymau penodol dros benderfyniad na fyddai'n amlwg o bosibl i rywun sy'n ystyried yr achos yn y dyfodol, neu os oedd anghytuno ynghylch yr ADY. Efallai fod y gweithwyr proffesiynol wedi anghytuno neu fod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wedi anghytuno â'r gweithwyr proffesiynol, neu efallai fod gwahaniaeth barn rhwng rhywrai eraill. Gellir egluro sut y cafodd safbwyntiau gwahanol eu hystyried cyn gwneud penderfyniad penodol.*

Tystiolaeth

| |
|---|
| Mae materion a godir mewn apeliadau yn erbyn Adran 2A o CDU yn tueddu i gael eu hachosi gan ddiffyg tystiolaeth neu dystiolaeth sydd wedi dyddio am anghenion plant a phobl ifanc. Mewn llawer o achosion, nid yw awdurdodau lleol yn ystyried neu maent yn gwrthod tystiolaeth i ddechrau gan weithwyr proffesiynol nad ydynt yn awdurdodau lleol neu wasanaethau'r GIG. Mae hyn yn fwyaf amlwg pan fydd gan blant a phobl ifanc ddiagnosis preifat o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio (ADD) a hefyd pan fydd Therapydd Galwedigaethol wedi nodi bod gan y plant a'r bobl ifanc broblemau integreiddio synhwyraidd. |
| *Fel awdurdod lleol, byddwn yn adolygu'r llythyrau a'r adroddiadau gan ein gweithwyr proffesiynol a rhai tîm y GIG yn lleol. Byddwn yn eu hystyried i gyd wrth ddrafftio CDU. Mae'r hyn y mae'r ysgol yn ei ddweud wrthym yn bwysig iawn. Nid ydym fel arfer yn ystyried tystiolaeth gan therapyddion preifat y mae rhieni'n talu amdanynt.* |
| Ar ôl rheoli achos, bydd awdurdod lleol yn aml yn adolygu'r dystiolaeth hon ac yn ei derbyn. Yna, bydd y partïon yn cytuno ar ddiwygiadau i'r CDU ac nid yw hyn yn parhau i fod yn faes canolog o anghydfod yn yr achos mewn gwrandawiad terfynol. |
| *Ar ôl i'r Barnwr siarad â ni ar yr alwad fideo, derbyniodd yr awdurdod lleol fod gan xx anghenion synhwyraidd. Cyn hynny, roedd wedi dweud wrthym na allai ystyried adroddiad ein therapyddion.* |

Materion i'w hystyried

| |
|---|
| **Mater i'w ystyried: Ystyried yr holl dystiolaeth** |
| Wrth ddrafftio'r disgrifiad o ADY yn Adran 2A mewn CDU, mae angen i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth fel diagnosis neu adroddiad asesu gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc y tu allan i'r awdurdod lleol neu gorff lleol y GIG. Anaml iawn y rhoddir rhesymau pam na dderbyniwyd neu na ddibynnwyd ar y dystiolaeth hon ac eithrio'r ffaith nad yw'r ffynhonnell yn dod o wasanaethau cyhoeddus. Cyflwynir y ddadl hon hyd yn oed mewn gwrandawiadau terfynol. |

Gan nad yw'n ofynnol mwyach i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol o blant a phobl ifanc cyn drafftio CDU, nid yw'r holl dystiolaeth sydd ar gael bob amser yn cael ei chasglu na'i hystyried wrth ddrafftio'r CDU.

Er y gall diagnosis fod yn ddefnyddiol i nodi'r anghenion posibl y mae plant a phobl ifanc yn eu profi, nid yw'n hanfodol. Yr hyn sydd bwysicaf yw tystiolaeth o'r math o anghenion dysgu sydd ganddynt, a faint o anghenion dysgu sydd ganddynt o gymharu â chyfoedion o'r un oedran sy'n datblygu fel arfer.

7.8 **Cynnwys CDU – Adran 2B DDdY gan gynnwys deilliannau**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 70(2) o Ddeddf ALNET***

*Caiff plentyn neu berson ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y materion a ganlyn -*

…

(d) *y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun datblygu unigol neu'r ffaith nad yw darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun (gan gynnwys a yw'r cynllun yn pennu y dylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg);*

***Adran 10 o Ddeddf ALNET - Cynlluniau Datblygu Unigol***

*At ddibenion y Ddeddf hon, dogfen sy'n cynnwys y canlynol yw cynllun datblygu unigol -*

*…*

> *(b) disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anhawster dysgu neu anabledd y person yn galw amdani;*
>
> …

**Y Cod ADY - Pennod 23 - Llunio a chynnal CDU, a chynnwys y CDU**

*23.34. Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth, pan fo'n berthnasol, am ba mor aml y bydd y DDdY yn cael ei chyflwyno (er enghraifft, a fydd yn cael ei darparu bob dydd, bob wythnos, ar benwythnosau, ar ddiwrnodau ysgol yn unig neu unwaith y tymor, ac ati).*

*23.37 Bydd yr wybodaeth a gofnodir am y DDdY yn fwy defnyddiol os yw'n cael ei chyflwyno mewn ffordd glir. Dylai'r wybodaeth fod yn fanwl, yn benodol ac yn fesuradwy. Gallai'r eglurder hwn ddeillio o ddisgrifio'r tasgau neu'r camau penodol a fydd yn cael eu cyflawni; gallai hefyd fanylu ar yr hyfforddiant neu'r cymwysterau y bydd eu hangen ar unrhyw aelodau staff. Ni fydd datgan yn unig y bydd cymorth yn cael ei ddarparu yn bodloni'r angen i fod yn eglur; mae'n bwysig disgrifio'r tasgau y bydd unrhyw staff yn eu gwneud neu'n eu hwyluso, yr hyn y byddant yn gyfrifol amdano, ac, os oes angen, y cymwysterau neu'r hyfforddiant y bydd eu hangen arnynt.*

Gweler **paragraff 23.30** hefyd am bwysigrwydd canlyniadau.

*23.30 <u>Dylai</u>'r deilliannau a fwriedir ganolbwyntio ar alluogi plant a phobl ifanc i symud tuag at ddyheadau hirdymor, boed yn gyflogaeth neu'n addysg bellach neu uwch, byw'n annibynnol a/neu gyfranogiad cymunedol. Felly, mae'n hanfodol ystyried yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc a'r hyn y mae am ei gyflawni. Hefyd, gall CDUau gynnwys deilliannau â ffocws ehangach, fel cydberthnasau cymdeithasol cadarnhaol a chryfder a sefydlogrwydd emosiynol. I rai plant a phobl ifanc, gall deilliant a fwriedir ymwneud â lleihau effaith unrhyw amhariad ar eu dysgu.*

<u>Tystiolaeth</u>

Gellir rhannu apeliadau yn erbyn Adran 2B CDU yn ddau fath;

a. Y rhai lle nad yw'r ddarpariaeth yn cael ei disgrifio o gwbl
b. Y rhai lle mae darpariaeth wedi'i disgrifio ond heb ei phennu

Mae tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol yn dangos camddealltwriaeth o'r angen i bennu darpariaeth.

*Yn ein hawdurdod lleol, dywedwyd wrthym ni nad oes rhaid i ni bellach bennu pa ddarpariaeth sydd ei hangen ar blentyn yn y CDU. Dim ond ar gyfer Datganiadau oedd hynny. Bydd y system hon yn symlach.*

*Mae holl fanylion datganiad fy merch wedi cael eu dileu. Dywedodd y CADY wrthyf nad oedd ei angen nawr gan fod yr ysgol yn gwybod beth sydd ei angen arni ond dydy ei therapi iaith a lleferydd ddim yn cael ei ddarparu bellach, a dydw i ddim yn credu bod unrhyw beth y galla' ei wneud am y peth.*

*Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym ni na ddylem bennu darpariaeth 1:1 mewn CDU plentyn. Mater i ni fel ysgol yw ei ariannu nawr, nid i'r awdurdod lleol. Yr unig broblem yw bod gan y plentyn yr un anghenion o hyd ac allwn ni ddim fforddio cynnal y lefel honno o gymorth. Wn i ddim beth i'w wneud nesaf fel CADY.*

*Fel awdurdod lleol, nid ydym yn ystyried adroddiadau y mae rhieni wedi'u cael, gorddarpariaeth yw'r rhain fel arfer. Oni bai bod therapydd galwedigaethol y GIG*

*wedi argymell hynny, nid ydym yn cytuno i gyfeirio therapi i fynd i'r afael ag anghenion synhwyraidd.*

Mae awdurdodau lleol yn dal i fethu â darparu tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol fel mater o drefn ac yna'n ceisio dod â nhw fel tyst i wrandawiad. Wrth holi'r gweithwyr proffesiynol hynny'n rhy aml, nid ydynt hyd yn oed wedi cwrdd â'r plant a'r bobl ifanc ond yn hytrach maent yn rheolwyr tîm sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth fel therapi.

Mae ansawdd y fanyleb mewn CDUau yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol. Mewn rhai, yn enwedig lle mae'r ysgol wedi bod yn gyfrifol am drosglwyddo Datganiad AAA i CDU, mae'r fanyleb yn wael iawn. Mae hyn yn broblem benodol mewn ysgolion arbennig a gynhelir. Mewn un enghraifft, nid oedd Adran 2B mewn CDU yn fwy na phedair brawddeg ac nid oedd y rheini'n benodol hyd yn oed.

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: Y gofyn i bennu**

Mae'r gofyn blaenorol i "bennu" DAA mewn Datganiad AAA o dan adran 324(3)(b) o Ddeddf Addysg 1996 wedi newid i fod yn ofyniad i CDU gynnwys "disgrifiad" o DDdY o dan adran 10(b) o Ddeddf ALNET.

Mae'r gofyniad i "bennu" wedi'i ddiffinio mewn cyfraith achosion, yn arbennig yn *L v Clarke a Chyngor Sir Gwlad yr Haf [1998] ELR 129* sy'n dweud mai'r gwir gwestiwn mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad penodol oedd a oedd:

*"mor benodol ac mor glir fel nad oes lle i amau'r hyn a benderfynwyd sy'n angenrheidiol yn yr achos unigol. Yn aml iawn, mae'n siŵr y bydd yn angenrheidiol pennu oriau'r wythnos a bydd angen gwneud hynny."*

Mae'r ffaith bod y Cod ADY yn mabwysiadu'r geiriau *manwl, penodol a mesuradwy* yn awgrymu efallai nad yw Llywodraeth Cymru wedi bwriadu newid y gofyniad i bennu.

Mae'r gair 'pennu' yn cael ei ddefnyddio rhywfaint yn Neddf ALNET, ond nid yw'r gair yn cael ei ddefnyddio yn yr un ffordd â'r oedd yn arfer cael ei ddefnyddio yn Neddf Addysg 1996. Er enghraifft, mae adran 15(5) o Ddeddf ALNET yn cynnwys gofyniad, lle mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu fod yn Gymraeg, i 'bennu' y dylid ei darparu yn Gymraeg. Ond dyletswydd syml yw hyn i ddweud bod y ddarpariaeth i'w darparu yn Gymraeg. Yn yr un modd, mae adran 21(3) yn cynnwys dyletswydd i "ddisgrifio'r" driniaeth neu'r

gwasanaeth sydd i'w ddarparu gan gorff y GIG, gyda dyletswydd i ‘bennu’ y bydd yn cael ei sicrhau gan gorff y GIG – unwaith eto, nid yw’r gair yn cael ei ddefnyddio fel y cafodd ei ddefnyddio yn fframwaith deddfwriaethol blaenorol Deddf Addysg 1996.

Fodd bynnag, yn y rhestr o orchmynion y gall y Tribiwnlys eu gwneud ar apêl, gall y Tribiwnlys orchymyn i awdurdod lleol ddiwygio cynllun datblygu unigol “fel y nodir yn y gorchymyn” sy'n dangos, pan fydd yn gwneud gorchymyn am gynnwys CDU, ei bod yn ofynnol iddo sicrhau ei fod yn “pennu” ei gynnwys. Byddai hyn yn dangos bod y gofyn i bennu disgrifiadau ADY a DDdY, ni waeth beth yw’r newid mewn iaith, yn cael ei dderbyn yn sylfaenol.

**Mater: Tystiolaeth o ddarpariaeth**

Unwaith eto, gan nad oes gofyniad bellach i awdurdod lleol gynnal asesiad statudol o anghenion plant a phobl ifanc a'r ddarpariaeth y bydd ei hangen arnynt, mae gan awdurdodau lleol a'r Tribiwnlys, wrth ystyried apeliadau, lai o dystiolaeth ar gael gan weithwyr proffesiynol i seilio penderfyniadau am gynnwys CDU arni. Mae'r ffaith mai dim ond ystyried a ddylid cael adroddiad Seicolegydd Addysg y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei wneud, nid comisiynu un mewn gwirionedd, cyn penderfynu a ddylid drafftio a chynnal CDU, yn golygu nad yw tystiolaeth o'r fath ar gael fwyfwy. Os oes adroddiad o'r fath ar gael, gall fod wedi cael ei baratoi dros dair blynedd yn ôl ar ôl cael Datganiad AAA. Bydd i ba raddau y bydd hyn yn broblem mewn apêl benodol yn dibynnu ar a oes tystiolaeth gadarn o ffynhonnell arall ai peidio, fel tystiolaeth gyfredol gan ysgol sy'n seiliedig ar gyflwyniad presennol y plant a'r bobl ifanc neu gan Athro Arbenigol sydd wedi bod yn gweithio gyda'r ysgol a'r plant a'r bobl ifanc.

Mae adroddiadau gan weithwyr proffesiynol addysg a'r GIG yn parhau i fod yn amhenodol ynghylch y ddarpariaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc. Roedd hwn yn fater o dan y Fframwaith AAA nad yw'r Ddeddf ALNET wedi mynd i'r afael ag ef. Mae tystion mewn tystiolaeth lafar yn glir mai’r cyngor a roddir iddynt gan awdurdodau lleol yw peidio â phennu darpariaeth, gan y bydd hyn wedyn yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei chynnwys mewn CDU ac yna bydd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i'w darparu. Dibynnir fwyfwy ar y termau cyffredinol “darpariaeth gyffredinol” neu “ddarpariaeth wedi'i thargedu” i ddisgrifio'r ddarpariaeth sydd ei hangen. Lle nad oes eglurder ynghylch y ddarpariaeth sydd i'w darparu o dan delerau o'r fath, mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn aneglur.

Fel y nodwyd eisoes, mewn llawer o awdurdodau lleol, mae tystiolaeth ysgrifenedig a gaiff rhiant/rhieni gan weithwyr proffesiynol dan gyfarwyddyd preifat yn cael ei hanwybyddu fel mater o drefn wrth ddrafftio CDU. Hyd yn oed pan gyflwynir y dystiolaeth mewn apêl, mae rhai awdurdodau lleol yn parhau i ddadlau nad yw'n berthnasol ac y dylid ei hanwybyddu'n llwyr oherwydd ei bod yn ei hanfod yn unochrog. Rhaid i'r Tribiwnlys ystyried yr holl dystiolaeth sydd ger ei fron a phenderfynu pa bwys y dylid ei roi iddi. Bydd ffactorau fel pa mor aml mae'r gweithiwr

proffesiynol wedi gweld plant a phobl ifanc, ble mae wedi'u gweld, pa fath o asesiadau mae wedi'u cynnal a sut y mae wedi triongli ei ganfyddiadau, i gyd yn bwysig – ond ni all y Tribiwnlys anwybyddu'r dystiolaeth.

Bydd tystiolaeth lafar, a gefnogir gan adroddiad ysgrifenedig, bob amser yn bwysicach na thystiolaeth lafar ar ei phen ei hun. Mae'r Tribiwnlys yn mynnu bod unrhyw dyst sy'n ymddangos gerbron y Tribiwnlys yn darparu adroddiad neu ddatganiad tyst cyn rhoi tystiolaeth lafar i sicrhau bod y ddau barti'n ymwybodol o achos yr ochr arall cyn gwrandawiad.

Wrth benderfynu pa lefel o ddarpariaeth y dylai plentyn neu berson ifanc ei chael, mae'r Tribiwnlys yn defnyddio'r prawf a sefydlwyd gan gyfraith achos o dan *R v Surrey CC ex parte H 1984 83 LGR 219* y dylai'r ddarpariaeth fod ar lefel briodol i fodloni anghenion y plant a'r bobl ifanc, ac nid y lefel orau sydd ar gael na'r lefel orau un. Ategir hyn gan y geiriad a fabwysiadwyd yn y Cod ADY.

**Mater i'w ystyried: Deilliannau disgwyliedig**

Mae deilliannau'n gysylltiedig â'r DDdY yn y CDU. Fel y'i diffinnir ym mharagraff 23.29 o'r Cod ADY, diffinnir deilliant a fwriedir fel y deilliant y bwriedir ei gyflawni yn sgil cyflwyno'r DDdY honno. Ar sail y diffiniad hwnnw, mae'r deilliannau a fwriedir yn sylfaenol wahanol i'r "Amcanion", fel y'u pennwyd yn flaenorol yn Rhan 3 mewn Datganiad AAA, sef y nodau yr oedd rhieni a gweithwyr proffesiynol am i'r plentyn eu cyflawni.

Fodd bynnag, mae'r geiriad sydd wedi'i gynnwys yn y Cod ADY ynghylch cefnogi rhieni yn cyfeirio at "y deilliannau i'w plentyn anelu atynt" (gweler paragraff 4.35). I berson ifanc, mae cyfeiriadau yn y Cod ADY at eu "deilliannau dymunol" yn ymwneud â'u galluogi i symud tuag at ddyheadau hirdymor (gweler paragraff 17.33).

Dylai'r holl ddeilliannau arfaethedig a nodir mewn CDU gael eu drafftio yn y fath fodd fel ei bod yn bosibl mesur a ydynt wedi'u cyflawni'n llwyddiannus, yn ogystal â bod yn realistig ac yn heriol. Dylent fod yn ddeilliannau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol) (gweler er enghraifft baragraffau 23.31 a 23.32 o'r Cod ADY).

O dan adran 70(2)(d) o Ddeddf ALNET, mae gan y Tribiwnlys awdurdodaeth i benderfynu pa ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu ADY plant a phobl ifanc ac, yn dilyn y Cod ADY, mae'n rhaid ei disgrifio yn Adran 2B.2 mewn CDU. Nid oes hawl benodol i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y Deilliannau a ddisgrifir yn adran 2B.1 mewn CDU. Mae cyfraith achosion yn Lloegr, *S v Cyngor Swydd Gaerwrangon (SEN) [2017] UKUT 0092 (AAC),* wedi sefydlu y gall Tribiwnlys yr Haen Gyntaf ar gyfer AAAA (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd) ddefnyddio ei bwerau i wneud

diwygiadau canlyniadol i ddiwygio'r Deilliannau sydd wedi'u pennu mewn Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal, lle mae darpariaeth wahanol neu ychwanegol yn cael ei gorchymyn ar ôl apêl. Nid oes cadarnhad eto y bydd y dull hwn yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru.

7.9 **<u>Cynnwys CDU – Adran 2C DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG</u>**

<u>Y Canllawiau a’r Gyfraith Berthnasol</u>

***Adran 21(3) o Ddeddf ALNET***

*Os yw corff GIG yn hysbysu corff sy’n cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc fod triniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol yn debygol o fod o fudd o ran ymdrin ag anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc, rhaid i’r corff sy’n cynnal y cynllun ddisgrifio’r driniaeth neu’r gwasanaeth yn y cynllun, gan bennu bod y driniaeth neu’r gwasanaeth yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i gael ei sicrhau gan y corff GIG.*

DS: er bod modd apelio yn erbyn Adran 2C o CDU (yn rhannol – bydd yr hawl i apelio ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Neddf ALNET yn cynnwys y DDdY yn Adran 2C) nid oes dyletswydd ar gorff y GIG i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ddiwygiedig oni bai ei fod yn cytuno i wneud hynny: ***adran 21 (9) o Ddeddf ALNET:***

*Os yw Tribiwnlys Addysg Cymru yn gorchymyn i gynllun datblygu unigol gael ei ddiwygio mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir o dan yr adran hon fel darpariaeth y mae corff GIG i’w sicrhau, nid yw’n ofynnol i gorff GIG sicrhau’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ddiwygiedig oni bai ei fod yn cytuno i wneud hynny.*

**Paragraffau 21.21 i 21.39 y Cod ADY** ynghylch DDdY sydd i'w sicrhau gan gyrff y GIG a gweler **paragraff 21.34**

*Os nodir triniaeth neu wasanaeth perthnasol ac os bydd corff y GIG yn hysbysu’r corff sy’n cynnal y CDU yn ei gylch, <u>rhaid</u> i’r corff sy’n cynnal y cynllun wedyn ddisgrifio’r driniaeth neu’r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai DDdY i’w sicrhau gan gorff y GIG ydyw. Os bydd corff y GIG o’r farn y dylid darparu’r driniaeth neu’r gwasanaeth drwy’r Gymraeg ac os bydd wedi hysbysu’r corff sy’n cynnal y CDU o hynny, <u>rhaid</u> i’r corff sy’n cynnal y cynllun nodi yn y CDU mai DDdY i’w chyflwyno drwy’r Gymraeg yw’r driniaeth neu’r gwasanaeth.*

<u>Tystiolaeth</u>

Dibynnir ar dystiolaeth gan weithwyr proffesiynol y GIG fel mater o drefn mewn apeliadau, yn fwyaf cyffredin gan Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Therapyddion Galwedigaethol a Ffisiotherapyddion.

Fel arfer, darperir adroddiad asesu gan weithiwr proffesiynol ar ôl asesiad cychwynnol yn dilyn atgyfeiriad gan feddyg teulu. Cyflwynir yr wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd fel arfer mewn llythyrau. Mae'r dystiolaeth yn gryno ac yn canolbwyntio ar ddisgrifio anghenion meddygol y plant a'r bobl ifanc. Nid oes fawr o

fanylion am y ddarpariaeth yn aml, a bydd yn dibynnu ar y model darparu y gellir ei gyflwyno â’r adnoddau sydd ar gael yn y corff GIG Lleol.

Mae arwyddion o gamddealltwriaeth mewn rhai awdurdodau lleol ynghylch a ddylid cynnwys darpariaeth y cytunwyd iddi gael ei darparu gan weithwyr proffesiynol y GIG yn Adran 2B mewn CDU yn ogystal ag Adran 2C.

*Os yw therapi iaith a lleferydd a therapi galwedigaethol i gael ei ddarparu gan y GIG, yna nid oes rhaid i ni fel awdurdod lleol ei gynnwys yn Adran 2B mewn CDU.*

*Yr hyfforddiant a ddarparwyd i Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg oedd pe bai'r corff GIG yn cytuno, yna byddai'r ddarpariaeth yn cael ei nodi yn Adran 2C yn unig.*

Mewn apeliadau lle mae anghydfod ynghylch darpariaeth y GIG, mae rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) yn allweddol i'r perthnasoedd cadarnhaol sy'n cael eu meithrin rhwng corff y GIG ac awdurdod lleol.

Nid oes barn gyson gan awdurdodau lleol ynghylch sut y bydd anghydfodau rhyngddynt hwy a chyrff y GIG yn cael eu datrys. Mae awdurdodaeth y Tribiwnlys wedi'i chyfyngu i ystyried a phenderfynu ar anghydfodau rhwng apelydd a'r awdurdod lleol fel ymatebydd.

*Wrth ddatblygu'r system ADY, ni thrafododd neb beth fyddai'n digwydd pe bai tîm lleol y GIG yn gwrthod neu'n methu â gwneud y ddarpariaeth a argymhellwyd gan weithiwr proffesiynol nad yw'n rhan o'r GIG. Nid ydym yn darparu cymorth therapiwtig ar gyfer anghenion integreiddio synhwyraidd yn y tîm GIG hwn.*

<u>Materion i’w hystyried</u>

**Mater i’w ystyried: A yw DDdY y mae un o gyrff y GIG yn cytuno i'w darparu i'w phennu yn Adran 2B yn ogystal ag Adran 2C mewn CDU**

Mae cyfraith achosion wedi cadarnhau'n gadarn bod rhai therapïau sydd fel arfer yn cael eu darparu gan wasanaethau'r GIG yn darparu addysg neu hyfforddiant i blant

a phobl ifanc ac felly'n DDdY. Mae'r rhain yn cynnwys therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol.

Mae cyfraith achosion berthnasol yn cynnwys *X ac X - ac - (1) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a (2) Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd [2004] EWHC 2140*, *[2004] EWHC 2140.* Dylid trin therapi lleferydd ac iaith fel darpariaeth addysgol oni bai bod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny.

Nid oes unrhyw beth a fabwysiadir gan Lywodraeth Cymru yng ngeiriad y fframwaith deddfwriaethol ADY yn awgrymu symud o'r sefyllfa hon.

Nid oes dim sy'n cyfateb yn Neddf ALNET i adran 21(5) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 sy'n darparu bod darpariaeth gofal iechyd sy'n addysgu neu'n hyfforddi plentyn neu berson ifanc i'w thrin fel darpariaeth addysgol arbennig (yn hytrach na darpariaeth gofal iechyd).

Os yw'r dystiolaeth gerbron y Tribiwnlys yn dangos bod y ddarpariaeth yn amlwg yn DDdY, gorchmynnir felly i'w phennu yn adran 2B. Nid oes unrhyw beth yn Neddf ALNET i awgrymu bod cyflwyno DDdY gan un o gyrff y GIG, fel y'i cofnodir yn adran 2C CDU, yn golygu y dylid tynnu DDdY o Adran 2B. Os bydd un o gyrff y GIG wedyn yn cytuno i gyflwyno DDdY a'i bod hefyd yn cael ei nodi yn Adran 2C, o dan adran 21(5) o Ddeddf ALNET mae'r ddyletswydd i sicrhau'r ddarpariaeth honno'n symud i gorff y GIG. Os na all neu os na fydd y corff GIG wedyn yn sicrhau'r DDdY honno, bydd wedyn yn dychwelyd i fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod lleol.

Nid rôl y Tribiwnlys yw ystyried a phenderfynu ar anghydfodau rhwng awdurdod lleol a chorff GIG.

7.10 **Cynnwys CDU – Lleoliad addysgol Adran 2A**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

Mae dwy ddarpariaeth yn Neddf ALNET yn nodi'r amgylchiadau lle gellir enwi ysgol benodol: adran 14(6) ac adran 48(4). Mae adran 14(6) yn ddyletswydd (amodol) ac mae adran 48(4) yn bŵer.

***Adran 14(6) o Ddeddf ALNET – Dyletswydd Awdurdod Lleol i enwi ysgol, sefydliad addysg bellach neu leoliad addysgol penodol – yn berthnasol os na ellir diwallu anghenion rhesymol y plentyn neu berson ifanc fel arall***

*(6) Os na ellir diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol oni bai bod awdurdod lleol hefyd yn sicrhau darpariaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (7), rhaid i'r awdurdod gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth arall honno yn y cynllun.*

*(7) Y mathau o ddarpariaeth yw -*

*(a) lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall;*

*(b) bwyd a llety.*

*(8) O ran y ddyletswydd yn is-adran (6) -*

*(a) nid yw'n gymwys i le mewn ysgol benodol neu sefydliad arall nad yw'n ysgol a gynhelir yng Nghymru os nad yw'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol neu'r sefydliad arall yn cydsynio;*

*(b) mae'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn adrannau 55, 56(3) a 59. (DS)*

DS: byddai'r ddyletswydd yn adran 14 (6) yn ymestyn i ysgol annibynnol yn amodol ar adran 55 sy'n cynnwys amodau ynghylch pryd y gellir enwi ysgol annibynnol neu sefydliad addysg bellach.

***Adran 48(4) o Ddeddf ALNET - pŵer awdurdod lleol i enwi ysgol a gynhelir mewn CDU***

*(4) Ni chaiff awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir mewn cynllun datblygu unigol at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn ond—*

*(a) os yw'r awdurdod wedi ei fodloni ei bod, er lles y plentyn, yn ofynnol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn ei gynllun gael ei gwneud yn yr ysgol, a*

*(b) os yw'n briodol darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn yn yr ysgol.*

**Y Cod ADY – yn nodi mai prin yw'r amgylchiadau lle gellir defnyddio'r adrannau hyn**

***Adran 2D: Lle mewn ysgol a enwir, sefydliad arall a enwir, neu ddarpariaeth bwyd a llety***

***(Mae modd apelio i'r Tribiwnlys ynghylch yr adran hon).***

*23.48. Dim ond o dan amgylchiadau penodol iawn y* ***dylid*** *defnyddio'r adran hon.*

*23.58 ... pan gaiff ysgol ei henwi yn yr is-adran hon, dylai'r awdurdod lleol amlinellu oddi tano pam mae'n fodlon ei bod yn ofynnol, er lles y plentyn, i'r DDdY a nodir yn ei CDU gael ei gwneud yn yr ysgol honno, a pham mae'n briodol darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn yn yr ysgol honno.*

*23.59 Mae'r ystyriaethau canlynol yn debygol o fod yn berthnasol wrth ystyried a ddylid enwi ysgol at y diben hwn (hwyrach y bydd ystyriaethau perthnasol eraill, yn dibynnu ar yr amgylchiadau):*
*(a) a yw nodweddion penodol yr ysgol yn ei gwneud yn arbennig o dda am sicrhau'r DDdY sy'n ofynnol – gallai hyn gynnwys amrywiaeth o faterion gwahanol, gan gynnwys nodweddion ffisegol yr ysgol;*
*(b) a oes gan yr ysgol aelodau o staff ag arbenigedd neu hyfforddiant arbenigol;*
*(c) a oes gan yr ysgol yr arbenigedd gofynnol mewn darpariaeth lai cyffredin, fel nam ar y golwg neu'r clyw;*
*(d) byddai'n afresymol i ysgol fwy lleol ddarparu DDdY y plentyn.*

Mae adran 14(6) ac adran 48(4) yn ymdrin â'r amgylchiadau lle gellir enwi ysgol benodol. Mae adran 51 yn ymdrin â'r ddyletswydd gyffredinol i sicrhau addysg mewn ysgol brif ffrwd.

***Adran 51 o Ddeddf ALNET - Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir***

*(1) Rhaid i awdurdod lleol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon mewn perthynas â phlentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac a ddylai gael ei addysgu mewn ysgol sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau ym mharagraffau (a) i (c) o is-adran (2) yn gymwys.*

*(2) Yr amgylchiadau yw -*

> *(a) bod addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;*
>
> *(b) bod addysgu'r plentyn mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol er lles pennaf y plentyn ac yn gydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;*
>
> *(c) bod rhiant y plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir.*

*(3) Ni chaiff awdurdod lleol ddibynnu ar yr eithriad yn is-adran (2)(a) oni bai nad oes unrhyw gamau rhesymol y gallai'r awdurdod eu cymryd i atal yr anghydnawsedd.*

*(4) Pan fo rhiant plentyn yn dymuno i'w blentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir, nid yw is-adran (2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir.*

***Adran 9 o Ddeddf Addysg 1996***

***Disgyblion i'w haddysgu yn unol â dymuniadau'r rhieni.***

*Wrth arfer neu gyflawni eu holl bwerau a dyletswyddau priodol o dan y Deddfau Addysg, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r awdurdodau lleol yn ystyried yr egwyddor gyffredinol bod disgyblion i gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni, cyn belled ag y bo hynny'n gydnaws â darparu cyfarwyddyd a hyfforddiant effeithiol ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.*

**Cyfraith achosion ar gymhwyso adran 9 o Ddeddf Addysg 1996**

Mae adran 9 yn ddyletswydd i ystyried, nid yn ddyletswydd lwyr, a gadarnhawyd yn *WH v Warrington BC [2014] EWCA Civ 398.* Cadarnhawyd parhau i gymhwyso adran 9 o dan Ddeddf ALNET yn ddiweddar yn achos *Cyngor Caerdydd v Mr & Mrs X: UA2024 001734 HSW [2025] UKUT 068(AAC).*

**Rhyngweithio rhwng Deddf ALNET a'r broses dderbyn arferol o dan y Cod Derbyn**

**Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998** yw'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i dderbyniadau arferol i'r ysgol ac mae ganddi god statudol – y Cod Derbyniadau Ysgol 2013 – sy'n nodi'r meini prawf manwl.

O dan system Deddf Addysg 1996, nid oedd plant ag AAA a oedd â datganiad yn mynd drwy'r broses dderbyn arferol, gyda Deddf Addysg 1996 yn cynnwys ei darpariaethau ei hun ynghylch dewis rhieni. Nid oes darpariaeth gyfatebol o dan Ddeddf ALNET, hynny yw, nid yw'r darpariaethau sy'n ymdrin â hawl rhieni i fynegi dewis yn Atodlen 27(3)(3) i Ddeddf Addysg 1996 wedi cael eu hailadrodd yn Neddf ALNET.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion yn cynnwys datgymhwysiad cyfyngedig ar gyfer plant sydd â CDU. Mae Adran 98(7) o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion yn datgymhwyso'r rhan o'r Ddeddf hon sy'n ymwneud â derbyn plant sydd â CDU, ond dim ond os yw ysgol wedi cael ei henwi o dan adran 48 o Ddeddf ALNET:

***Adran 98(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion:***

*Yn ddarostyngedig i is-adrannau (8) a (9), nid oes unrhyw beth yn y Bennod hon yn gymwys mewn perthynas â phlant y mae [Cynlluniau AIG yn cael eu cynnal o dan adran 37 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 neu gynlluniau datblygu unigol yn cael eu cynnal o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 y mae adran 48 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddynt (dyletswydd i dderbyn plant i ysgolion a gynhelir)].*

Fodd bynnag, mae'r canllawiau anstatudol ar y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 o ganlyniad i weithredu Deddf ALNET) hefyd yn ei gwneud yn glir y bydd yr hawl i apelio - hyd yn oed os na enwir ysgol - i'r Tribiwnlys:

*Pan enwir ysgol mewn cynllun datblygu unigol at ddiben sicrhau derbyn, nid yw'r darpariaethau derbyn yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gymwys yn gyffredinol. Os yw plentyn neu riant y plentyn yn dymuno apelio yn erbyn yr ysgol a enwir yng nghynllun datblygu unigol y plentyn at y diben o sicrhau derbyn, neu'r ffaith nad oes ysgol wedi'i henwi felly, mae'r apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru.*

**Ond** os nad yw ysgol wedi cael ei henwi o dan adran 48 (ysgolion a gynhelir), yna mae'n ymddangos y bydd y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion a'r meini prawf derbyn arferol yng nghod derbyn yr Ysgol yn gymwys. Mae hyn yn golygu y gall rhieni plant ag ADY fynegi dewis o dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (Adran 86) – hynny yw, yn achos CDU nad yw'n enwi ysgol o dan Adran 48, bydd y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion yn gymwys.

*(1) Bydd awdurdod lleol yn gwneud trefniadau i alluogi rhiant plentyn yn ardal yr awdurdod -*

> *(a) i fynegi dewis o ran yr ysgol lle mae'n dymuno i addysg gael ei darparu i'w blentyn wrth arfer swyddogaethau'r awdurdod, a*
>
> *(b) i roi rhesymau dros ei ddewis.*

*(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3) … bydd yr awdurdod derbyn ar gyfer ysgol a gynhelir yn cydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegir yn unol â threfniadau a wnaed o dan is-adran (1).*

*(3) Nid yw'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (2) yn gymwys -*

> *(a) pe byddai cydymffurfio â'r dewis a ffafrir yn niweidio'r ddarpariaeth addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon;*
>
> *(b) …*
>
> *(c) os yw'r trefniadau derbyn i'r ysgol a ffefrir -*
>
> > *(i) yn seiliedig yn llwyr ar ddewis yn ôl gallu a dawn, a*

*(ii) yn seiliedig felly gyda'r nod o ddim ond derbyn disgyblion â gallu uchel neu ddoniau,*

*a byddai cydymffurfio â'r dewis a ffefrir yn anghydnaws â dewis o dan y trefniadau hynny.*

*... (7) Pan fydd y trefniadau i dderbyn disgyblion i ysgol a gynhelir yn darparu ar gyfer ceisiadau i gael eu derbyn gael eu gwneud i gorff llywodraethu (neu i berson sy'n gweithredu ar ei ran) yn yr ysgol, ystyrir y bydd rhiant sy'n gwneud cais o'r fath at ddibenion yr adran hon wedi mynegi ffafriaeth dros yr ysgol honno yn unol â'r trefniadau a wnaed o dan is-adran (1).*

Pan fydd lleoliad ysgol yn cael ei ddyrannu o dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, dim ond yn unol â diwrnodau dyrannu cenedlaethol y bydd cynigion yn cael eu hanfon at riant/rhieni. Yn 2025, y rhain oedd 3 Mawrth 2025 ar gyfer lleoliadau ysgolion uwchradd ac 16 Ebrill 2025 ar gyfer dosbarthiadau derbyn/ysgolion cynradd.

**Cod ADY ar enwi Ysgol neu sefydliad arall**

O dan y Cod ADY, sy'n cynnwys ffurf safonol ar CDU, rhennir Adran 2D o'r CDU yn is-adrannau.

**Adran 2D.1** *Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn iddi*

**Adran 2D.2** *Enw unrhyw ysgol benodol neu sefydliad penodol arall y mae'n rhaid sicrhau lle ynddo ar gyfer plentyn neu berson ifanc*

**Adran 2D.3** *Darpariaeth bwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau*

Mae modd apelio yn erbyn pob un ohonynt

<u>Tystiolaeth</u>

Y mater unigol mwyaf a ddwynir i'r Tribiwnlys wneud penderfyniad yn ei gylch yw lleoliad addysgol plant a phobl ifanc. O'r 84 apêl a gofrestrwyd yn erbyn Adran 2D, mae'r ffocws bron yn gyfan gwbl wedi bod ar anghydfodau ynghylch lleoliadau ysgol yn hytrach na sefydliadau addysg bellach.

Mae ymholiadau gan riant/rhieni ynghylch a yw eu hawdurdodau lleol wedi gwneud penderfyniad y gellir apelio yn ei erbyn i'r Tribiwnlys yn canolbwyntio ar anghydfodau lleoliadau addysgol. Yr achosion hyn yw'r rhai lle mae'n fwyaf tebygol nad yw awdurdod lleol wedi cyhoeddi penderfyniad terfynol ysgrifenedig nac wedi darparu gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys (mae rhagor o fanylion am hyn isod yn yr adran sy'n delio â phenderfyniadau awdurdodau lleol).

*Ffoniodd swyddog fy awdurdod lleol fi i ddweud bod xx wedi cael cynnig lle yn xxx [ysgol arbennig leol]. Dywedodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig, ond dri mis yn ddiweddarach, rydym yn dal i aros, er fy mod wedi holi sawl tro. Dydw i ddim yn gwybod beth i'w wneud.*

Mewn apeliadau lle mae'n well gan rieni i blentyn gael ei leoli mewn Ysgol Arbennig a Gynhelir, mae'n ymddangos yn aml nad oes gan yr awdurdod lleol bolisi clir ar gyfer derbyn plant. Yn flaenorol, o dan adran 316(2) o Ddeddf Addysg 1996, os na chafodd datganiad ei gynnal ar gyfer plentyn o dan Adran 324, rhaid i'r plentyn gael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd yn amodol ar eithriadau cyfyngedig. Felly, yr awdurdod lleol oedd yn rheoli'r holl dderbyniadau. Fodd bynnag, nid oes gofyniad cyfatebol o dan Ddeddf ALNET i blentyn sy'n mynychu Ysgol Arbennig a Gynhelir gael Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a Gynhelir gan awdurdod lleol.

*Fel awdurdod lleol, dyma [lleoliad addysgol] yw'r maes mwyaf dryslyd yn y gyfraith newydd. Pan eglurodd y person o Lywodraeth Cymru bethau i ni, pan oeddem yn paratoi i ddechrau trosglwyddo plant o Ddatganiadau, mewn gwirionedd ni ymdriniwyd â'r sefyllfa lle nad oedd rhiant yn cytuno â dewis yr ysgol neu'r awdurdod lleol.*

*Gwneir penderfyniadau ynghylch pa ysgol y bydd plentyn yn ei mynychu drwy broses arferol o wneud cais am le mewn ysgol nawr. Mae'n cael ei drafod mewn adolygiad o'r CDU, a gall rhieni egluro ble maent wedi gwneud cais amdano a pham, ond nid yw hynny'n golygu mai dyna'r hyn a ddyrannir iddynt. Nid yw plant ag ADY yn cael blaenoriaeth mwyach.*

*Pan fydd rhiant yn anhapus ynghylch pa ysgol y bydd ei blentyn yn ei mynychu, gall apelio drwy broses apelio arferol yr awdurdod lleol - hynny yw, hyd yn oed os oes ganddo CDU yr awdurdod lleol. Nid oes ots a ydym ni [ysgol] yn gyfrifol am y CDU neu'r awdurdod lleol.*

*Mater i weithwyr proffesiynol yw penderfynu a ddylai plentyn fynd i ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Dywed y gyfraith y dylai pob plentyn fynd i ysgol brif ffrwd felly dyna a wnawn. Wrth gwrs, gall rhieni ddweud wrthym beth yw eu barn, ond yn y pen draw mae'n dibynnu ar y lleoedd sydd ar gael.*

Yn y rhan fwyaf o apeliadau, mae'r penderfyniad gwreiddiol a wnaed gan yr awdurdod lleol wedi methu ag ystyried ffactorau a godwyd gan riant/rhieni a allai wneud lleoliad addysgol arfaethedig yr awdurdod lleol yn amhriodol. Mae ffactorau cyffredin yn cynnwys hanes o wahardd yn anghyfreithlon/anffurfiol, amserlenni rhan-amser ar waith am gyfnod estynedig, a Chynlluniau Cymorth Bugeiliol yn cael eu defnyddio i ganiatáu absenoldeb.

Mae tystiolaeth gan rai ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig yn dangos nad yw eu hawdurdod lleol yn ymgynghori â nhw fel mater o drefn cyn iddynt gael eu henwi fel lleoliad pan na fyddant yn cael eu henwi'n benodol yn adran 2D mewn CDU. Dyrennir lle i'r disgybl heb wybodaeth am ADY. Dim ond pan fydd ysgol brif ffrwd flaenorol y disgybl yn anfon copi o'r CDU ymlaen y mae CADY yn dod yn ymwybodol bod disgybl y nodwyd bod ganddo ADY.

Pan fydd awdurdod lleol yn ymgynghori â nhw, mae llawer o ysgolion wedi dweud wrth y Tribiwnlys mewn apeliadau mai anaml y byddant yn cael CDU disgybl na thystiolaeth ategol fel rhan o'r broses hon. Gall hyn olygu ei bod yn anodd iawn cynllunio a dyrannu adnoddau. Yn yr awdurdodau lleol hynny lle mae polisi wedi arwain at lawer o blant a phobl ifanc a oedd â Datganiad AAA bellach yn cael CDU a gynhelir gan yr ysgol, sy'n cynnwys rhai disgyblion mewn ysgolion arbennig, mae'r trefniadau ar gyfer ariannu darpariaeth ADY yn aneglur. Er nad oes gan y Tribiwnlys awdurdodaeth i benderfynu ar anghydfodau ynghylch ysgol, coleg neu awdurdod lleol ddim yn gwneud y ddarpariaeth a ddisgrifir mewn CDU, canlyniad anghydfodau o'r fath yw y gofynnir yn aml am newid mewn lleoliad addysgol. Mae hynny'n fater i'r Tribiwnlys.

*Ers i'm mab gael CDU, mae'r cymorth y mae'n ei gael yn yr ysgol wedi lleihau. Nid yw'r fenyw lleferydd ac iaith na'r ffisiotherapydd yn ymweld ag ef mwyach. Nid yw bellach yn cael yr un lefel o gefnogaeth gan Mrs xxx. Mae'r athro wedi dweud na all gael yr arian gan yr awdurdod lleol mwyach, yr oedd yn gallu ei gael pan oedd ganddo Ddatganiad. Nid yw'n gwneud cynnydd ac mae'n anhapus iawn. Mae'n pigo ei groen. Yn gwrthod mynd i'r ysgol. Dyna pam rydym yn gofyn iddo fynd i ysgol arbennig nawr.*

Mae ceisiadau i blant a phobl ifanc gael eu haddysgu mewn ysgol nas cynhelir neu sefydliad addysg bellach yn gymharol brin mewn apeliadau. Ychydig iawn o Ysgolion Arbennig Annibynnol neu Golegau Arbennig Annibynnol sydd yng Nghymru. Mae unrhyw achosion sy'n bodoli yn tueddu i ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol penodol lle mae Ysgol Annibynnol (ysgol arbennig neu ysgol heb broses

ddethol) sy'n gallu cynnig dosbarthiadau bach a chymarebau staff i ddisgyblion uchel.

*Ni allai ein mab ymdopi â bod mewn dosbarth o 30 o blant ac roedd yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn cael ei addysgu yn y coridor. Mae'n rhy beniog i ysgol arbennig. Yn Ysgol xxx mae'n cael sylw'r athro a dim ond yn ei rannu â 15 o blant eraill.*

Mae'r Tribiwnlys wedi penderfynu ar ddau achos lle gofynnwyd i blant a phobl ifanc gael eu lleoli mewn Ysgol neu Goleg Annibynnol yn Lloegr. Yn y ddau achos, gorchmynnwyd i'r rhain fod yn lleoliadau preswyl.

<u>Materion i'w hystyried</u>

Dyma'r maes sy'n peri'r anhawster mwyaf o bell ffordd o ran cymhwyso Deddf ALNET wrth i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau ac mewn apeliadau – nid yn unig i awdurdodau lleol, teuluoedd ac ysgolion/colegau ond hefyd i'r Tribiwnlys. Mae'r gyfraith sydd i'w chymhwyso yn heriol yn ddeallusol.

**Mater i'w ystyried: Derbyn plant a phobl ifanc sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol i ysgol neu sefydliad addysg bellach – amseriad penderfyniad wrth bontio rhwng cyfnodau addysg**

**Ysgolion**

Y dystiolaeth o apeliadau yw bod rhiant/rhieni, awdurdodau lleol ac ysgolion wedi'u drysu gan y ffaith bod derbyniadau i ysgolion ar gyfer y disgyblion hynny a oedd â Datganiad AAA yn flaenorol wedi newid yn sylweddol. O dan y Fframwaith AAA, adran 324(4) o Ddeddf Addysg 1996, cofnodwyd derbyn disgybl i fath o ysgol a/neu enw ysgol benodol yn Rhan 4 pan gyhoeddwyd y datganiad am y tro cyntaf yn dilyn asesiad statudol. Ymdriniwyd ag unrhyw newidiadau dilynol i leoliad addysgol drwy'r Adolygiad Blynyddol neu'r broses o bontio rhwng cyfnodau. O dan y broses o drosglwyddo rhwng cyfnodau, byddai angen i'r awdurdod lleol cyfrifol wneud penderfyniad ar y lleoliad ysgol newydd ar gyfer unrhyw blentyn gyda datganiad sy'n symud o un cam addysg i'r nesaf (er enghraifft, ysgol gynradd i uwchradd) erbyn dyddiad cau statudol, sef 15 Chwefror (hynny yw, 15 Chwefror cyn y mis Medi pan fydd y disgybl yn trosglwyddo i'r lleoliad ysgol newydd am y tro cyntaf). Arweiniodd penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol erbyn y dyddiad cau hwn at sbarduno hawl i apelio i'r Tribiwnlys os nad oedd rhieni'n cytuno â'r lleoliad ysgol a enwir. Roedd hon yn broses gwbl ar wahân i'r broses derbyniadau cyffredinol i ysgol a oedd ar waith ar gyfer plant eraill.

O dan Ddeddf ALNET, disgwylir bellach y bydd plant a phobl ifanc ag ADY, hyd yn oed os yw eu CDU yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol, yn gwneud cais am leoliad ysgol neu sefydliad addysg bellach drwy'r broses derbyniadau cyffredinol a ddilynir gan bawb, oni bai bod ysgol a gynhelir eisoes wedi'i henwi yn y CDU o dan adran 48, sef yr eithriad yn hytrach na'r rheol.

Mae'n ymddangos nad oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, os nad pob un ohonynt, broses ar gyfer nodi neu wneud penderfyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â CDU a gynhelir ganddynt fel rhan o'u proses derbyniadau cyffredinol. Os yw awdurdod lleol wedi enwi lleoliad addysgol mewn gwirionedd yn adran 2D mewn CDU a bod hynny'n cael ei newid, mae penderfyniad ffurfiol yn debygol o gael ei gyhoeddi, sy'n sbarduno'r hawl i apelio. Fodd bynnag, nid dim ond yn y sefyllfa honno y mae'r hawl i apelio yn berthnasol. Mae hawl i apelio ynghylch Adran 2D p'un a yw ysgol wedi'i henwi ai peidio. Mae'r ffaith nad oes gofyniad i enwi lleoliad addysgol fel mater o drefn yn Adran 2D yn golygu nad yw llawer o rieni neu blant a phobl ifanc yn cael gwybod bod ganddynt hawl i apelio i'r Tribiwnlys ynghylch lleoliad.

Bellach, nid oes gofyniad i awdurdod lleol wneud penderfyniad am newid lleoliad addysgol erbyn dyddiad cau penodol ac ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY er mwyn paratoi ar gyfer trosglwyddo'r plant a'r bobl ifanc rhwng gwahanol gyfnodau addysg. Amlinellir trefniadau pontio ym Mhennod 27 y Cod ADY *Cynllunio ar gyfer proses bontio a'i chefnogi*; gweler Pennod 23 hefyd, paragraffau 23.85 i 23.89. Nid oes unrhyw ddyletswyddau na gofynion amser penodol o ran pryd y mae'n rhaid cynnal adolygiad pontio a phenderfyniad a wneir gan awdurdod lleol ynghylch lleoliad addysgol. Nid oes modd apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn adran 3C o CDU lle gellir nodi trefniadau pontio.

Er ei bod yn ofynnol i blant â Datganiad AAA fod yn flaenoriaeth ar gyfer polisïau derbyn i ysgolion, nid yw hyn yn wir mwyach am blant a phobl ifanc sydd â CDU oni bai ei fod yn cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol, a dim ond os enwir ysgol benodol a gynhelir yn Adran 2D.1 o'r CDU y mae'n rhaid i'r plant a phobl ifanc gael eu derbyn.

Cyhoeddwyd arweiniad pellach am y newidiadau i'r gyfraith ar dderbyniadau ym mis Tachwedd 2021 (mae detholiad ohonynt yn ymddangos uchod). Mae hwn yn anstatudol. Mae Cod Apelau Derbyn i Ysgolion ar wahân (Tachwedd 2023) ond dim ond un cyfeiriad at CDUau sydd ynddo, sef cyfeiriad at y ddyletswydd ar ysgolion prif ffrwd i dderbyn disgybl lle mae'r ysgol wedi'i henwi yn y CDU. Nid yw'r cod derbyn i ysgolion ei hun (*Y cod derbyn i ysgolion 2013*) wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys plant a phobl ifanc ag ADY ar hyn o bryd. O ystyried y gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddeddfwriaeth flaenorol o dan Ddeddf Addysg 1996 a Deddf ALNET, ni ellir tybio y gall cyfeiriadau at blant ag AAA sydd â datganiadau gael eu disodli'n syml gan blant ag ADY sydd â CDU, sy'n gadael sefyllfa plant ag ADY, mewn sawl agwedd, yn aneglur. Nid yw *Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024* a ddaeth i rym ar 28 Mehefin 2024 yn cynnwys gofynion penodol ar gyfer cydlynu derbyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.

Nid oes gan y Tribiwnlys unrhyw awdurdodaeth i wneud penderfyniadau ynghylch derbyn plant a phobl ifanc i ysgol neu sefydliad addysg bellach o dan drefniadau derbyn cyffredinol. Dim ond ar sail y ddarpariaeth benodol o dan Ddeddf ALNET y gall ysgol wneud penderfyniad a gorchymyn – o dan adrannau 14(6) a 48(4) yn benodol.

**Sefydliadau Addysg Bellach**

Mae mynediad i sefydliad addysg bellach bob amser wedi bod drwy'r broses dderbyn ar gyfer Coleg Addysg Bellach penodol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau penodol i sefydliadau addysg bellach ar dderbyn pobl ifanc ag ADY, er bod rhywfaint o gyngor cyffredinol wedi'i greu yn ystod y cyfnod pontio, ac mae'r wefan *Braenaru ADY* yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y Colegau Addysg Bellach a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Gall y Tribiwnlys enwi sefydliad addysg bellach yn Adran 2D CDU o dan adran 14 o Ddeddf ALNET. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd yn adran 14(6) sy'n sail i enwi sefydliad addysg bellach, yn ddarostyngedig i adran 14(8) sy'n gofyn am gydsyniad gan ysgol neu sefydliad arall nad yw'n ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd “rhaid” derbyn plant yn adran 48(2) hefyd yn berthnasol i dderbyn plant i ysgolion a gynhelir yn unig. Nid oes dyletswydd gyfatebol sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliad addysg bellach dderbyn person ifanc os yw awdurdod lleol, neu'r Tribiwnlys mewn apêl, yn ei enwi mewn CDU.

Os caiff ei enwi, mae gan sefydliad addysg bellach ddyletswydd o dan adran 47(5) i gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y cynllun i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir ynddo, ond nid yw hon yn ddyletswydd ddiamod. O ystyried y safon is hon, bydd y Tribiwnlys yn gofyn am gadarnhad bod lle wedi'i gynnig i'r person ifanc cyn y gall y Tribiwnlys ystyried ei enwi mewn CDU mewn apêl.

Nid oes dealltwriaeth dda o'r rhyngweithio rhwng y broses dderbyn gyffredinol i ysgol neu sefydliad addysg bellach a'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys pan fydd gan blentyn neu berson ifanc CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. Nid yw'n ofynnol eich bod wedi mynd drwy'r broses apeliadau derbyn cyn i apêl gael ei chofrestru gyda'r Tribiwnlys. Fodd bynnag, os nad yw rhiant/rhieni neu blant a phobl ifanc ag ADY yn cael gwybod bod penderfyniad wedi'i wneud a bod ganddynt hawl i apelio i'r Tribiwnlys, yn annibynnol ar unrhyw broses apeliadau derbyn, yna mae’n fater mynediad at gyfiawnder i Lywodraeth Cymru.

**Mater i’w ystyried: Dim gofyniad i enwi ysgol neu sefydliad addysgol mewn CDU**

O dan ddatganiad AAA, roedd yn ofynnol i awdurdod lleol enwi math o ysgol a, lle bo'n bosibl, pennu ysgol benodol yn ôl ei henw yn Rhan 4. Nid yw'r rhan fwyaf o gynlluniau datblygu unigol, p'un a ydynt yn cael eu cynnal gan ysgol, coleg neu awdurdod lleol, yn enwi ysgol benodol yn Adran 2D. Nodir hyn yn glir yn y Cod ADY. Os nad oes anghydfod ynghylch lleoliad addysgol, nid yw hyn yn broblem. Pan fydd anghydfod, a bod hawl i apelio wedi'i sbarduno, unwaith y daw'r achos gerbron y

Tribiwnlys, penderfynir ar y mater a gellir enwi ysgol neu goleg os gofynnir am hynny.

Nid yw'n glir beth oedd bwriad Llywodraeth Cymru o ran peidio â mynnu bod lleoliad addysgol (neu hyd yn oed fath o leoliad, fel o dan y system AAA) i gael ei enwi mewn CDU. Drwy beidio â gwneud hynny, mae'n creu ansicrwydd ynghylch pwy sydd â'r ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod DDdY yn cael ei gwneud. Mae hyn yn arbennig o wir lle nad yw plant a phobl ifanc yn mynychu ysgol neu goleg, ond eu bod wedi'u cofrestru gydag ysgol neu goleg penodol. Nid yw gorfodi DDdY o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys ond mae methiant cynyddol ysgol i wneud darpariaeth wrth wraidd apeliadau a wneir i'r Tribiwnlys, yn gofyn am newid lleoliad addysgol.

**Mater i'w ystyried: Enwi ysgol neu sefydliad arall o dan adran 14(6) a (7) o Ddeddf ALNET**

Pan fydd Awdurdod Lleol, a'r Tribiwnlys ar apêl, yn ystyried defnyddio'r ddyletswydd o dan adran 14(6), y prawf i'w ddefnyddio yw "*rhesymoldeb*". Mae hwn yn gysyniad cyfreithiol sydd wedi hen ennill ei blwyf. Yr hyn sy'n hanfodol i'r broses o wneud penderfyniadau yw ystyried y DDdY sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc ac a ellir/a fydd yn cael ei chyflwyno mewn lleoliad addysgol penodol. Nid yw'n brawf sy'n seiliedig ar yr ADY a nodwyd ar gyfer plant a phobl ifanc yn unig.

Ychydig iawn o ganllawiau pellach sydd yn y Cod ADY ar sut i gymhwyso'r prawf rhesymoldeb o dan adran 14(6) o Ddeddf ALNET. Yn benodol, nid yw cwmpas ffactorau fel addasrwydd neu briodoldeb lleoliad a chostau cysylltiedig yn cael sylw. Fel tribiwnlys arbenigol, bydd TAC yn gwneud penderfyniad mewn achosion o'r fath ar sail y dystiolaeth a ddarperir gan bartïon.

Mae'r prawf o dan adran 14(6) yn sylfaenol wahanol i'r prawf i'w ddefnyddio wrth ystyried lleoliad ysgol a gynhelir o dan adran 48. Nid yw'n glir a oes dyletswydd i gymhwyso adran 14 ac yna ystyried y pŵer o dan adran 48 wrth benderfynu ar leoliad addysgol pan fydd rhiant/rhieni neu blant a phobl ifanc yn gofyn am ysgol a gynhelir.

Unwaith y bydd y prawf o dan adran 14(6) o Ddeddf ALNET wedi'i fodloni, o dan adran 14(7)(a) o Ddeddf ALNET, gellir enwi ysgol benodol neu sefydliad penodol arall yn adran 2D.2 mewn CDU. Nid yw'r defnydd o'r gair *"ysgol"* yn cael ei ddiffinio yn Neddf ALNET ac felly gall gynnwys enwi Ysgol Annibynnol (arbennig neu heb broses ddethol). Hefyd, nid yw'r term *"sefydliad arall"* wedi'i ddiffinio o dan Ddeddf ALNET. Wrth ddarllen y Cod ADY, y bwriad yw y byddai adran 14(6) yn cynnwys ystyried sefydliad addysg bellach pan ofynnir iddo gael ei enwi mewn CDU. Byddai

hyn hefyd yn cynnwys Coleg Addysg Bellach Annibynnol. Nid yw'n glir a oes modd ystyried a disgrifio interniaethau, cynlluniau prentisiaeth neu gyrsiau a ddarperir gan ddarparwyr hyfforddiant eraill mewn CDU hefyd.

O dan adran 14(8) o Ddeddf ALNET, rhaid i ysgol neu sefydliad arall nad yw'n ysgol a gynhelir yng Nghymru gydsynio i gael ei henwi yn y CDU. Mae adran 55 o Ddeddf ALNET yn datgan efallai na fydd awdurdod lleol yn cytuno i addysgu plant a phobl ifanc mewn Ysgol Annibynnol neu Sefydliad Addysgol Annibynnol oni bai ei fod wedi'i gynnwys yn y gofrestr berthnasol. Mae rhestr o ysgolion yng Nghymru ar gael ar y dudalen [Cyfeiriadau a rhifau ffôn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion | LLYW.CYMRU]

**Mater i'w ystyried: Bwyd a Llety**

Mae adran 14(7)(b) o Ddeddf ALNET yn caniatáu i drefniadau ar gyfer bwyd a llety gael eu pennu yn Adran 2D.3 mewn CDU. Nid yw'r hyn sy'n gyfystyr â bwyd a llety wedi'i ddiffinio yn Neddf ALNET. Mae'r Cod ADY, 23.68 – 23.73 yn nodi nifer o bwyntiau i'w hystyried, gan gynnwys lle *mae tystiolaeth yn dangos mai dim ond mewn lleoliad preswyl y gellir darparu elfen hanfodol o addysg a hyfforddiant y plentyn neu'r person ifanc (er enghraifft, mae angen rhaglen gyson ar y dysgwr yn ystod ac ar ôl oriau ysgol na ellir ei darparu gan ysgol ddibreswyl ynghyd â chymorth gan asiantaethau eraill).*

O dan y Gyfraith AAA, roedd dau o amgylchiadau lle gellid lleoli plant a phobl ifanc mewn ysgol breswyl a lle byddai'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ariannu lleoliad o'r fath:

1. Lle nodwyd bod angen addysgu plant a phobl ifanc y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol fel darpariaeth addysgol arbennig i ddiwallu eu hanghenion.

2. Lle byddai'r pellter teithio i'r ysgol agosaf (fel arall) yn golygu bod y lleoliad yn anaddas. (*MM & DM –v- Harrow [2010] UKUT 395 (AAC*): "*Nid yw cludiant yn angen addysgol. Fodd bynnag, rhaid ei ystyried. Ni all lleoliad fod yn briodol os na all yr awdurdod ddarparu cludiant addas i'r ysgol. ...*)".

Datblygwyd cyfraith achosion helaeth o dan Ddeddf Addysg 1996 sy'n diffinio ymhellach pryd y mae angen lleoliad addysgol preswyl (er enghraifft *S v Sendist ac arall [2007] EWHC 1139 (Gwein)* ac *R (ar gais Tottman) v Cyngor Sir Swydd Hertford [2003] EWHC 1725 Gwein.* Byddai'r geiriad a fabwysiadwyd ym mharagraff 23.68 y Cod ADY yn awgrymu bod hyn yn dal yn berthnasol.

Pan nodir bod angen rhaglen gyson o addysg neu hyfforddiant ar blant a phobl ifanc yn ystod a'r tu allan i'r diwrnod ysgol neu goleg arferol (y cyfeirir ato'n aml yn

Saesneg fel “Waking Day Curriculum”), dylid disgrifio hyn fel DDdY yn Adran 2B CDU. Bydd tystiolaeth a fyddai'n cefnogi canfyddiad o'r fath fel arfer yn dod gan Seicolegydd Addysg neu weithwyr proffesiynol eraill fel Therapydd Lleferydd ac Iaith. Mae'n aml yn ofynnol pan na all plant a phobl ifanc gyffredinoli’r hyn maent yn ei ddysgu yn yr ysgol neu'r coleg y tu allan i'r amgylchedd addysgu rheoledig, fel gartref neu yn eu cymuned. Mae arnynt angen rhaglenni addysgol “y tu allan i bedair cornel yr ysgol” i gael eu dysgu i wneud hynny.

**Mater i’w ystyried: Dyletswydd i dderbyn a phrofi ar gyfer enwi ysgol a gynhelir o dan adran 48 o Ddeddf ALNET**

Dim ond pan fydd rhiant/rhieni neu blant a phobl ifanc yn gofyn am leoliad mewn Ysgol a Gynhelir y gellir defnyddio'r prawf hwn. Ceir y diffiniad o Ysgol a Gynhelir yn adran 99 o Ddeddf ALNET.

Daethpwyd o hyd i'r prawf cyfatebol ar gyfer enwi ysgol a gynhelir mewn datganiad AAA o dan atodlen 27(3)(3) o Ddeddf Addysg 1996. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol enwi’r ysgol a gynhelir a ffefrir gan y rhiant/rhieni lle gofynnwyd am un oni bai bod tystiolaeth y gellid dibynnu ar eithriad. Y rhain oedd;

*(a) bod yr ysgol yn anaddas i oedran, gallu neu ddoniau'r plentyn neu i'w anghenion addysgol arbennig, neu*

*(b) byddai presenoldeb y plentyn yn yr ysgol yn anghydnaws â’r addysg effeithlon a ddarperir i blant y byddai’n cael ei addysgu â nhw neu o ran defnyddio adnoddau’n effeithlon.*

Mae'r prawf hwn yn rhannol adlewyrchu'r prawf o dan adran 86 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion. Fodd bynnag, gan na fydd y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion yn gymwys os enwir ysgol a gynhelir o dan adran 48, nid yw'n glir a yw'r amodau hyn yn parhau i fod yn berthnasol i blentyn ag ADY pan geisir lleoliad mewn ysgol a gynhelir.

Roedd corff o gyfraith achosion yn diffinio gwahanol elfennau'r prawf cyfreithiol hwn ymhellach.

O dan adran 48 o Ddeddf ALNET, nid yw **dewis rhieni** bellach yn hawl ddiffiniol. Yn hytrach, rhaid cynnal prawf newydd i weld a yw *lles y plentyn* yn ei gwneud yn ofynnol i'r DDdY a nodir yn y CDU gael ei gwneud yn yr ysgol. Er bod y Cod ADY yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar gymhwyso'r prawf, mae'n agored i ddehongliad cyfreithiol pellach gan ei fod yn cyflwyno cysyniad newydd yng nghyd-destun lleoliadau ysgol. Mae'r prawf hwn yn wahanol i brawf “lles pennaf” sydd i'w gael

mewn cyfreithiau eraill sy'n berthnasol i blentyn, er enghraifft o dan Ddeddf Plant 1989.

Yr ail brawf cyfreithiol i'w ddefnyddio dan adran 48 yw prawf briodoldeb. Mae sail gyfreithiol glir i hyn mewn cyfraith addysg a chyfraith achosion, yn enwedig yr hyn sy'n berthnasol i gymhwyso adran 9 o Ddeddf Addysg 1996, sydd wedi'i ddiffinio fel prawf ehangach nag un o addasrwydd. (Gweler er enghraifft *MW v Cyngor Bwrdeistref Halton (SEN) [2010] UKUT 34 (AAC)* ar y pwyntiau i'w hystyried wrth benderfynu a yw lleoliad yn “briodol”).

Nid yw'n glir sut nac a yw awdurdodau lleol yn defnyddio adran 48 o Ddeddf ALNET wrth wneud penderfyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a/neu i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn ystyried profion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion o dan eu trefniadau derbyn cyffredinol.

Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn ansicr ynghylch sut y dylid defnyddio prawf adran 48 pan fydd anghydfod ynghylch dau leoliad ysgol a gynigir – fel arfer un gan riant/rhieni neu blant a phobl ifanc ac un gan yr awdurdod lleol.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan adran 6 o Ddeddf ALNET (y ddyletswydd i roi sylw i farn, dymuniadau a theimladau rhiant/rhieni neu blant a phobl ifanc). Bydd adran 48 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol fod yn fodlon bod yr ysgolion sy'n cael eu hystyried yn briodol. Yna, mae prawf lles y plentyn. Fodd bynnag, os yw'r ddwy ysgol yn briodol ac yn bodloni prawf lles y plentyn, nid yw'n glir ar y cam hwnnw i ba raddau y mae defnyddio adnoddau’r awdurdod lleol yn aneffeithlon, fel y cyfeirir ato yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion ond nid yn Neddf ALNET - yn dal yn berthnasol wrth ystyried dau leoliad arfaethedig.

Cafwyd un achos yn yr Uwch Dribiwnlys am Ddeddf ALNET yn mynd i'r afael â mater lleoli, sef *Cyngor Caerdydd v Mr a Mrs X: [2025] UKUT 68 (AAC) [2025].* Rhoddir sylwadau pellach ar hyn isod, ond ni roddwyd sylw i'r cwestiwn o berthnasedd parhaus defnyddio adnoddau’n aneffeithlon (neu fel arall) fel y cyfryw gan achos Caerdydd.

Felly, mae elfennau o hyd o sut y dylai'r ddyletswydd o dan adran 14(6) a phŵer adran 48(4) gael eu hystyried a'u cymhwyso gan awdurdod lleol, neu'r Tribiwnlys ar apêl nad ydynt wedi cael eu hegluro.

O ran y rhyngweithio rhwng y ddyletswydd hon ac adran 9 o Ddeddf Addysg 1996, gweler isod.

**Mater i’w ystyried: Dyletswydd i enwi ysgol brif ffrwd a gynhelir, adran 51 o Ddeddf ALNET**

Os bydd rhiant/rhieni neu blant a phobl ifanc yn mynegi dymuniad i fynychu ysgol brif ffrwd a gynhelir, ond bod yr awdurdod lleol wedi nodi lleoliad ysgol arbennig, yna rhaid cymhwyso adran 51. Roedd *M H v Sendist a LB o Hounslow [2004] EWCA Civ* yn canolbwyntio ar y rhyngweithio rhwng Atodlen 27(3)(3) ac adran 316 o Ddeddf Addysg 1996 ac yn dod i'r casgliad, fel arfer, yr awdurdod lleol a'r Tribiwnlys sy'n rhoi ei hun yn ei sefyllfa, ddylai arfer ei bŵer i enwi ysgol brif ffrwd benodol yn Rhan 4 o'r datganiad. Mae'n ymddangos bod cyfraith achosion o'r fath, a sefydlwyd o dan fframwaith cyfreithiol AAA, yn dal yn berthnasol wrth ystyried barn rhiant/rhieni neu blant a phobl ifanc. Y dull i'w ddefnyddio fyddai ystyried y cais am ysgol benodol o dan adan 48 yn gyntaf, sef y sefyllfa ficro. Yna, os nad yw'r ysgol honno i'w henwi o dan adran 48, yna mae adran 51 i'w hystyried, y sefyllfa facro.

Mae prawf cyfreithiol Deddf ALNET wedi cael ychwanegiadau sylweddol o'r ddarpariaeth gyfatebol o dan Ddeddf Addysg 1996. Yn flaenorol, o dan adran 316, roedd dyletswydd i addysgu plentyn mewn ysgol brif ffrwd, os oedd hyn yn gydnaws â dymuniadau'r rhieni, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig (yn ei hanfod, oni bai bod tystiolaeth y byddai presenoldeb y plentyn yn anghydnaws ag addysg plant eraill ac na ellid cymryd unrhyw gamau rhesymol i fynd i'r afael â'r anghydnawsedd hwn). Hyd yn oed pan oedd gweithwyr proffesiynol yn cytuno y byddai plentyn yn cael ei addysgu orau mewn ysgol arbennig, os nad oedd rhieni eisiau hynny, yna byddai'r plentyn yn cael ei leoli mewn ysgol brif ffrwd oni bai bod un o'r eithriadau cyfyngedig yn berthnasol a bod y trothwy cyfreithiol ar gyfer yr eithriadau hynny yn uchel.

Mae'r prawf o dan adran 51(2)(a) o Ddeddf ALNET, ynghyd â (3), yr un fath i ddechrau â'r prawf o dan ddeddfwriaeth flaenorol gyda'r un eithriadau. Er mwyn i'r eithriadau fod yn gymwys, bydd yn ofynnol cael tystiolaeth o anghydnawsedd lleoliad y plentyn yn yr ysgol â'r addysg i ddisgyblion eraill ac yna ystyried unrhyw gamau rhesymol y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r anghydnawsedd hwnnw. Mae cyfraith achosion, yn benodol *Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Bury v SU [2010] UKUT 406 (AAC)* wedi nodi'r prawf hwn yn fanwl, ac mae'n ymddangos ei fod yn dal yn berthnasol. Yn benodol, mae achos Bury yn ei gwneud yn glir nad yw addasrwydd yn rhan o'r eithriadau i'r hawl i addysg brif ffrwd.

Fodd bynnag, cyflwynir prawf ychwanegol newydd yn adran 51(2)(b) o Ddeddf ALNET. Mae'n cyfeirio at yr angen i sefydlu *"lles pennaf"* y plentyn ac yna sicrhau bod y lleoliad yn gydnaws â darparu addysg effeithlon i blant eraill. Nid ymhelaethir ymhellach ar gymhwyso'r prawf "lles pennaf" yn y Cod ADY, ac nid yw'n dweud llawer amdano yn y paragraffau perthnasol (Pennod 23, paragraffau 23.97 – 23.104). Efallai y byddai'n ddefnyddiol darparu eglurhad pellach ynghylch yr hyn y bwriedir i'r prawf hwn ei gwmpasu.

Yn olaf, mae adran 51(2)(c) yn caniatáu i riant/rhieni optio allan o ysgol brif ffrwd fel math o ysgol os ydynt yn dymuno i'w plentyn gael ei addysgu mewn ysgol arbennig neu Uned Cyfeirio Disgyblion er enghraifft. Unwaith y bydd rhiant/rhieni wedi mynegi dymuniad o'r fath, ni all yr awdurdod lleol ddadlau unrhyw un o gymalau'r prawf adran 51 yn groes hynny yw, bod yn rhaid addysgu plentyn yn y brif ffrwd (hynny yw, mae'r hawl i addysg brif ffrwd yn hawl rhiant, nid rhwymedigaeth, rhywbeth y mae'n ymddangos bod rhai awdurdodau lleol yn ei gamddeall).

Mae'r hawl i addysg brif ffrwd yn Neddf ALNET yn ymwneud â phlant mewn ysgolion prif ffrwd. Nid yw'n gymwys i sefydliadau addysg bellach. Nid oes gan bobl ifanc yr hawl i fynychu sefydliad addysg bellach prif ffrwd.

**Mater i'w ystyried: Cymhwyso adran 9 o Ddeddf Addysg 1996**

Mae'r gofyniad dan adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 yn ddyletswydd gyffredinol ar awdurdod lleol i addysgu disgybl yn unol â dymuniadau rhieni. Dim ond i blant a phobl ifanc sy'n ddisgyblion mewn ysgol y mae'n gymwys, gan gynnwys y rhai y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol hyd at 19 oed. Nid yw'n ddyletswydd benodol ar ddisgyblion ag AAA neu ADY. Ni chafodd yr adran hon o Ddeddf Addysg 1996 ei diddymu pan gyflwynwyd Deddf ALNET ac felly mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei hystyried a rhaid ei hystyried mewn apeliadau ADY a wneir i'r Tribiwnlys.

Yn achos <u>Caerdydd</u>, roedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf wedi gwneud camgymeriad cyfreithiol drwy gymhwyso Adran 9, yn ei hanfod, fel pe bai Atodlen 27 i Ddeddf Addysg 1996 yn dal yn berthnasol, ac nid yw hynny'n wir; yr hyn y dylai'r Tribiwnlys fod wedi'i wneud oedd canolbwyntio ei ddadansoddiad, yn gyntaf, ar adran 48 i weld a oedd yr amodau i'r Adran honno wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae achos <u>Caerdydd</u> yn ei gwneud yn glir bod Adran 9 yn parhau i fod ar waith yng Nghymru.

Felly, mae cyfraith achosion a ddatblygwyd o dan y fframwaith AAA yn dal yn berthnasol mewn achosion TAC, ynghyd â'r rhybudd a nodwyd gan achos Caerdydd bod yn rhaid rhoi Adran 48 ar waith yn gyntaf.

Yn <u>*CM v LB Bexley [2011] UKUT 215 (AAC)),*</u> nid oedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf mewn apêl ar gyfer ysgol a gynhelir wedi ystyried Adran 9; yn yr Uwch Dribiwnlys, daethpwyd i'r casgliad y dylid ail-wrando'r achos a chymhwyso adran 9. "*Fodd bynnag, rhaid cyflawni'r ymarfer penodol ac ar wahân yn adran 9 o hyd mewn achosion o'r fath. Mae hynny'n ymarfer dewisol eithaf eang, lle mae dewis y fam (ac yn benodol y rhesymau dros y dewis hwnnw: yn unol â Sedley LJ yn <u>C v Cyngor Swydd Buckingham a'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig [1999] EWCA Civ 926)</u> yn berthnasol, ymhlith ystyriaethau eraill*." Er nad yw'r ddyletswydd o dan adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 yn creu hawl i blentyn fynychu lleoliad sy'n cael ei ffafrio gan y rhiant/rhieni, rhaid ystyried hynny pan ofynnir am unrhyw ysgol benodol.

Nid yw'r Cod ADY yn cyfeirio o gwbl at adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 a'i chymhwyso ac eithrio fel troednodiadau (troednodiadau 46,55,56). Gall y Tribiwnlys ar apêl enwi ysgol mewn CDU hyd yn oed pan nad yw ysgol benodol eisoes wedi cael ei henwi o dan adran 48 neu adran 14(6) o Ddeddf ALNET.

7.11 **<u>Cynnwys y CDU i'w ddarparu yn Gymraeg</u>**

Y Canllawiau a’r Gyfraith Berthnasol

***Adran 14 (5) o Ddeddf ALNET***

*Rhaid i awdurdod lleol sy’n llunio neu’n cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc, neu sy’n ailystyried cynllun o dan adran 27—*

*(a) ystyried a ddylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg i’r plentyn neu’r person ifanc, a*

*(b) os yw’n penderfynu y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg, bennu yn y cynllun y dylai gael ei ddarparu yn Gymraeg.*

**Y Cod ADY** - paragraffau 23.39

Mae’n ailadrodd adran 14 (5) ac yn croesgyfeirio at adran 12 (5) (sy'n cynnwys yr un ddyletswydd ar gorff Llywodraethu pan mai Corff Llywodraethu'r Ysgol sy'n cynnal y cynllun), adran 13 (6) (yr un ddyletswydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal) ac adran 40 (6) (yr un ddyletswydd pan fo'r CDU ar gyfer person sy’n cael ei gadw’n gaeth)

<u>Tystiolaeth</u>

Nid oes unrhyw achosion wedi’u cofrestru gyda'r Tribiwnlys lle cafwyd dadl am anghydfod ynghylch darpariaeth i'w darparu yn Gymraeg mewn gwrandawiad terfynol. Pan godwyd mater o'r fath wrth gofrestru'r apêl, roedd wedi'i ddatrys yn llwyddiannus drwy gytundeb cyn y gwrandawiad terfynol.

Mewn un achos, cytunodd y partïon y dylai plentyn fynychu ysgol arbennig. Methodd yr awdurdod lleol â nodi ysgol uwchradd arbennig a allai ddarparu addysg yn newis iaith y plentyn, sef Cymraeg. Cynigiodd yr awdurdod lleol ei fod yn mynychu ysgol cyfrwng Saesneg gyda chefnogaeth Cynorthwyydd Cymorth Dysgu sy'n siarad Cymraeg. Gwrthododd y Tribiwnlys y cynnig hwnnw, ac roedd yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddod o hyd i leoliad addas.

Mewn dau achos, roedd tystiolaeth lafar gan therapyddion iaith a lleferydd y GIG yn codi'r mater, pe bai darpariaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg a'i chofnodi yn y CDU, yna roedd diffyg therapyddion sy'n siarad Cymraeg i gyflawni’r ddarpariaeth honno. Er bod yr awdurdod lleol a'r rhiant/rhieni yn y ddau achos wedi dod i gytundeb y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg, mae a all neu a fydd yn cael ei darparu yn gwestiwn sydd y tu allan i awdurdodaeth y Tribiwnlys.

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: Adnoddau i sicrhau bod DDdY ar gael yn Gymraeg.** Yn gyntaf, bydd apeliadau sy'n ymwneud â chyflwyno DDdY yn Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Tribiwnlys benderfynu ar unrhyw faterion sydd heb eu datrys sy'n ymwneud â manyleb y ddarpariaeth, fel hyd ac amlder y ddarpariaeth, pwy ddylai ei chyflwyno a sut. Dim ond wedyn y bydd y Tribiwnlys yn ystyried a fydd yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg.

O ystyried cryfder ymrwymiad awdurdodau lleol a chyrff y GIG i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ni ragwelir y bydd gofyn i'r Tribiwnlys benderfynu ar fwy nag isafswm nifer o achosion ynghylch y mater hwn.

Y mater canolog o ran cyflwyno'r ddarpariaeth yn Gymraeg yw'r athrawon a'r gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg a'r ysgolion arbenigol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

7.12 **Plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ond yn cael eu haddysgu yn Lloegr**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 55 o Ddeddf ALNET - Amodau sy'n gymwys i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgolion annibynnol***
*…*

*(2) Ni chaiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon i sicrhau bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei addysgu mewn sefydliad addysgol annibynnol yn Lloegr oni bai -*
- *(a) bod y sefydliad wedi ei gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr (a gedwir o dan adran 95 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25) ("Deddf 2008")), a*
- *(b) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni y gall y sefydliad wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yng nghynllun datblygu unigol y plentyn neu'r person ifanc.*

***Adran 56 o Ddeddf ALNET - Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol***

*(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr ("y rhestr") at ddiben is-adran (3).*

*(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r rhestr, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd*

*(3) Dim ond os yw sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr wedi ei gynnwys yn y rhestr y caiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon i sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn y sefydliad hwnnw, yn ddarostyngedig i unrhyw esemptiadau rhagnodedig.*
*…*

***Adran 59 o Ddeddf ALNET - Darpariaeth ddysgu ychwanegol y tu allan i Gymru a Lloegr***
*Caiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon i wneud trefniadau i blentyn neu berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol fynychu sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr, ond dim ond os yw'r sefydliad wedi ei drefnu i wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yng nghynllun datblygu unigol y plentyn neu'r person ifanc.*

Tystiolaeth

Mae'r Tribiwnlys wedi penderfynu ar ddau achos lle'r oedd yr ysgolion o ddewis y rhieni yn ysgolion arbennig annibynnol yn Lloegr. Mewn un achos, byddai'r pellter teithio yn golygu bod angen lleoliad preswyl ar y plentyn. Yn yr achos arall, canfu'r Tribiwnlys fod angen addysgu'r plentyn y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol a gorchmynnwyd lleoliad preswyl.

Mewn un achos, dadleuodd yr awdurdod lleol y gallai lleoliad diwrnod mewn ysgol arbennig a gynhelir ddiwallu anghenion. Mewn un arall, cynigiodd yr awdurdod lleol becyn addysg ac eithrio mewn ysgol.

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: Cyfrifoldeb dros gynnal a chyllido CDU**

Os yw plant a phobl ifanc yn byw yng Nghymru ond yn cael eu haddysgu mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr, mae problem bosibl o ran y cyfrifoldeb dros gynnal ac ariannu'r CDU. Os yw'r awdurdod lleol yn cynnal y CDU bydd dyletswydd arno i sicrhau'r DDdY. Fodd bynnag, ni all yr awdurdod lleol fynnu bod ysgol neu Goleg yn Lloegr yn cynnal y CDU. Mae is-adran (2) o Adran 65 o Ddeddf ALNET yn rhoi rhywfaint o bwerau cyfyngedig i awdurdod lleol ofyn am wybodaeth neu gymorth arall at ddibenion arfer ei swyddogaethau a fyddai'n cynnwys gan rai sefydliadau addysgol yn Lloegr (ond nid pob un) ond ni fyddai hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i ysgol neu Goleg yn Lloegr gynnal CDU.

**Mater i'w ystyried: Derbyn i ysgol neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr**

Er y gall awdurdod lleol enwi ysgol neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr mewn CDU, ni all wneud hynny heb i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gytuno i hynny ddigwydd. Ar gyfer ysgolion annibynnol neu sefydliadau addysg bellach, rhaid eu cynnwys ar y gofrestr gyhoeddedig o ysgolion a sefydliadau addysg bellach sydd ar gael ar wefan GOV.UK yn Get Information about Schools - GOV.UK.

Os yw ysgol arbennig yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol yn Lloegr, gan nad yw'n dod o dan adran 48 o Ddeddf ALNET, ni ellir cymhwyso'r prawf yn yr adran honno. Yn hytrach, dylid ystyried unrhyw leoliad o dan adran 14(6) o Ddeddf ALNET neu adran 9 o Ddeddf Addysg 1996. Unwaith eto, ni ellir enwi ysgol oni bai ei bod wedi cytuno i dderbyn plentyn neu berson ifanc.

Nid oes darpariaeth benodol yn Neddf ALNET sy'n gosod dyletswydd ar ysgol neu sefydliad addysg bellach yn Lloegr i gyflwyno darpariaeth ADY, hyd yn oed os caiff ei enwi mewn CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. Ni all y plentyn neu'r person ifanc gael Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal gan mai dim ond mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano o dan adran 24 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 y gall awdurdod lleol yn Lloegr gyhoeddi'r rhain.

7.13 **<u>Plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg o dan adran 53 o Ddeddf ALNET - ADY addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS)</u>**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 53 o Ddeddf ALNET - Darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn mannau ac eithrio mewn ysgolion***

*(1) <u>Caiff</u> awdurdod lleol drefnu i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn cynllun datblygu unigol y mae'n ei gynnal ar gyfer plentyn, neu i unrhyw ran o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol honno, gael ei gwneud mewn man ac eithrio mewn ysgol.*

*(2) Ond ni chaiff awdurdod lleol wneud hynny ond os yw wedi ei fodloni y byddai'n <u>amhriodol</u> i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei gwneud mewn ysgol.*

**Y Cod ADY**

Mae **paragraff 18.2** yn cynnwys plant sy'n cael addysg ac eithrio mewn ysgol ar y rhestr o "amgylchiadau arbennig". Mae **paragraffau 18.9 i 18.20** yn ymdrin â phlant sy'n derbyn yr hyn y mae'r Cod yn ei ddisgrifio fel "EOTAS" yn Saesneg (er mai'r acronym cywir sy'n cael ei fabwysiadu gennym yw "EOTIS" (yn unol â'r Barnwr Jacobs yn L*B Camden v KT [2023] UKUT 223 (AAC))*) i adlewyrchu'r iaith yn Neddf ALNET yn hytrach nag fel yr oedd o dan Ddeddf Addysg 1996).

Os oes gan y plentyn CDU a gynhelir gan ysgol, **noda paragraff 18.12**:

*18.12 Os oes gan blentyn neu berson ifanc CDU eisoes cyn i addysg heblaw yn yr ysgol gael ei threfnu, ac os yw'n cael ei gynnal gan ysgol, bydd dyletswydd yr ysgol i gynnal y CDU yn peidio os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig. Os yw hyn yn wir, mae'r awdurdod lleol cyfrifol yn debygol o fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, ac os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, mae'r dyletswyddau i lunio a chynnal CDU yn debygol o fod yn gymwys (gweler Penodau 13, 14 a 17).*

Os oes gan y plentyn neu'r person ifanc CDU a gynhelir gan awdurdod lleol, noda, **paragraffau 18.14 a 18.15**

*18.14 Os oes gan y plentyn neu'r person ifanc eisoes CDU a gynhelir gan awdurdod lleol pan fydd y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn cael ei threfnu, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i gynnal y CDU (oni bai a hyd nes bod unrhyw un o'r amgylchiadau'n codi a fyddai'n golygu bod y ddyletswydd i'w gynnal yn peidio - gweler Pennod 29). Yn aml, byddai'n briodol i'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun oherwydd bod yr amgylchiadau wedi newid.*

*18.15. Dim ond os yw'n fodlon y byddai'n amhriodol i'r DDdY gael ei gwneud mewn ysgol y <u>caiff</u> awdurdod lleol drefnu i'r DDdY a ddisgrifir mewn CDU y mae'n ei gynnal ar gyfer plentyn, neu unrhyw ran o'r DDdY honno, gael ei gwneud mewn man ac eithrio mewn ysgol. Mae hyn yr un mor berthnasol o ran plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, ond pan nad yw'r addysg honno'n cael ei darparu mewn Uned*

*Cyfeirio Disgyblion, mae'n bosibl y bydd yr amgylchiadau sy'n arwain at yr angen am addysg heblaw yn yr ysgol hefyd yn golygu na fyddai'n briodol i DDdY y plentyn gael ei chyflwyno mewn ysgol.*

Mae **paragraffau 18.21 i 18.23** yn sôn am blant y dewisir eu haddysgu gartref:

*18.21 Pan gaiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol neu pan fo'n ymddangos fel arall i awdurdod lleol y gallai plentyn y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n derbyn addysg yn y cartref (ac eithrio plentyn sy'n derbyn gofal), fod ag ADY, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio ac, os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo lunio a chynnal CDU a sicrhau'r DDdY a ddisgrifir yn y cynllun hwnnw (gweler Pennod 13 am ragor o fanylion am y dyletswyddau hyn a'r eithriadau iddynt).*

*18.23. Dylai awdurdod lleol sy'n llunio neu'n adolygu CDU ar gyfer plentyn a addysgir yn y cartref, weithio gyda'r plentyn a rhiant y plentyn i nodi'r DDdY briodol ac yna ei sicrhau. Mae hyn yn cynnwys nodi'r math o DDdY y mae anghenion y plentyn yn galw amdani ac a fydd y rhiant yn gallu ei chyflwyno (naill ai'n uniongyrchol neu drwy drefnu i rywun arall ei chyflwyno).*

Tystiolaeth

Mae'r Tribiwnlys wedi ystyried 16 achos lle mae'r apelydd wedi gofyn i blentyn gael addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS). Mewn achosion eraill lle gofynnwyd am DDdY o'r fath pan gofrestrwyd yr apêl, mae partïon wedi dod i gytundeb ac mae gorchymyn cydsynio wedi'i gyhoeddi sy'n adlewyrchu'r trefniadau addysg ac eithrio mewn ysgol sydd i'w rhoi ar waith.

> *Nid oes gennym ddewis ond gofyn i'n plentyn gael ei addysgu ond nid yn yr ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn dweud y dylai fynychu ysgol gynradd prif ffrwd leol ond ni allwn hyd yn oed ei gael i ymweld â'r ysgol. Mae'r Ysgol yn dweud na all ddiwallu ei anghenion - y dylai fod mewn ysgol arbennig. Mae ganddo CDU ysgol ond nid ydym yn siŵr sut gall hynny fod ac yntau ddim yn mynd yno. Mae wedi bod allan o addysg ers dros 6 mis - mae hynny mor hir i blentyn 5 oed.*
>
> *Mae'r awdurdod lleol wedi dweud mai'r unig ysgol y gall ei chynnig yw'r ysgol uwchradd gyfagos. Roedd ein mab yno am 2 flynedd ac roedd yn cael ei anfon adref yn gynnar bron bob dydd. Rydym wedi dod o hyd i diwtor y mae'n ei hoffi ac sy'n gweithio gydag ef am 4 awr bob wythnos. Nid yw'r awdurdod lleol wedi cynnig dim ac mae'n dweud mai cyfrifoldeb yr Ysgol ydyw.*

Mae camddealltwriaeth o hyd mewn rhai apeliadau ynghylch y gwahaniaeth rhwng addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS) a rhiant yn dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) ar gyfer plentyn.

Pan fydd addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS) yn cael ei nodi fel DDdY, ac felly'n cael ei phennu yn Adran 2B o'r CDU, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am wneud ac ariannu'r ddarpariaeth.

Os bydd rhiant/rhieni yn dewis addysg ddewisol yn y cartref o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, yna fel y nodir yn y Cod ADY (gweler paragraffau 18.21 a 18.23 uchod), mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd o hyd i ystyried a oes gan y plentyn ADY ac a ddylid cynnal CDU ar ei gyfer. Os nad yw rhiant/rhieni yn gallu sicrhau'r DDdY yn y CDU, yna bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried sut y dylid gwneud hyn.

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: Terminoleg**

Mae adran 53 o Ddeddf ALNET yn cyfeirio at DDdY yn cael ei gwneud "ac eithrio mewn ysgol". Mae'r Cod ADY yn defnyddio'r talfyriad EOTAS yn y Saesneg sy'n golygu "addysg heblaw yn yr ysgol" sy'n adlewyrchu geiriad blaenorol y ddyletswydd gyfreithiol o dan adran 319 o Ddeddf Addysg 1996. Byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ynghylch ai'r talfyriad EOTIS (addysg ac eithrio mewn ysgol) yw'r un cywir i'w ddefnyddio.

**Mater i'w ystyried: cwmpas y ddyletswydd**

Dim ond i addysg plentyn hyd at ddiwedd oedran ysgol gorfodol y mae'r prawf cyfreithiol a nodir o dan adran 53 o Ddeddf ALNET yn gymwys. Nid yw'n gymwys i bobl ifanc 16 i 25 oed. Os nad yw person ifanc yn gallu cael mynediad at addysg neu hyfforddiant mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach priodol, nid yw'n glir sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd i sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar gyfer addysg a hyfforddiant i bobl ifanc 16 i 19 oed a dros 19 oed, o dan ***adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000*** (gweler isod), os na all person ifanc fynd i sefydliad addysg bellach neu os nad oes sefydliad addysg bellach wedi cynnig lle iddo. Mae'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau yn dal i fod yn berthnasol (yn rhannol) yng Nghymru.

**Mater i'w ystyried: Addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS) yw'r unig ddewis arall yn lle diffyg darpariaeth arbenigol**

Mae diffyg darpariaeth arbenigol mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach mewn rhai awdurdodau lleol wedi arwain at gynnig addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS) fel yr unig ddewis amgen ymarferol i nifer o blant a phobl ifanc. Yn aml, gallai'r plant a'r bobl ifanc hyn fynychu lleoliad addysgol, ac mae arnynt eisiau gwneud hynny, ond nid yw'r awdurdod lleol yn cynnig unrhyw beth addas, ac nid oes unrhyw beth addas ar gael.

**Mater i'w ystyried: Addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS) fel DDdY**

Nododd cyfraith achosion a ddatblygwyd o dan Ddeddf Addysg 1996, lle'r oedd angen addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), y dylid ei nodi fel darpariaeth addysgol arbennig yn Rhan 3 y Datganiad AAA. O dan adran 53 o Ddeddf ALNET, os bydd angen addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS) ar blant a phobl ifanc, bydd hyn yn cael ei nodi fel DDdY yn Adran 2B mewn CDU ond ni fydd hyn yn enwi darparwr

pecyn tiwtora na gweithgareddau. Mater i'r awdurdod lleol fydd canfod a chomisiynu'r ddarpariaeth.

**Mater i'w ystyried: Addysg ac eithrio mewn ysgol (EOTIS) yn erbyn addysg ddewisol yn y cartref**

Mae dyletswydd ar awdurdod lleol o dan y Cod ADY i sicrhau ei fod yn ystyried sut y mae'r ddarpariaeth mewn CDU yn cael ei darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Nid yw'n glir a fydd unrhyw anghydfod rhwng rhiant/rhieni a'r awdurdod lleol ynghylch sut neu bwy fydd yn darparu DDdY yn cael ei ddatrys.

7.14 **Peidio â chynnal CDU**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 31 o Ddeddf ALNET - Peidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol***

*(5) Pan fo gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach ddyletswydd o dan y Rhan hon i gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc, caiff y corff llywodraethu beidio â chynnal y cynllun os yw'n penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol mwyach.*

*(6) Pan fo gan awdurdod lleol ddyletswydd o dan y Rhan hon i gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc, caiff yr awdurdod beidio â chynnal y cynllun os yw'r awdurdod—*

*(a) yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol mwyach, neu*

*(b) yn achos person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir nac wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, yn penderfynu yn unol â rheoliadau o dan adran 46 nad oes angen cynnal y cynllun mwyach i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant.*

***Deddf Dysgu a Sgiliau 2000***

***Adran 31. Addysg a hyfforddiant i bobl ifanc 16 i 19 oed.***

*(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y darperir cyfleusterau priodol ar gyfer -*

*(a) addysg (ac eithrio addysg uwch) sy'n addas at ofynion personau sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt eto'n 19 oed;*

*(b) hyfforddiant sy'n addas i ofynion personau o'r fath,*

*(c) gweithgaredd amser hamdden wedi'i threfnu sy'n gysylltiedig ag addysg o'r fath, a*

*(d) gweithgaredd amser hamdden wedi'i threfnu sy'n gysylltiedig â hyfforddiant o'r fath.*

*(5) At ddibenion yr adran hon -*

*(a) mae addysg yn cynnwys addysg llawnamser a rhan-amser;*

*(b) mae hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant llawnamser a rhan-amser;*

*(c) mae hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden;*

*(d) addysg uwch yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988.*

***Adran 32 Addysg a hyfforddiant i bobl ifanc dros 19 oed.***

*(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y darperir cyfleusterau rhesymol ar gyfer -*

*(a) addysg (ac eithrio addysg uwch) sy'n addas i ofynion personau sy'n 19 oed,*

*(b) hyfforddiant sy'n addas i ofynion personau o'r fath,*

*(c) gweithgaredd amser hamdden wedi'i threfnu sy'n gysylltiedig ag addysg o'r fath, a*

*(d) gweithgaredd amser hamdden wedi'i threfnu sy'n gysylltiedig â hyfforddiant o'r fath.*

*…*

*(5) At ddibenion yr adran hon -*

*(a) mae addysg yn cynnwys addysg llawnamser a rhan-amser;*

*(b) mae hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant llawnamser a rhan-amser;*

*(c) mae hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden;*

*(d) addysg uwch yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988.*

*…*

Tystiolaeth

Dim ond mewn dau achos y mae'r Tribiwnlys wedi cael apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i beidio â chynnal CDU. Mewn un achos, roedd y person ifanc newydd droi'n 19 oed ac roedd yr awdurdod lleol yn dadlau ei fod eisoes wedi cael dwy flynedd ychwanegol o addysg ers diwedd oedran ysgol gorfodol ac nad oedd yn rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu addysg bellach na hyfforddiant.

*Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod xx wedi cael y 2 flynedd ychwanegol ofynnol o addysg ôl-16 yn ei ysgol arbennig ac felly nid oes rhwymedigaeth arno i gynnal y CDU nac i ariannu lleoliad yng ngholeg xxx [Coleg addysg bellach].*

Cofrestrwyd dau achos ychwanegol gyda'r Tribiwnlys, lle mai penderfyniad cychwynnol yr awdurdod lleol oedd peidio â chynnal CDU. Yn y ddau achos, adolygodd yr awdurdod lleol ei benderfyniad gan ildio'r mater cyn gwrandawiad terfynol. Mewn un achos, aeth y Tribiwnlys ymlaen i orchymyn cais y person ifanc am enwi sefydliad addysg bellach lleol yn Adran 2D.3 o'r CDU.

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: Pryd nad oes angen i awdurdod lleol gynnal CDU mwyach**

Nid yw awdurdodau lleol yn deall yn llawn bod modd cynnal CDU bellach nes bydd person ifanc yn 25 oed. Gellid ymestyn hyn ymhellach i ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fyddant yn troi'n 25 oed o dan adran 34 o Ddeddf ALNET.

Yn aml, mae awdurdodau lleol yn cymharu â'r hawl sydd gan blant a phobl ifanc sy'n datblygu fel arfer *"...i 2 flynedd o addysg ychwanegol nes eu bod yn 18 oed"* fel rheswm dros roi'r gorau i CDU.

Roedd Dogfen Wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2020, o'r enw "*Sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol"* yn datgan:

*"...Polisi Llywodraeth Cymru yw ariannu'r hyd gofynnol yn seiliedig ar allu'r person ifanc i ddatblygu a chyflawni yn erbyn ei ddeilliannau o ran addysg a hyfforddiant. I'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n cael mynediad at ddarpariaeth sy'n arbenigol, bydd yr hyd yn gymharol â hyd y ddarpariaeth sydd ar gael mewn sefydliadau addysg bellach prif ffrwd, hynny yw, dwy flynedd academaidd".*

Cafodd y broses asesu Anableddau ac Anawsterau Dysgu sy'n ofynnol o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ei disodli'n llawn gan y fframwaith ADY ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2024/2025. Mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau a chyllido lleoliadau ôl-16 arbenigol wedi symud o Lywodraeth Cymru i'r awdurdod lleol cyfrifol.

Mae'r Cod ADY ym mharagraff 17.65 yn nodi mai'r man cychwyn yw bod gan berson ifanc hawl i hyd at ddwy flynedd o addysg bellach neu hyfforddiant a'r tu hwnt i hynny gall awdurdod lleol benderfynu bod gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant mewn amgylchiadau penodol. Mae'r fframwaith ar gyfer gwneud hyn wedi'i nodi yn y Rheoliadau, yn benodol Rheoliad 9 ac Atodlen 1. Mae'r Cod ADY yn mynd ymlaen i roi arweiniad ar yr hyn y gallai'r amgylchiadau hyn ei gynnwys, fel lle mae hyd rhaglen astudio addas yn hirach. Os yw'r canlyniad a ddymunir gan y person ifanc yn eithaf cyffredinol, fel ennill sgiliau byw'n annibynnol, ni fyddai cyfnod astudio rhesymol fel arfer yn fwy na dwy flynedd. Mae paragraffau 17.70 – 17.78 y Cod ADY wedyn yn nodi pedwar o amgylchiadau lle gallai fod angen mwy na dwy flynedd o addysg bellach neu hyfforddiant.

Er bod y geiriad yn y Cod ADY yn adlewyrchu'r Rheoliadau ADY ynghylch rhaglenni astudio addas (gweler Rheoliad 9(1), yn benodol ynghylch: rhaglenni astudio addas yn Atodlen 1), y mater i'w ystyried yw bod gennym ddeddfwriaeth ar y naill law yn Neddf ALNET sy'n darparu ar gyfer ymestyn CDU (o bosibl) nes bydd person ifanc yn 25 oed ond, ar y llaw arall, mae gennym y Rheoliadau a'r Cod ADY sy'n ceisio cyfyngu disgwyliadau posibl ar gyfer addysg ôl-16 i 2 flynedd drwy gysylltu hyn â rhaglenni astudio sydd fel arfer yn para am ddwy flynedd yn unig. Byddai eglurhad pellach o sut y bwriedir i'r ddwy agwedd hyn ryngweithio yn ddefnyddiol.

**Mater i'w ystyried: Penderfyniad sefydliad addysg bellach i roi'r gorau i gynnal CDU**

Nid yw'r Tribiwnlys wedi cael unrhyw apeliadau eto lle mae sefydliad addysg bellach wedi penderfynu rhoi'r gorau i gynnal CDU. Byddai nifer o ymholiadau i'r Tribiwnlys yn awgrymu nad oes gan sefydliadau addysg bellach lawer o wybodaeth am sut na phryd y dylid gwneud na chyfleu'r penderfyniad hwn. Nid oes llawer o wybodaeth ynghylch a fyddai'r penderfyniad yn cael ei apelio i'r Tribiwnlys a sut.

7.15 **Plant a phobl ifanc heb alluedd meddyliol**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 70 o Ddeddf ALNET (hawliau o ran apelau) yn cynnwys y canlynol (adran 70 (3)):***

*Caiff plentyn neu riant plentyn wneud cais i Dribiwnlys Addysg Cymru am ddatganiad bod gan y plentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd i ddeall—*
*(a) gwybodaeth y mae rhaid ei rhoi i blentyn neu ddogfennau y mae rhaid eu rhoi i blentyn o dan y Rhan hon, neu*
*(b) yr hyn y mae arfer yr hawliau a roddir i blentyn gan y Rhan hon yn ei olygu.*

Roedd ***adran 83 o Ddeddf ALNET*** yn darparu ar gyfer gwneud Rheoliadau i roi darpariaethau Deddf ALNET ar waith mewn achosion lle nad oes gan riant neu blentyn neu berson ifanc alluedd ar yr adeg berthnasol.

Ymdrinnir â hyn yn y Rheoliadau ADY (Rhan 4). O ran apeliadau Tribiwnlys, mae Rheoliad 41 yn gymwys:

*Pan nad oes gan riant plentyn, neu riant person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac sy'n blentyn, alluedd ar yr adeg berthnasol, neu pan nad oes gan berson ifanc, neu berson sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n berson ifanc, alluedd ar yr adeg berthnasol, caiff ei gynrychiolydd apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru ar ei ran ac mae adrannau 70 a 72 o Ddeddf 2018 i'w dehongli yn unol â hynny.*

Mae **Pennod 30 y Cod ADY** yn ymdrin â "chyfeillion achos" ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd

Mae **Pennod 31** yn ymwneud â defnyddio cynrychiolwyr ac yn nodi darpariaeth berthnasol Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'i Chod Ymarfer, sef y fframwaith ar gyfer penderfynu a oes gan berson y galluedd i wneud penderfyniad penodol ai peidio.

Tystiolaeth

Nid yw'r Tribiwnlys wedi cael cais i wneud penderfyniad ynghylch galluedd meddyliol plant a phobl ifanc mewn apêl, y tu allan i achos sydd eisoes wedi'i gofrestru gyda'r Tribiwnlys.

Mae cyfarwyddiadau rheoli achos a gyhoeddir wrth gofrestru apêl, yn gorchymyn yr awdurdod lleol i gael barn plant a phobl ifanc am y materion a godwyd yn yr apêl. Yn y rhan fwyaf o achosion, ceir y rhain ac nid yw'r naill barti na'r llall yn eu gwrthwynebu.

Mewn achosion lle mae mater wedi'i godi, gan yr awdurdod lleol fel arfer, yna rhaid cynnal gwrandawiad rheoli achos i ystyried y camau nesaf.

> *Mae'r awdurdod lleol yn bryderus nad yw'r farn a fynegir gan riant yn yr apêl yn adlewyrchu barn xxx [person ifanc]. Rydym yn derbyn nad oes gan y person ifanc y galluedd meddyliol i ddwyn yr apêl ei hun, nid oes amheuaeth nad yw'n gallu darllen nac ysgrifennu a bod ei allu gwybyddol yn gyfyngedig. Byddai'r lleoliad coleg y gofynnodd y rhiant amdano yn golygu ei fod yn cael ei addysgu oddi cartref ac nid yw hynny er ei les pennaf.*

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: Pryd y dylid codi cwestiynau ynghylch galluedd meddyliol**

Er bod gan y Tribiwnlys bwerau o dan adran 70(3) o Ddeddf ALNET i benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â galluedd meddyliol sy'n ymwneud â phlentyn, dim ond mewn perthynas â mater penodol sy'n ymwneud â'r apêl y bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud.

Rhaid i'r awdurdod lleol neu weithwyr proffesiynol eraill godi materion sy'n cwestiynu a oes gan blentyn alluedd yn gynnar yn y broses apelio, er mwyn mynd i'r afael â hwy'n briodol cyn gwrandawiad terfynol.

Nid oes gan y Tribiwnlys bŵer penodol o dan adran 70 o Ddeddf ALNET i ystyried a phenderfynu ar alluedd person ifanc.

Y man cychwyn yw bod yn rhaid tybio bob amser bod gan berson ifanc alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau.

**Mater i'w ystyried: Galluedd meddyliol i gofrestru a dwyn apêl yn erbyn galluedd meddyliol i fynegi barn**

Mae p'un a oes gan blentyn alluedd meddyliol i gofrestru a dwyn apêl yn fater o ffaith y mae angen i'r awdurdod lleol ei ateb, ac os oes anghydfod, y Tribiwnlys ar apêl. Bydd yr ateb yn dibynnu ar y dystiolaeth, fel ei oedran ac effaith unrhyw ADY ar ei allu i ddeall y broses apelio.

Rhaid tybio bob amser bod gan berson ifanc y galluedd meddyliol i ddwyn apêl.

Mae gwahaniaeth rhwng plant a phobl ifanc yn gallu deall y broses apelio a gallu cymryd rhan lwyddiannus yn y weinyddiaeth o gymharu â gallu mynegi barn am yr hyn yr hoffent ei weld yn digwydd yn yr achos. Ni fydd gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sy'n apelio i'r Tribiwnlys, oherwydd natur eu ADY, y galluedd i ddwyn – hynny yw, i "gynnal" – apêl oni bai bod rhywun yn gwneud hynny ar eu rhan. Yn aml, nid yw'n hawdd iddynt ddelio â therfynau amser Tribiwnlys a deall y broses gyfreithiol, hyd yn oed pan fydd proses symlach yn cael ei rhoi ar waith. Yn aml, rhiant/rhieni fydd y person mwyaf priodol i ddwyn apêl ar ran plentyn neu berson ifanc, neu i gefnogi plentyn neu berson ifanc i ddwyn apêl. Nid yw'r Tribiwnlys wedi

gweld tystiolaeth mewn apêl gofrestredig a oedd yn dangos bod gwasanaeth cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth effeithiol ar gael i blant a phobl ifanc fel dewis arall yn lle rhiant/rhieni neu aelodau agos o'r teulu.

Anaml iawn y gall plant a phobl ifanc beidio â rhoi eu barn am yr hyn y maent yn dymuno ei weld yn digwydd yn yr apêl. Drwy fabwysiadu technegau cyfathrebu priodol gan bobl sy'n gyfarwydd â'r plant a'r bobl ifanc ac sy’n gyfarwydd iddynt hwy hefyd, gellir mynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau a'u darparu fel tystiolaeth. Nid oes yn rhaid i hyn fod ar lafar. Elfen hanfodol, fodd bynnag, yw hyblygrwydd a hyfforddiant arbenigol eiriolwyr. Ar hyn o bryd nid yw hyn ar gael yn rhwydd nac yn hygyrch i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Os nad oes gan berson ifanc alluedd i ddwyn apêl, mae Rheoliad 41 yn caniatáu i gynrychiolydd apelio ar ei ran.

7.16 **<u>Trosglwyddo’r Ddarpariaeth AAA i Ddeddf ALNET – (o'r Datganiadau AAA a Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy i CDUau)</u>**

<u>Y Canllawiau a’r Gyfraith Berthnasol</u>

**Canllawiau**

**Gweithredu'r Ddeddf ALNET: Canllaw technegol i weithredu'r Ddeddf yn ystod yr ail, y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn o weithredu (2022 – 2025)**

*3.20 Os nad yw plentyn a ddisgrifir ym mharagraff 3.1 wedi symud i'r system ADY erbyn 30 Awst 2025, bydd y plentyn yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2025. Mae hyn yn golygu na fydd yr hen gyfraith yn berthnasol ar 31 Awst 2025 a bydd y gyfraith newydd yn berthnasol ar y dyddiad hwn. Mae'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf ADY ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol o 31 Awst 2025.*

*8.23 Os nad yw plentyn wedi symud i'r system ADY erbyn 30 Awst 2025, mae Gorchymyn Cychwyn 8 yn darparu mesur diogelu i sicrhau bod pob disgybl yn symud i'r system ADY. Byddant yn symud yn awtomatig i'r system ADY ar 31 Awst 2025. Mae'r ddarpariaeth yn golygu y bydd y ddeddfwriaeth ADY, gan gynnwys y Cod ADY, yn berthnasol i'r plentyn ac y bydd Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 yn peidio â bod yn berthnasol i'r plentyn.*

Mae'r canllawiau hyn yn rhestru'r gorchmynion cychwyn ADY sy'n dod â Deddf ALNET i rym.

<u>Tystiolaeth</u>

Mae'r rhan fwyaf o ymholiadau dros y ffôn a dderbynnir gan y Tribiwnlys cyn i achos gael ei gofrestru yn gwestiynau ynghylch a oes gan y rhiant/rhieni neu'r plant a'r bobl ifanc hawl i apelio. Mae llawer yn digwydd pan fydd datganiad AAA plentyn wedi cael ei drosglwyddo i CDU a phan benderfynwyd ei fod bellach yn CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol yn hytrach na'r awdurdod lleol. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni chyhoeddwyd unrhyw benderfyniad ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol, fel rhan o'r broses bontio, sydd wedi nodi'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

> *Rwyf wedi drysu'n llwyr erbyn hyn. Mae fy merch wedi cael Datganiad ers iddi fod yn 6 oed. Mae ganddi Syndrom Down ac mae'n mynychu ysgol arbennig. Erbyn hyn, mae ganddi CDU a anfonwyd atom gan yr ysgol. Mae’n dweud nad yw’r awdurdod lleol ynghlwm â’r mater mwyach ac nad oes modd iddi gael y therapi lleferydd ac iaith unigol roedd y Tribiwnlys wedi gorchymyn yr oedd ei angen arni ychydig flynyddoedd yn ôl. Sut mae apelio?*
>
> *Cefais lythyr yn dweud bod gan fy mab CDU bellach ac mai'r ysgol sy'n gyfrifol amdano. Mae'r CADY yn dweud nad yw bellach yn gallu cael cyllid gan yr awdurdod lleol ar gyfer cymorth 1:1 er ei fod ei angen o hyd. Dim ond Plant*

*sy'n Derbyn Gofal a'r rhai nad ydynt yn mynd i'r ysgol sy'n cael eu hariannu. Tybed a ddylwn i ei dynnu allan o'r ysgol?*

Mae tystiolaeth a ddarperir i'r Tribiwnlys yn dangos bod arfer sefydledig mewn rhai awdurdodau lleol i blant sydd â datganiadau AAA gael eu trosglwyddo'n awtomatig i CDU mewn ysgol, hyd yn oed pan fyddant yn mynychu ysgol arbennig a gynhelir. Yn aml iawn, mae'r CDU yn yr ysgol yn annigonol ac nid yw'n cael ei feintioli, ei gymhwyso na'i bennu'n benodol. Mae llawer o fanyleb y DAA o'r datganiad wedi cael ei ddiystyru wrth ddrafftio'r CDU, er nad oes tystiolaeth wedi'i darparu bod anghenion y plentyn wedi newid.

Wrth gymharu datganiad â CDU, mae gwanhau neu ddileu darpariaeth yn llwyr yn gyffredin iawn. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd plentyn yn cael ei leoli mewn ysgol arbennig boed y CDU yn cael ei gynnal gan ysgol neu awdurdod lleol. Mae cynnwys rhai CDUau yn ymddangos yn druenus o annigonol.

Er mwyn bodloni'r dyddiad cau ar gyfer trosglwyddo datganiad AAA i CDU, mae awdurdodau lleol yn dibynnu ar Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddrafftio CDUau. Nid yw'r awdurdod lleol wedyn yn adolygu'r CDUau.

Materion i'w hystyried

**Mater i'w ystyried: Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Datganiad AAA ar gyfer CDU a gynhelir gan yr Ysgol**

Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy oedd y termau a ddefnyddiwyd o dan y ddeddfwriaeth flaenorol ar gyfer y cymorth a roddir i blant mewn ysgolion ag AAA nad oedd ganddynt Ddatganiad AAA. Mae cyflwyno'r CDUau statudol a gynhelir gan ysgolion yn un o'r prif newidiadau yn Neddf ALNET. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad y plant a oedd ar gynlluniau Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn unig sydd â CDUau a gynhelir gan yr ysgol. Mae tystiolaeth gerbron y Tribiwnlys yn dangos bod plant a oedd â Datganiadau AAA yn flaenorol bellach hefyd yn cael CDUau a gynhelir mewn ysgolion.

Mae anghysondeb ar draws yr awdurdodau lleol pan fydd datganiad yn cael ei drosglwyddo i CDU ynghylch a ddylai fod yn CDU a gynhelir gan ysgol neu CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. Nid yw'r dystiolaeth unigol o anghenion y plentyn a'r ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt wedi cael ei hystyried fel mater o drefn mewn adolygiad, nid yw'r prawf cyfreithiol gofynnol wedi cael ei gymhwyso ac mae polisïau cyffredinol wedi cael eu mabwysiadu mewn rhai awdurdodau lleol.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn dweud wrth ysgolion a rhieni, oni bai bod y plentyn wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, ei fod yn Derbyn Gofal, nad yw'n mynychu'r ysgol, ei fod yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol neu ei fod yn cael ei gadw'n gaeth, na all gynnal CDU neu na fydd yn cynnal CDU. Nid dyma'r dehongliad cywir o'r ddeddfwriaeth.

Nid oes disgwyliad cyson pa ddarpariaeth ddylai fod ar gael i blant a phobl ifanc sy’n datblygu fel arfer mewn ysgol brif ffrwd neu sefydliad addysg bellach, ar wahanol gamau addysg. Nid oes disgwyliad cyson chwaith o ba DDdY ddylai fod ar gael i ddisgyblion a myfyrwyr ag ADY o adnoddau presennol ysgol brif ffrwd neu sefydliad addysg bellach ar wahanol gamau addysg.

Mae gan blant a oedd â datganiad AAA sydd bellach â CDU a gynhelir gan ysgol lai o hawliau cyfreithiol o dan Ddeddf ALNET yn dilyn y cyfnod pontio hwnnw.

**Mater i’w ystyried: Awdurdodau lleol ddim yn dilyn Canllawiau ar gyfer Pontio**

Mae Pennod 7 o'r Canllawiau ar gyfer Pontio yn nodi'r amserlen i blentyn sydd â datganiad AAA symud i drefniadau o dan Ddeddf ALNET. Mae'n ei gwneud yn ofynnol rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU i riant/rhieni neu blentyn. Mae tystiolaeth a gyflwynir i'r Tribiwnlys yn dangos nad yw hysbysiadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn mewn rhai awdurdodau lleol, ac mae plant a phobl ifanc yn cael eu symud yn awtomatig i'r system ADY ar ddiwedd y flwyddyn ysgol berthnasol, heb unrhyw fath o hysbysiad. Os rhoddir Hysbysiad CDU neu Hysbysiad Dim CDU, nid ydynt fel arfer yn esbonio'n ddigonol y penderfyniad a wnaed na'r rhesymau dros y penderfyniad.

O 31 Awst 2025 ymlaen, nid oedd hyn yn broblem pan ddaeth Deddf ALNET i rym yn llawn ac roedd yr holl blant a phobl ifanc nad oeddent wedi pontio o'r fframwaith cyfreithiol AAA yn gwneud hynny'n awtomatig.

7.17 **<u>Plant sy'n Derbyn Gofal</u>**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

| |
|---|
| ***Adran 15 o Ddeddf ALNET - Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal***<br><br>***Termau allweddol***<br><br>*(1) Mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol -*<br><br>*(a) os nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ac os yw'n derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), a*<br><br>*(b) os nad yw'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth.*<br><br>***Adran 19 o Ddeddf ALNET - Dyletswyddau i lunio a chynnal cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal***<br><br>*(1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys os yw awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn wedi penderfynu o dan adran 18 fod gan blentyn sy'n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol.*<br><br>*(2) <u>Rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chynnal</u> cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru.*<br><br>**Y Cod ADY - Pennod 24: Llunio a chynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, a chynnwys yr CDU** |

Tystiolaeth

| |
|---|
| Cofrestrwyd dau achos yn y Tribiwnlys a oedd yn ymwneud â phlentyn sy'n derbyn gofal. Yn y ddau achos, cadwodd y rhiant gyfrifoldeb rhiant a'r rhiant wnaeth ddwyn yr apêl yn erbyn cynnwys CDU a oedd yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol, gan gynnwys lleoliad ysgol. Mewn un achos, cafodd y plentyn ei fabwysiadu yn ystod y broses apelio, a arweiniodd at ddileu'r apêl oherwydd diffyg awdurdodaeth gan nad oedd y rhieni mabwysiadol bellach yn dymuno bwrw ymlaen â'r apêl.<br><br>Nid oes unrhyw apeliadau wedi cael eu dwyn gan weithiwr cymdeithasol fel rhiant corfforaethol ar ran plant a phobl ifanc. |

Materion i’w hystyried

Mae'r materion sydd eisoes wedi'u nodi wrth gymhwyso Deddf ALNET i bob plentyn a pherson ifanc yr un mor gymwys i blant sy'n derbyn gofal.

**Mater i’w ystyried: Cofrestru apeliadau - gan yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol yn erbyn ei hun fel yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal CDU plentyn**

Bu problem ers tro byd, er bod ADY gan lawer o blant sy'n derbyn gofal, ychydig iawn o apeliadau, os o gwbl, fydd yn cael eu dwyn gan y tîm gofal cymdeithasol cyfrifol yn yr awdurdod lleol, yn rhinwedd ei rôl fel rhiant corfforaethol y plentyn, yn erbyn yr awdurdod lleol. Hyd nes y rhoddir sylw i hyn, mae'n annhebygol y bydd yr hawl i apelio yn cael ei arfer yn rhydd.

Oherwydd natur ADY plentyn, yn aml iawn ni fyddai’n gwybod y dylid gwneud apêl. Yn sicr ni fyddai'r ganddo’r gallu i gychwyn apêl.

Os bydd apêl yn cael ei chofrestru, nid oes proses gyfatebol i honno yn y Llysoedd Teulu lle penodir gwarcheidwad plant o CAFCASS yn ystod apêl. Nid oes hawl awtomatig i gyfreithiwr ddarparu cyngor neu gymorth.

Er bod gan ofalwr maeth neu aelod o'r teulu sy'n gofalu am blentyn hawl i apelio i'r Tribiwnlys, yn aml ni fyddant yn gwybod y gallant wneud hyn. Rydym wedi clywed tystiolaeth bod aelodau o'r teulu weithiau wedi teimlo o dan fygythiad ac felly heb herio'r awdurdod lleol, rhag ofn i'r awdurdod lleol gwestiynu’r ffordd maent yn gofalu am y plentyn o ganlyniad i hynny. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae neiniau a theidiau (er enghraifft) yn gofalu am blentyn o dan drefniadau anffurfiol a wneir gyda gofal cymdeithasol. Mater mynediad at gyfiawnder yw hyn.

**Mater i’w ystyried: Gofalwyr maeth yn cofrestru apêl**

Mewn un ymholiad a wnaed i'r Tribiwnlys, dywedwyd wrth ofalwyr maeth na allent gofrestru apêl yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol cyfrifol ynghylch lleoliad ysgol. Roeddent hefyd wedi mynegi pryder y byddai gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol yn “flin” gyda nhw am wneud hynny. Cyfeiriwyd rhieni maeth at wasanaeth cyngor a gwybodaeth nad oedd yn gallu rhoi cyngor priodol.

**Mater i’w ystyried: Gofal mewn cartref plant ac ADY**

Mae'r Tribiwnlys wedi clywed tystiolaeth sy'n ymwneud â phlant a oedd mewn gofal yn flaenorol ynghylch sut na chafodd ADY eu nodi neu na chafodd DDdY ei rhoi ar waith, oherwydd mai’r flaenoriaeth oedd eu trefniadau gofal. Nid yw timau gofal cymdeithasol yn ystyried a oes gan blentyn ADY fel mater o drefn oherwydd bod y ffocws ar faterion o fewn y teulu. Mae problemau ymddygiad yn tueddu i gael eu hystyried o ganlyniad i'w sefyllfa a'u profiadau, yn hytrach nag o ganlyniad i anghenion dysgu ychwanegol sydd heb eu diwallu.

7.18 **Plant a Phobl Ifanc dan Gadwad**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

***Adran 39 – 45 o Ddeddf ALNET***

***s. 39 Ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" a thermau allweddol eraill***

*(1) At ddibenion y drosedd Ddeddf hon -*
*mae i "dechrau'r cyfnod o gadw person yn gaeth" yr ystyr a roddir i "beginning of the detention" gan adran 562J o Ddeddf Addysg 1996;*

*ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" ("detained person") yw plentyn neu berson ifanc -*

*(a) sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw (o fewn yr ystyr a roddir i "detention order" gan adran 562(1A)(a), (2) a (3) o Ddeddf Addysg 1996), a*

*(b) sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr,*

*ac mewn darpariaethau sy'n gymwys pan gaiff person ei ryddhau mae'n cynnwys person a oedd, yn union cyn ei ryddhau, yn berson a oedd yn cael ei gadw'n gaeth;*

*mae i "awdurdod cartref" yr ystyr a roddir i "home authority" gan adran 562J o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56), yn ddarostyngedig i reoliadau o dan is-adran (2);*

*mae i "llety ieuenctid perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant youth accommodation" gan adran 562(1A)(b) o Ddeddf Addysg 1996.*

**Y Cod ADY** Pennod 19: **Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw**

Tystiolaeth

Hyd yma, nid oes achos wedi'i ddwyn i'r Tribiwnlys ar ran plant a phobl ifanc dan gadwad.

Materion i'w hystyried

Mae'r materion a nodwyd wrth gymhwyso Deddf ALNET i bob plentyn a pherson ifanc yn gymwys i'r rheini sy'n cael eu cadw naill ai o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu yn y ddalfa.

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei gadw'n gaeth, rhaid i awdurdod lleol gynnal y CDU.

**Mater i'w ystyried: Cofrestru apeliadau ar gyfer plant a phobl ifanc dan gadwad**

Mae tystiolaeth gan Arolygydd Carchardai EF[5] yn dangos bod ADY gan ganran uchel o blant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y ddalfa o dan y system cyfiawnder troseddol.

Bydd gan y plant a phobl ifanc hynny sy'n cael eu cadw mewn ysbytai/unedau diogel, naill ai'n anffurfiol neu o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ADY bron bob amser oherwydd y symptomau y maent yn eu profi.

Oni bai bod rhiant/rhieni'r plant neu'r bobl ifanc wedi cael gwybod a'u bod yn barod i'w cefnogi i gofrestru apêl gyda'r Tribiwnlys, yna ni fydd penderfyniadau awdurdodau lleol am ADY byth yn cael eu herio'n effeithiol. Mae pwysigrwydd darparu cyngor, cefnogaeth ac eiriolaeth annibynnol a rhagweithiol ar gyfer y grŵp hwn o blant a phobl ifanc yn flaenoriaeth uchel. Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd effeithiol ar weithwyr proffesiynol i ystyried a oes gan blant a phobl ifanc ADY nac i ymgysylltu â chyfrifoldebau'r awdurdod lleol.

[5] Roedd data a gymerwyd o arolwg Arolygydd Carchardai EF o'r holl blant sy'n byw mewn sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau hyfforddi diogel ledled Cymru a Lloegr – "Children in custody 2022–23 **-** An analysis of 12–18-year-olds' perceptions of their experiences in secure training centres and young offender institutions" wedi cofnodi bod gan 30 y cant o'r ymatebwyr anabledd.

7.19 **Penderfyniadau'r awdurdod lleol**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

Mae ***Deddf ALNET*** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud penderfyniadau amrywiol am blant a phobl ifanc sydd ag ADY neu a allai fod ag ADY, a'r penderfyniadau allweddol yw:

***Adran 13*** - dyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol;

***Adran 27*** - dyletswydd i ailystyried cynllun a phenderfynu a ddylid ei ddiwygio ai peidio;

***Adran 28*** - dyletswydd i benderfynu a ddylid cymryd drosodd gynlluniau a gynhelir gan gyrff llywodraethu;

***Adran 32*** - dyletswydd i benderfynu a ddylai corff llywodraethu beidio â chynnal cynllun.

Yn ogystal, yn achos cynllun a gynhelir gan awdurdod lleol, dyletswydd yr awdurdod lleol yw paratoi'r cynllun (***adran 14***) a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol benderfynu ar gynnwys y cynllun, gan gynnwys a ddylid enwi ysgol o dan naill ai ***adran 14 (6)*** neu ***adran 48***.

Mae'r **Cod ADY** hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau ynghylch ADY a rhoi gwybod am y penderfyniadau hynny'n brydlon. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhaid i hyn fod cyn pen 12 wythnos ar ôl tynnu sylw'r awdurdod lleol at y mater. Rhaid i hysbysiad hefyd roi gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau apeliadwy o dan adran 70 o Ddeddf ALNET.

**Y Cod ADY Pennod 22: Cyfarfodydd am ADY a CDUau**

Mae'n nodi canllawiau ac egwyddorion arferion da ar gyfer cyfarfodydd am ADY a CDUau.

Tystiolaeth

Mae tair thema gyffredin i ymholiadau am gyngor i'r Tribiwnlys drwy e-bost a dros y ffôn gan riant/rhieni nad ydynt eto wedi anfon dogfennau sy'n ceisio cofrestru cais am apêl:

(1) Nid yw eu hawdurdod lleol wedi cyhoeddi penderfyniad o gwbl eto ynghylch ADY plentyn neu berson ifanc ac mae'r amserlen ar gyfer gwneud hynny dros 12 wythnos ar ôl gofyn i'r awdurdod lleol wneud hynny. Yn aml, mae misoedd wedi

mynd heibio ers i'r awdurdod lleol gael cais o'r fath gan riant/rhieni neu ysgol yn ymwneud â'r plentyn neu’r person ifanc.

*Gofynnais i'm cydlynydd ADY yn yr awdurdod lleol pryd y byddai penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch fy nghais i'm mab fynychu ysgol arbennig leol gan fod dros 4 mis wedi mynd heibio ers adolygu’r CDU. Yn y pen draw, dywedasant wrthyf, gan fod y CDU yn un ysgol, nad oedd yn rhaid iddynt wneud penderfyniad. Nid oedd unrhyw un wedi dweud hynny wrthyf o'r blaen. Rydym wedi cael ein gadael yn aros. Mae'r CADY yn dweud nad ei benderfyniad ef yw hyn. Ni allaf wneud dim byd erbyn hyn, ac mae fy mab yn ei chael hi'n anodd.*

(2) Dim ond drwy neges destun neu system gyfrifiadurol ar-lein y mae'r awdurdod lleol wedi rhoi gwybod i'r rhiant/rhieni am benderfyniad. Weithiau, mae'n digwydd drwy e-bost byr gan Swyddog ADY yn yr Awdurdod Lleol. Mae ar ffurf neges fer ac nid yw'n nodi'n glir mai penderfyniad terfynol yr awdurdod lleol ydyw ond yn hytrach mae'n awgrymu mai penderfyniad dros dro neu benderfyniad y llys ydyw ac efallai y bydd yr awdurdod lleol yn ei adolygu neu y gall ei adolygu ar ddyddiad diweddarach, heb ei ddiffinio. Nid yw'n darparu gwybodaeth am hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

*Cefais neges destun gan fy awdurdod lleol. Nid oedd yn dweud gan bwy yr oedd wedi dod. Dim ond ei fod wedi penderfynu nad oedd gan fy mhlentyn ADY oherwydd y gallai'r ysgol ddiwallu ei hanghenion. Nid wyf wedi gallu darganfod pwy wnaeth y penderfyniad na pham y gwnaeth benderfynu hynny. Cefais fanylion mewngofnodi i rywbeth o'r enw porth. Nid oes gen i gyfrifiadur ac nid oeddwn yn gallu cysylltu â’r porth ar fy ffôn. Nid oeddwn wedi cofrestru ac nid oedd gen i’r cod. Rhoddais y ffidil yn y to.*

(3) Mae’r awdurdod lleol yn cyflwyno penderfyniad ffurfiol i’r rhiant/rhieni ond nid yw’n rhoi gwybod iddynt am eu hawl i apelio i’r Tribiwnlys.

*Dywedodd yr awdurdod lleol wrthyf nad oedd yn cytuno y dylai fy merch newid ysgol. Nid oeddwn yn gwybod y gallwn i apelio i'r Tribiwnlys nes i Fam yn yr ysgol ddweud wrthyf efallai y gallwn i wneud hynny. Chwiliais am y Tribiwnlys ar y we yn hwyr neithiwr ac rwyf wedi bod yn edrych ar eich gwefan. Nid wyf yn credu y gallaf apelio gan nad yw fy llythyr yn dweud fy mod yn gallu gwneud hynny.*

Mae'r broses o wneud penderfyniadau hefyd yn aneglur.

*Panel sy’n gwneud penderfyniadau yn ein hawdurdod lleol. Dywedwyd wrthym nad oedd cofnodion ar gael ynghylch pwy neu pam y gwnaethant eu penderfyniad nad oes gan ein mab ADY. Nid yw'n bosibl gwybod pwy wnaeth y penderfyniad hwn na pham.*

Yn aml, nid yw awdurdodau lleol yn egluro sail eu penderfyniad yn eu hymateb i'r apêl. Mae rhai awdurdodau lleol yn dal i gyfeirio at y Gyfraith AAA wrth geisio dadlau dros y rhesymau am y penderfyniad. Gwelir hyn amlaf yng nghyd-destun lleoliad ysgol.

> *Byddai rhoi xx yn Ysgol xx yn unol â chais y rhieni a nodi hynny yn ei CDU yn arwain at ddefnyddio adnoddau'n aneffeithlon o dan atodlen 27(3)(3) i Ddeddf Addysg 1996.*

Mae gennym dystiolaeth bod awdurdodau lleol weithiau'n rhoi cyngor anghywir i riant/rhieni. Fel arfer, mae hyn naill ai'n ymwneud ag a oes ganddynt hawl i apelio i'r Tribiwnlys, rhagolygon eu hachos neu'r gyfraith i'w defnyddio. Mae cyfeiriad at bolisi ADY awdurdod lleol yn hytrach na'r gyfraith wedi cael ei adrodd gan riant/rhieni ac mae hefyd wedi cael ei ailadrodd i'r Tribiwnlys mewn gwrandawiadau.

> *Os nad yw plentyn wedi cael diagnosis o Awtistiaeth, ni ellir ei roi mewn ysgol arbennig. Dyma bolisi'r awdurdod lleol.*

> *Nid yw'r ffaith bod gan eich plentyn Ddatganiad AAA yn golygu bod ganddo ADY.*

> *Nid oes diben apelio i'r Tribiwnlys gan nad dyna sut rydym yn gwneud pethau yma.*

<u>Materion i'w hystyried</u>

**Mater i'w ystyried: Proses yr awdurdod lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau**

Nid yw'r broses y mae awdurdod lleol, neu gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad addysg bellach, yn ei hystyried ac yna'n gwneud penderfyniadau drwyddi wedi'i nodi yn Neddf ALNET na'r Cod ADY. Yn ymarferol, mae'r broses o wneud penderfyniadau yn aml yn cael ei dirprwyo i "banel" ADY yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Nid yw'r broses o recriwtio i baneli o'r fath na'u cyfansoddiad yn dryloyw. Nid yw'r broses y mae'n rhaid iddynt ei dilyn wrth ystyried a gwneud penderfyniadau ADY yn glir. Mae'r Tribiwnlys yn mynnu bod yr awdurdod lleol yn darparu copïau o nodiadau cyfarfodydd fel rhan o'r cyfarwyddiadau cofrestru. Anaml iawn y mae'r rhain ar gael a phan gânt eu darparu, maent yn dangos nad oedd y penderfyniad fel arfer yn seiliedig ar ofynion Deddf ALNET. Mae Pennod 20 o'r Cod yn rhoi canllawiau ynghylch pryd mae'n ymddangos y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, ac yn penderfynu ar y DDdY sydd ei hangen ond mae hyn yn canolbwyntio ar gasglu'r dystiolaeth sy'n ofynnol, nid ar y broses o wneud penderfyniadau ei hun.

**Mater i'w ystyried: Cyfleu penderfyniadau'r awdurdod lleol**

Nid oes proses glir ar gyfer hysbysu rhieni a phobl ifanc am y penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol.

Mae hyn yn arbennig o wir yn achos penderfyniadau lle mae hawl i apelio.

Nid oes llythyr safonol y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei chyhoeddi i gwblhau ei broses o wneud penderfyniadau.

Er bod gofynion clir o dan y Cod ADY i gyfleu penderfyniadau awdurdod lleol i riant/rhieni neu blant a phobl ifanc, mae'r dystiolaeth yn dangos mai anaml y mae hyn yn digwydd. Yn yr awdurdodau lleol hynny lle maent wedi adolygu a chyflwyno prosesau cadarn, bu cynnydd yn nifer yr apeliadau a wnaed i'r Tribiwnlys.

Mae'n ymddangos bod cyfarfodydd Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn rhai awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio i roi gwybod i riant/rhieni nad oes gan eu plentyn ADY neu na all yr awdurdod lleol gynnal CDU. Mae hyn yn arwain at beidio â chyhoeddi penderfyniad ffurfiol neu at beidio â darparu gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys. Yn rhy aml, mae'r cyfarfodydd hyn yn cyfeirio at bolisi awdurdod lleol fel sail i'w benderfyniad yn hytrach na'r gyfraith.

Mewn rhai awdurdodau lleol, nid yw penderfyniadau a gwybodaeth ofynnol yn cael eu cyfleu'n glir i riant/rhieni neu blant a phobl ifanc. Nid yw defnyddio systemau gwybodaeth ar-lein na negeseuon e-bost/negeseuon testun achlysurol yn darparu'r wybodaeth ofynnol am y penderfyniad sydd wedi'i wneud, y rhesymau dros y penderfyniad na'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys. Yn yr achosion gwaethaf, mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi ffonio rhiant/rhieni ac nid ydynt wedi cyflwyno dim byd yn ysgrifenedig. Yn aml, mae Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ysgol yn cael gwybodaeth anghywir am y prawf cyfreithiol perthnasol, er enghraifft pan fydd gan blant a phobl ifanc ADY neu pan fydd y CDU i'w gynnal gan awdurdod lleol yn hytrach nag ysgol. Byddant wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth anghywir hon i'r rhiant/rhieni.

Mae gormod o rieni yn cysylltu â'r Tribiwnlys am nad ydynt yn siŵr a yw'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad ai peidio. Pan fydd y Tribiwnlys wedi'i argyhoeddi ei bod yn debygol bod penderfyniad wedi'i wneud, bydd yr achos yn cael ei gofrestru ac yna bydd yr awdurdod lleol yn cael gorchymyn i ddarparu copi o'i benderfyniad. Hyd nes y bydd awdurdod lleol wedi cyflwyno penderfyniad i riant/rhieni neu blant a phobl ifanc gyda'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Cod ADY, nid yw'r terfyn amser statudol o ddau fis ar gyfer cofrestru apêl gyda'r Tribiwnlys wedi cael ei sbarduno, gan nad oes digon o rybudd wedi cael ei roi.

Pan gynhelir cyfarfod gan ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol i drafod ADY neu CDU plant a phobl ifanc, nid oes gofyniad penodol i ddarparu gwybodaeth neu gyngor yn y cyfarfodydd hyn. Nid oes gofyniad penodol chwaith y dylai unrhyw wybodaeth neu gyngor fod yn gywir ac yn seiliedig ar y gyfraith.

7.20 **Hawliau i apelio i'r Tribiwnlys a phwerau'r Tribiwnlys**

Y Canllawiau a'r Gyfraith Berthnasol

Mae'r hawliau i apelio i'r Tribiwnlys wedi'u nodi yn ***adran 70(2) o Ddeddf ALNET:***

*Caiff plentyn neu berson ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y materion a ganlyn—*

(a) *penderfyniad gan gorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru o dan adran 11 neu gan awdurdod lleol o dan adran 13, 18 neu 26 o ran a oes gan berson anghenion dysgu ychwanegol;*

(b) *yn achos person ifanc, penderfyniad gan awdurdod lleol o dan adran 14(1)(c)(ii) o ran a oes angen llunio a chynnal cynllun datblygu unigol;*

(c) *y disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person mewn cynllun datblygu unigol;*

(d) *y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun datblygu unigol neu'r ffaith nad yw darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun (gan gynnwys a yw'r cynllun yn pennu y dylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg);*

(e) *y ddarpariaeth a gynhwysir mewn cynllun datblygu unigol o dan adran 14(6) neu 19(4) neu'r ffaith nad yw darpariaeth o dan yr adrannau hynny yn y cynllun;*

(f) *yr ysgol a enwir mewn cynllun datblygu unigol at ddiben adran 48;*

(g) *os nad enwir ysgol mewn cynllun datblygu unigol at ddiben adran 48, y ffaith honno;*

(h) *penderfyniad o dan adran 27 i beidio â diwygio cynllun datblygu unigol;*

(i) *penderfyniad o dan adran 28 i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynllun datblygu unigol yn dilyn cais i ystyried gwneud hynny;*

(j) *penderfyniad i beidio â chynnal cynllun datblygu unigol o dan adran 31(5) neu 31(6);*

(k) *penderfyniad o dan adran 32(2) y dylai corff llywodraethu ysgol a gynhelir beidio â chynnal cynllun;*

(l) *gwrthodiad i benderfynu ar fater ar y sail bod adran 11(3)(b), 13(2)(b), 18(2)(b) neu 29(2)(a) yn gymwys (dim newid sylweddol mewn anghenion a dim gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad).*

Mae ***Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021*** yn ymdrin â gweithdrefn y Tribiwnlys.

Mae fformat CDU wedi'i nodi yn y Cod ADY ac mae templed ar gael. Mae'r Cod ADY yn ceisio diffinio ymhellach gynnwys CDU y mae gan y Tribiwnlys awdurdodaeth drosto.

**Y Cod ADY 23.13 a 23.14 - Elfennau o CDU y gellir apelio yn eu cylch i'r Tribiwnlys**

*Yr elfennau yw:*

*2A Disgrifiad o DDdY y plentyn neu'r person ifanc*
*2B.2 Disgrifiad o DDdY y plentyn neu'r person ifanc – y DDdY i'w darparu*
*2B.3 Disgrifiad o DDdY y plentyn neu'r person ifanc – A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?*
*2B.5 Dyddiad dechrau*
*2B.6 Dyddiad gorffen*
*2C.2 Y DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG – y DDdY i'w darparu*
*2C.3 Y DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG – A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?*
*2C.5 Dyddiad dechrau*
*2C.6 Dyddiad gorffen*
*2D Lle mewn ysgol a enwir/sefydliad a enwir neu ddarpariaeth bwyd a llety*

**Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin** (diweddarwyd y canllawiau ddiwethaf 11 Mai 2022):

*Yn wahanol i ddatganiadau, darperir CDUau i blant a phobl ifanc ag ADY, beth bynnag yw difrifoldeb neu gymhlethdod eu hanghenion. Mae statws statudol y CDU yr un fath, beth bynnag yw lefel anghenion y plentyn neu'r person ifanc, a bydd gan unrhyw un sydd â CDU yr un hawliau i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.*

Tystiolaeth

Mae llawer o'r cwestiynau cychwynnol a ofynnwyd ar linell ffôn y Tribiwnlys yn ymwneud ag a oes gan y rhiant/rhieni hawl i apelio ac yna, beth y gallant apelio yn ei erbyn.

*Nid oeddem yn deall pa benderfyniad yr oedd yr awdurdod lleol wedi'i wneud ac nid oeddem yn deall beth oedd ei angen arnom i apelio i'r Tribiwnlys. Nid oedd cyngor ar gael. Fe wnaethom dicio'r blychau roeddem yn meddwl bod angen i ni eu ticio. Pan wnaethom ni siarad â'r Barnwr ar y fideo cyn y gwrandawiad, fe wnaeth ein helpu i ddeall beth oedd yr Awdurdod Lleol wedi'i wneud. Newidiwyd yr apêl i*

*gynnwys yr ysgol yr oeddem yn dymuno ei chael – er bod y dyn o'r awdurdod lleol wedi dweud na allai wneud hynny.*

Ni all y Tribiwnlys roi cyngor na chymorth i'r rhiant/rhieni, y plant a'r bobl ifanc na'r awdurdod lleol, ond yn gyson mae ymholiadau dros y ffôn ac e-bost at weinyddiaeth y Tribiwnlys yn codi cwestiynau nad ydynt wedi gallu eu hateb yn unman arall.

Fel rhan o broses y Tribiwnlys, cynhelir gwrandawiad rheoli achos cyn gwrandawiad i sicrhau bod pawb yn glir ynghylch y materion sydd heb eu datrys y mae angen eu hystyried a'u penderfynu yn yr achos.

*Mae'r holl broses ADY mor ddryslyd. Y Barnwr oedd y person cyntaf a allai ei egluro i ni mewn iaith yr oeddem yn ei deall. Cawsom wybod bod yr hyn a ddywedodd yr awdurdod lleol wrthym yn anghywir.*

<u>Materion</u>

**Mater i'w ystyried: Pryd mae'r hawl i apelio yn cael ei sbarduno**

Pan fydd ysgol yn cyfeirio penderfyniad y mae wedi'i wneud at yr awdurdod lleol, hynny yw, y dylai CDU gael ei gynnal gan yr awdurdod lleol, yna mae angen i'r awdurdod lleol adolygu'r penderfyniad hwnnw. Dim ond ar ôl i'r penderfyniad hwnnw gan yr awdurdod lleol gael ei gyhoeddi y bydd hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn cael ei sbarduno.

Mae rhai ffynonellau gwybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol i ysgolion yn awgrymu bod gan riant/rhieni neu blant a phobl ifanc hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad a wneir gan ysgol pan fydd ganddynt CDU. Nid yw hyn yn wir.

Mae'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch pryd y mae hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir gan sefydliadau addysg bellach a phryd y mae'n rhaid i awdurdod lleol wneud penderfyniad ynghylch ADY person ifanc ôl-16 yn gyfyngedig.

**Mater i'w ystyried: Mwy nag un penderfyniad – hawliau apelio**

Nid yw cwmpas apêl i'r Tribiwnlys wedi'i gyfyngu gan y penderfyniad a sbardunodd yr apêl. Er enghraifft, os caiff hawl i apelio ei sbarduno gan awdurdod lleol yn gwrthod cais i gynnal CDU, gellir cofrestru apêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw ond hefyd yn erbyn cynnwys y CDU a'r disgrifiad o ADY, DDdY a lleoliad addysgol o dan Adran 2D y CDU. Os penderfynir bod yn rhaid i'r awdurdod lleol gynnal y CDU, yna gellir adolygu cynnwys y CDU hefyd, gan fod CDU a gynhelir gan awdurdod lleol ar waith bryd hynny.

**Mater i'w ystyried: Datgysylltiad rhwng Deddf ALNET a'r Cod mewn perthynas ag awdurdodaeth y Tribiwnlys**

Mae'r gyfraith o dan adran 70 o Ddeddf ALNET yn rhoi awdurdodaeth i'r Tribiwnlys ystyried apeliadau. Mae'r Cod ADY yn awgrymu y gall y Tribiwnlys hefyd benderfynu

ar apeliadau yn erbyn yr adrannau o'r CDU sy'n ymdrin â dyddiadau dechrau a gorffen nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn adran 70.

Mae ffurf ragnodedig ar CDU y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei defnyddio. Mae hwn yn nodi beth ddylai ymddangos ym mhob Adran. Mae adran 2B ar gyfer sicrhau DDdY gan yr awdurdod lleol. Mae adran 2C ar gyfer DDdY i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG.

Mae'r Cod ADY yn dweud bod modd apelio i'r Tribiwnlys ac nid yw Adran 70 (2) (d) (yr hawl i apelio ynghylch DDdY) yn gwahaniaethu rhwng DDdY a sicrheir gan awdurdod lleol a DDdY a sicrheir gan un o gyrff y GIG.

Fodd bynnag, nid yw'r corff GIG yn rhan o apêl i'r Tribiwnlys sydd rhwng yr Apelydd a'r awdurdod lleol. Nid yw'n glir, felly, pa mor effeithiol yw'r hawl i apelio yn erbyn Adran 2C.

Mae gan y Tribiwnlys bŵer (ar wahân) i wneud argymhellion (Adran 76).

## Atodiad 1 – Ystadegau'r Tribiwnlys

| **Math o apêl (1)** | **Medi 2024 – Mawrth 2025** | **Medi 2023 – Awst 2024** | **Medi 2022 – Awst 2023** | **Medi 2021 – Awst 2022** |
|---|---|---|---|---|
| Oes gan y plentyn ADY | **12** | **8** | **16** | **2** |
| Awdurdod lleol yn llunio ac yn cynnal CDU | **9** | **6** | **2** | **0** |
| Gwrthod Newid CDU | **10** | **2** | **0** | **0** |
| Gwrthod cymryd drosodd cyfrifoldeb am CDU | **13** | **8** | **1** | **2** |
| Peidio â chynnal | **4** | **0** | **1** | **0** |
| Gwrthod penderfynu ar fater | **4** | **2** | **0** | **1** |
| Angen | **1** | **0** | **0** | **0** |
| Darpariaeth | **6** | **9** | **4** | **0** |
| Ysgol | **7** | **30** | **9** | **0** |
| Angen a Darpariaeth | **5** | **4** | **0** | **1** |
| Angen ac Ysgol | **0** | **1** | **0** | **0** |
| Darpariaeth ac Ysgol | **7** | **7** | **2** | **0** |
| Angen, Darpariaeth ac Ysgol | **12** | **29** | **5** | **1** |
| Cyfanswm | **90** | **107** | **41** | **7** |

Troednodyn (1): Gall apêl a gofrestrir gwmpasu mwy nag un hawl i apelio

### Cynrychiolaeth mewn Gwrandawiad

| Cynrychiolaeth Rhieni | Nifer | Canran | Cynrychiolaeth Awdurdod Lleol | Nifer | Canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Hunangynrychioli | 36 | 48.5% | Cynrychiolydd – heb fod yn gyfreithiol | 21 | 29% |
| Cynrychiolydd – heb fod yn gyfreithiol | 22 | 21.5% | Cynrychiolydd – cyfreithiol mewnol | 4 | 5% |
| Cynrychiolydd – Cyfreithiol | 16 | 30% | Cynrychiolydd – Cyfreithiol allanol | 48 | 66% |